BBC Trust

# Ymateb y BBC i Ail Adolygiad Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom, Cyfnod 1

# Rhagair

Mae hwn yn gyfnod pwysig i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus (PSB) yn y DU. Mae'r ffiniau rhwng y byd teledu, radio ac ar-lein sy'n draddodiadol ar wahân, yn diflannu. Mae'r newid i ddigidol eisoes yn realiti i drigolion Whitehaven yn Cumbria ac mi fydd yn yr un modd i wylwyr yn ardal Border erbyn i Ofcom gwblhau ei adolygiad. Mae treiddio band eang yn cynyddu'n gyflym ac mae llwyddiannau iPlayer y BBC, ITV.com a 4oD wedi dangos awydd y cyhoedd am gynnwys ar-alw.


Mae cystadleuaeth am gynulleidfaoedd y DU yn dod yn fwy byd-eang, gyda phrif chwaraewyr fel Google a Microsoft yn cyflwyno her newydd i ddarlledwyr traddodiadol. Gall cynulleidfaoedd gael mynediad at fwy o gynnwys nag erioed o'r blaen, ac nid yw poblogrwydd mewnforion ansawdd uchel o UDA yn dangos unrhyw arwydd o bylu. Mae'r gystadleuaeth hon yn rhoi pwysau cynyddol ar lefel cynhyrchu yn y DU gan ddarlledwyr masnachol a'r system PSB ei hun.

Mae cynulleidfaoedd yn newid hefyd. Mae strwythurau teuluol a chymdeithasol traddodiadol yn chwalu; mae proffil demograffig y DU yn newid; mae amrywiaeth gynyddol ymhlith y cynulleidfaoedd y mae'r BBC yn eu gwasanaethu. Mae'r ffaith fod bywyd yn newid yn y DU wedi creu gwe gymhleth o 'berthyn' i'w ddinasyddion a llawer o drafod ynglŷn â'r syniad o 'Brydeindod'.

I ymateb i'r byd hwn sy'n newid yn gyflym, rwy'n croesawu penderfyniad Ofcom i gyflwyno ei ail adolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. O ymchwil Ofcom a'n hymchwil ein hunain, mae'n amlwg bod cynulleidfaoedd yn parhau i werthfawrogi PSB yn fawr, iddyn nhw eu hunain fel defnyddwyr, ac i'r gymdeithas yn gyffredinol. Efallai bod hyd yn oed angen gwella rôl PSB mewn cymdeithas sy'n gynyddol amrywiol a rhanedig. Y cwestiwn felly yw sut y gall PSB - a'r BBC fel conglfaen ohono - gyflawni'r her a gwasanaethu anghenion cynulleidfaoedd yn y ffordd orau yn y dyfodol.

Rwyf wedi galw am drafodaeth agored ac amrywiol yn y gorffennol, sy'n canolbwyntio ar ddiddordebau cynulleidfaoedd. Yr hyn sy'n dilyn yw ein cyfraniad cychwynnol at y drafodaeth hon; ymateb ar y cyd i Ofcom gan Ymddiriedolaeth y BBC a Bwrdd Gweithredol y BBC. Mewn trafodaeth am ddyfodol PSB, roeddem yn teimlo ei bod yn bwysig i'r BBC gyflwyno gweledigaeth ar y cyd. Mae'r BBC eisoes yn newid i ymateb i'r byd sy'n newid y mae'n gweithredu ynddo. Mae'r ymateb hwn i Ofcom yn archwilio rhai o'r newidiadau hynny, a'r hyn y maent yn ei olygu i gynulleidfaoedd. Mae'n adlewyrchu'r strategaeth chwe blynedd ar gyfer y BBC y cytunodd yr Ymddiriedolaeth arni tua diwedd y llynedd, a thu hwnt i'r terfyn amser hwnnw, mae'n adlewyrchu trafodaeth ar y cyd rhwng dwy ochr y BBC a'n casgliadau cychwynnol ar yr heriau sydd o'n blaenau ac atebion posibl.

Mae ein gweledigaeth yn canolbwyntio nid ar anghenion sefydliadol cul ond ar y ffordd orau o wasanaethu cynulleidfaoedd mewn byd cymhleth sy'n newid. Wrth i ni symud i ail gyfnod adolygiad Ofcom, byddwn yn gofyn barn y rheiny sy'n talu'r ffi dtrwydded, gwneuthurwyr polisi a'r diwydiant darlledu ar y syniadau a gynigiwyd gennym.



*Syr Michael Lyons, Cadeirydd*

# Cynnwys


**1 HER CYNALIADWYEDD** ....................................................... ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.

**2 CRYNODEB GWEITHREDOL** ..................................... ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.

**3 Y CYD-DESTUN AR GYFER ADOLYGIAD OFCOM** ........................................................................ **3**

3.1 Cyflwyno PSB heddiw ........................................................................................................ 3

3.2 Perthnasedd parhaus PSB ................................................................................................. 3

3.3 Yr heriau i PSB yn y dyfodol .............................................................................................. 3

**4 Y CYFLE DIGIDOL** ................................................................ ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.

4.1 PSB mewn oes ddigidol ..................................................................................................... 3

4.2 Rôl y BBC yn y newid ........................................................................................................ 3

**5 PWYSIGRWYDD LLUOSOGRWYDD** .................................... ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.

5.1 Lluosogrwydd yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol ..................................................... 3

5.2 Lluosogrwydd PSB heddiw ................................................................................................. 3

5.3 Lluosogrwydd sefydliadol ................................................................................................... 3

5.4 Pwyntiau pwysau yn y dyfodol .................................................. **Error! Bookmark not defined.**

**6 YMAGWEDDAU A CHYLLID YN Y DYFODOL** ........................................................................ **3**

6.1 Dylunio model newydd ....................................................................................................... 3

6.2 Cyflwyno PSB effeithiol ...................................................................................................... 3

6.3 Lefel a ffynonellau cyllid ..................................................................................................... 3

**7 Y FFORDD YMLAEN** ............................................................ ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.

7.1 Newid dibenion a nodweddion ............................................................................................ 3

7.2 Cylchoedd gwaith a chyfrifoldebau .................................................................................... 3

7.3 Casgliad ................................................................................ **Error! Bookmark not defined.**

**ATODIAD 1: YMATEBION I GWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD** ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.

# 1 Her cynaliadwyedd

Mae'r adran hon yn archwilio'r heriau ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol. Mae'n amlinellu gweledigaeth ar y cyd rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol ac ymrwymiad y dylai'r BBC wneud mwy mewn cydweithrediad â'r diwydiant darlledu ehangach er lles cynulleidfaoedd. Mae'n gorffen â datganiad gan y Cyfarwyddwr-Cyffredinol yn amlinellu syniadau ar gyfer datgloi pŵer partneriaeth ar draws y sector.

Fe'i dilynir gan Grynodeb Gweithredol o ymateb manwl y BBC i ymgynghoriad Ofcom.

**Mae'r DU yn cael ei hedmygu ledled y byd am ansawdd ac amrediad ei darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Disgrifir y BBC yn aml fel conglfaen system PSB y DU, ond mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill - yn enwedig ITV, Channel 4 a Five - yn parhau i wneud cyfraniadau hanfodol. I gynulleidfaoedd, mae'r system hon wedi golygu mwy o fuddsoddi mewn cynnwys gwreiddiol, mwy o ddewis a mwy o arloesedd.**

**Yn awr, yn debyg i weddill sector y cyfryngau, mae'r system hon yn wynebu newid hollol newydd. Mae cyfleoedd newydd a chyffrous i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a ariennir yn fasnachol, ond mae ystod o ddatblygiadau aflonyddgar dwys hefyd.**

**Mae'r BBC wedi datblygu gweledigaeth glir o sut i gyflawni ei amcanion cyhoeddus mewn oes ddigidol. Mae hefyd yn mwynhau manteision maint – a thrwy ffi'r drwydded - cyllid cymharol ddiogel. Yr her yn awr yw dod o hyd i ffyrdd pendant y gall y conglfaen hwn yn narlledu gwasanaeth cyhoeddus y DU - heb wanhau ei allu i gyflawni ei genhadaeth gyhoeddus ei hun - gefnogi gweddill strwythur unigryw a gwerthfawr.**

Mae'r DU yn elwa'n ddiwylliannol ac yn economaidd ar un o'r sectorau darlledu mwyaf bywiog a chystadleuol yn y byd. Ond eto, bydd darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei gyflwyno cyn bo hir mewn cyd-destun na ellir ei adnabod bron o ddewis cyfyngedig yr hen oes. Mae'r grymoedd sy'n achosi newid yn ddwys: globaleiddio, digido, ymrannu, diwedd hen sicrwydd rheoleiddio. Bydd angen ymagweddau mwy ystwyth, effeithlon a chyfunol ar bob un o'r rhain yn y dyfodol.

Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a ariennir yn fasnachol yn wynebu her benodol. Nid yw hysbysebu ar y teledu yn ffynhonnell refeniw mor iach ac ydoedd – mae'r ffaith fod mwy o gystadleuaeth, a'r rhwystrau mynediad yn is na'r rheiny a ffurfiodd ddarlledu – yn golygu sicrhau ffrydiau refeniw rhanedig sy'n anos eu cael. Mae amlder llwyfannau a thechnolegau, yn y cyfamser, yn golygu bod penderfyniadau am fuddsoddi yn cael eu gwneud yn amlach a'u bod yn fwy peryglus. Mae darlledwyr yn cael llai o werth o'r sbectrwm y cânt fynediad breintiedig ato. Yn y cyfamser, mae wedi dod yn anos diffinio a gwasanaethu cynulleidfaoedd. O ddod o hyd i'r dôn llais gywir i gael y fantais lawn o dechnolegau newydd – mae bron pob un o'r newidynnau sydd wrth wraidd darlledu wedi dod yn fwy cymhleth a chydblethedig.

Bydd dylanwad globaleiddio ar lawer o feysydd darlledu yn y DU yn tyfu. Bydd cynnyrch o'r radd flaenaf yn gosod disgwyliadau ansawdd yn gynyddol ar draws ffiniau yn yr un modd ag y gwnaeth mewn sectorau eraill. Mae llawer o raglenni blaenllaw yn y DU eisoes yn cymryd eu meincnodau ar gyfer ansawdd ac arloesedd cymaint o gynnyrch rhyngwladol ag o raglenni mewnol sy'n cystadlu â nhw. Gall hyd yn oed y BBC ganfod ei fod ar yr isafswm graddfa mewn rhai meysydd i wneud cynnwys sy'n cystadlu yn erbyn cynnwys gorau'r byd. Mae'n amlwg bod yn rhaid ehangu trafodaethau traddodiadol am luosogrwydd wrth i'r sbardun i ansawdd ac arloesedd mewn PSB fod yn gynyddol ar draws llwyfannau, ar draws genres ac ar draws ffiniau.

Ac eto, mae'r byd cwbl ddigidol yn cynnig llawer mwy o gyfle na her. Pan fydd y newid i ddigidol yn gyflawn a phan fydd treiddio band eang yn agos at fod yn gwbl gyffredin, bydd byd cwbl ddigidol wedi cyrraedd cartref pawb. Gallai gwylio ar-alw gystadlu yn erbyn gwylio cyffredin. Bydd teuluoedd a chymunedau yn parhau i ddod at ei gilydd i fwynhau cynnwys gwreiddiol, ansawdd uchel y DU – boed hynny'n newyddion pwysig, yn hanes naturiol cofiadwy neu'n ddrama gyfnod. Ond bydd cynulleidfaoedd yn rheoli mewn ffordd nad ydynt erioed wedi gwneud o'r blaen.

Er ein bod yn croesawu'r dewis a ddarperir gan ddarlledwyr newydd, gall a rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gyflawni rôl bwerus yn y dyfodol hwn: sicrhau cyflenwad cyson o gynnwys newydd ansawdd uchel; buddsoddi mewn casglu'r prif newyddion, dod â chynulleidfaoedd newydd ar-lein trwy frandiau dibynadwy. Yn wir, y mwyaf hollbresennol ac amrywiol yw darpariaeth y cynnwys, y cryfaf yw'r angen am ganllawiau dibynadwy a'r uchaf yw'r galw am gynnyrch o ansawdd uchel i osod safonau.

Oherwydd wrth i gyfran reoledig cynnwys gwasanaeth cyhoeddus cyffredinol ddirywio, mae'n gwbl bosibl y bydd ei phwysigrwydd yn codi. Mae ein dadansoddiad o werth tri mis o gynnyrch ac ymddygiad gwylio yn dangos, er enghraifft, er bod cynnwys PSB a gynhyrchir yn y DU yn cyfrif am 16% yn unig o'r cynnyrch, roedd yn cyfrif am 70% o'r gwylio gwirioneddol ar draws yr holl sianeli. Mae iPlayer y BBC, yn y cyfamser, yn cael gwared ar yr ofnau blaenorol na fydd pobl yn gwylio cynnwys ffurf hir ar eu cyfrifiaduron, yn enwedig rhai cynulleidfaoedd hŷn a allai fod yn anodd eu cyrraedd fel arall.

I sicrhau'r cyfle llawn ar gyfer PSB mewn oes ddigidol, rhaid i ddarlledwyr a ariennir yn fasnachol allu gwneud penderfyniadau hyblyg i ymateb i'r grymoedd sy'n ffurfio eu diwydiant. Dim ond bryd hynny y gallant fodloni'r gofynion newydd am ansawdd ac arloesedd mewn dyfodol mwy byd-eang a digidol. A dim ond bryd hynny hefyd y gallant barhau i wneud cyfraniad cynaliadwy at economi greadigol y DU a chynnal eu her greadigol i'r BBC.

**Cynulleidfaoedd**

Rhaid i gynulleidfaoedd fod wrth wraidd unrhyw drefniant newydd ar gyfer PSB. Nod Ymddiriedolaeth y BBC yw cynrychioli lles y rheiny sy'n talu ffi'r drwydded ac mae'r system lywodraethu newydd wedi dechrau rhoi mwy o ffocws ar anghenion a phryderon y gynulleidfa. Mae'r Ymddiriedolaeth, ers ei dechrau, wedi ymgymryd ag ymchwil amrywiol i ddeall anghenion cynulleidfa yn y DU sy'n newid ac yn mynd yn fwyfwy cymhleth. Fel rhan o'r ymateb hwn, mae'r BBC bellach wedi cwblhau un o'r rhaglenni ymchwil mwyaf amrywiol a gynhaliwyd i farn y cyhoedd ar PSB a'i ddyfodol. Yr hyn sy'n amlwg o'r ymchwil hwn yw bod cynulleidfaoedd:

- Yn credu bod rôl PSB mor bwerus ag erioed.  Yn wir, mae gwaith yr Ymddiriedolaeth gyda'r Ganolfan Ymchwil Materion Cymdeithasol wedi dangos y gallai rôl y PSB fod hyd yn oed yn fwy wrth gyfrannu at gydlyniad cymdeithasol yn y dyfodol
- Yn gweld y BBC fel y conglfaen o ran cyflwyno PSB, gyda disgwyliadau uchel a chynyddol o'r hyn y dylai ei gyflawni.

Mae'r ymchwil hwn, o'i gyfuno â chyswllt y BBC bob dydd â miloedd o bobl sy'n talu ffi'r drwydded, wedi llywio a ffurfio ein casgliad mai'r tair agwedd ganlynol fydd yn sicrhau dyfodol cadarn i PSB yn y DU.

**Y BBC**

Ar ei orau, gall y BBC helpu darlledu yn y DU i gadw ei ffocws cenedlaethol ansawdd uchel yn wyneb grymoedd hollol aflonyddgar.  Nid BBC hunanfodlon, digyfnewid mohono - ond BBC sy'n cyfuno ymrwymiad llwyr i'w ddibenion cyhoeddus, ac i ansawdd, ystod ac arbenigrwydd, gyda gweledigaeth glir o'i genhadaeth mewn oes ddigidol.  BBC sy'n gwrando ar yr hyn y mae cynulleidfaoedd ei eisiau ac yn gwneud newidiadau pwysig, sydd weithiau'n boenus, i fodloni ei ddibenion.  BBC sy'n cefnogi bywyd creadigol y DU ac yn parhau i hyfforddi nid yn unig ei staff ei hun, ond pobl ar draws y diwydiant.  Caiff ei lywodraethu gan Ymddiriedolaeth BBC sy'n parhau i gynrychioli pawb sy'n talu ffi'r drwydded, gan hyrwyddo eu diddordebau mewn modd gweithredol wrth roi sylw priodol i effaith gystadleuol y BBC.

Mae'r BBC wedi ymrwymo i fuddsoddi yn ansawdd a gwreiddioldeb ei holl gynnwys a gwasanaethau, yn ogystal â meithrin bywyd diwylliannol a chreadigol y DU.  Bydd yn gwasanaethu'r DU gyfan, gan gynnwys gan wneud 50% o gynnyrch teledu rhwydwaith y BBC y tu allan i Lundain erbyn 2016.

Yr hyn sy'n bwysig yw bod y BBC yn credu bod gallu'r cyhoedd i ymgysyltu â, a derbyn amrywiaeth gyfoethog o gynnwys wedi cynyddu yn hytrach na gostwng.  O'r herwydd mae Five yn sgrinio rhaglenni craff fel *Paul Merton in China* a chynnyrch ansawdd uchel i blant fel *Milkshake*, a Sky yn sgrinio ei gynnyrch celfyddydol neu *Ross Kemp in Afghanistan* – nid oherwydd bod rhaid iddynt, ond oherwydd eu bod yn ymateb i alw diffuant am gymysgedd cyfoethocach o gynnwys ansawdd da.   Caiff hyn ei yrru gan gynulleidfa gynyddol rymus, amodau marchnad y BBC, a byd newydd o gynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar-lein – mae'r galw hwn yn fwy tebygol o gynyddu nag o ostwng.

Bydd meysydd o gynnyrch gwasanaeth cyhoeddus, wrth gwrs, sy'n parhau i fod yn aneconomaidd i lawer o sefydliadau ar wahân i'r BBC eu darparu.  Ond ni ddylai unrhyw un frysio i ddod i'r casgliad ynghylch beth fydd y meysydd hyn – heb gystadleuaeth – ei eisiau am ansawdd.  Oherwydd mae diwylliant agored a chreadigol yn y BBC wedi gallu cynnal ansawdd uchel mewn meysydd lle nad oes llawer o gystadleuaeth uniongyrchol, boed hynny'n Radio 4, Radio 3, yn hanes naturiol neu'n feysydd cyfan o gynnwys ar gyfer plant hŷn.

Mae'r BBC yn sylweddoli bod ganddo ddyletswydd arbennig i sicrhau darpariaeth mewn meysydd lle mae'n debygol o fod yr unig gyfranogwr neu'n brif gyfranogwr.  Enghraifft o hyn yw ein cynnyrch plant, lle mae'r BBC wedi cynyddu ei fuddsoddiad ei hun yn sylweddol, gan fod buddsoddi yng nghynnyrch gwreiddiol y DU y tu hwnt i'r BBC wedi gostwng dros y degawd diwethaf.  I ategu ein hymrwymiad yn y

maes hwn ymhellach, mae Ymddiriedolaeth y BBC wedi treblu'r isafswm gwarantedig o gynnyrch plant ar BBC One a Two yn ddiweddar, i 1,500 awr y flwyddyn. Mae'r BBC hefyd wedi cyhoeddi buddsoddiad newydd mewn cynnyrch plant o £15 miliwn dros gyfnod o bum mlynedd, i'w gyfeirio tuag at darddiad ar-lein a theledu. Fel rhan o'i strategaeth *Cyflwyno Dyfodol Creadigol*, cyhoeddodd y BBC fuddsoddiad newydd mewn cynnig cynnwys aml-lwyfan ar gyfer plant yn eu harddegau o dan y brand BBC Switch. Cyfanswm y buddsoddiad hwn yw £7-10 miliwn y flwyddyn o fuddsoddiad mewn cynnwys teledu, ar-lein a radio na fyddai'r farchnad yn ei ddarparu. Yn olaf, ac yn amodol ar gymeradwyaeth reoleiddio, mae'r BBC yn bwriadu ymestyn oriau darlledu ei sianel ar gyfer plant hŷn, CBBC, i 9pm. Bydd ymrwymiad y BBC i newyddion rhanbarthol yn parhau i fod yr un mor gryf.

**Trefniant cynaliadwy ar gyfer PSB**

Dylai dyfodol cynaliadwy ar gyfer PSB ganolbwyntio ar BBC effeithiol sy'n wynebu cystadleuaeth greadigol ar draws ystod eang o raglenni gan ddarlledwyr llwyddiannus a ariennir yn fasnachol. Mae'n bwysig osgoi'r perygl o or-reoleiddio diwydiant sy'n agored i rymoedd aflonyddgar, oherwydd gallai hyn yn y pen draw arwain at PSB ansawdd is sy'n cael llai o arian – yn llai abl o ymateb i heriau'r farchnad a chodi safon y BBC. Gall ITV, Channel 4 a Five i gyd fanteisio ar eu cryfderau wrth gyflawni nodau blaenoriaethol PSB, a'r canlyniad fyddai cystadleuaeth gref a pharhaus i'r BBC, ynghyd â dewis ac amrywiaeth yn y rhan fwyaf o genres ar gyfer y rhan fwyaf o gynulleidfaoedd.

Dylai unrhyw drefniant PSB yn y dyfodol geisio cynnal cymysgedd cyfoethog o sefydliadau â gwahanol ffynonellau cyllid, strwythurau perchnogaeth ac ymagweddau golygyddol. Bydd amrywiaeth o ymagwedd naturiol a chynaliadwy yn deillio o'r amrywiaeth hon – yn fwy effeithiol ac effeithlon na thrwy ymyriadau uniongyrchol fel cystadleugarwch (y dylid ei ddefnyddio dim ond lle nad yw cyflwyno sefydliadol yn ddichonadwy). Rydym yn awgrymu y dylai ffocws polisi yn y dyfodol felly fod ar fesurau eang i gynnig cymysgedd o sefydliadau â gwahanol ymagweddau, yn hytrach nag ar ymyriadau manylach.

ITV yw'r unig ddarlledwr o hyd sy'n gallu sicrhau cyrhaeddiad ac effaith fawr yn gyson ar gyfer rhaglenni gwasanaeth cyhoeddus y tu hwnt i'r BBC. Credwn fod ganddo rôl hanfodol mewn nifer o feysydd: parhau i fuddsoddi mewn ystod eang o raglenni ansawdd uchel sy'n cyflawni dibenion a nodweddion Ofcom; buddsoddi mewn newyddion cenedlaethol; a chynnal ei gyfraniad sy'n datblygu ar gyfer newyddion rhanbarthol. Bydd gan Five rôl arwyddocaol yn ecoleg PSB yn y dyfodol hefyd, yn ychwanegu amrywiaeth at newyddion a rhaglenni materion cyfoes; gwasanaethu plant iau; a dod â thôn ac ymagwedd newydd i PSB yn gyffredinol.

Dylai Channel 4 barhau i ddarparu ei ddewis amgen hanfodol o PSB, gan fentro na fydd y BBC o bosibl yn gwneud hyn, a darparu ar gyfer grwpiau penodol – gan gynnwys plant hŷn – trwy elwa ar fanteision ei frand a ffyddlondeb ei gynulleidfa. Fel PSB sy'n cael ei berchnogi'n gyhoeddus, mae gan Channel 4, fel y BBC, gyfrifoldeb arbennig i weithio gyda'r sector annibynnol a'r diwydiannau creadigol ehangach i chwyldroi'r ffordd y caiff teledu ei gynhyrchu – i fanteisio ar lwyfannau newydd a sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf. Mae'r BBC eisoes wedi ymrwymo i gyflwyno 20% o effeithlonrwydd tebyg at ei debyg ar draws ei gomisiynau mewnol ac annibynnol dros y pum mlynedd nesaf ar gyfer ailfuddsoddi mewn rhaglenni a gwasanaethau. Gallai ymagwedd debyg yn Channel 4 – sydd o bosibl yn defnyddio rhywfaint o'r medrau sy'n cael eu datblygu gan y BBC ar hyn o bryd – gael effaith gadarnhaol sylweddol ar ei fodel busnes, ac felly ar gynaliadwyedd yr hyn y mae ei wasanaeth cyhoeddus yn ei gynnig.

Er bod gan bob un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus rôl yn nyfodol darlledu yn y DU, dylid addasu eu rhwymedigaethau yn y dyfodol.  Er enghraifft: trwy ymestyn dibenion PSB i'r cyfryngau newydd fel y mae treiddio band eang cynyddol yn caniatáu, gellid bodloni rhai amcanion PSB, er enghraifft, cynnyrch plant neu newyddion rhanbarthol, yn y dyfodol, a thrwy fuddsoddi mewn gwasanaethau cyfryngau newydd yn hytrach na mewn teledu darlledu ei hun, lle bo'n briodol.

Mae llawer o arfau ar gael i Ofcom ar gyfer cefnogi darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a ariennir yn fasnachol, a gall wneud defnydd llawn ohonynt – gan gynnwys o bosibl trwy ymrwymiad newydd y bydd y ffioedd sbectrwm y mae'n ofynnol i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu talu yn cael eu haddasu i adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng cost eu rhwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus a gwerth statws PSB iddynt.

**Partneriaeth**

Mae eisoes yn glir y bydd dyfodol cyffredinol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei feithrin mewn cyfres newydd o bartneriaethau ar draws y diwydiant.  Nid yw'n ddigon i'r DU gael BBC cryf; mae angen i ddarlledwyr eraill fod yn gryf hefyd.  Gallai mwy o gydweithredu wneud gwahaniaeth pwysig i gynaliadwyedd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a ariennir yn fasnachol ac i'r sector cynhyrchu ledled y DU.

Gan weithio mewn consortiwm o ddarlledwyr, mae'r BBC eisoes wedi helpu adeiladu'r prif lwyfan digidol yn y DU, sef Freeview. Yn yr un modd, lansiwyd gwasanaeth lloeren am ddim, Freesat, yn sgil y bartneriaeth rhwng y BBC ac ITV, a bydd hwn yn dod â sianeli manylder uwch i'r holl gynulleidfaoedd heb danysgrifiad ac yn cynnwys rhannau o'r wlad nad ydynt yn gallu derbyn Freeview trwy erial teledu.  Mae gan y BBC rôl flaenllaw yn cefnogi'r newid i ddigidol ar gyfer y wlad gyfan, gan gynnwys trwy ymgyrchoedd marchnata, trwy gynnal Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol a thrwy gefnogi Digital UK.

Mae'r BBC hefyd wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid ledled Gwledydd a Rhanbarthau'r DU.  Mae ein perthynas bwysig ag S4C, er enghraifft, wedi cael ei hadfywio â Phartneriaeth Strategol newydd.  Ar y cyd â Gwasanaeth y Cyfryngau Gaeleg, bydd y BBC yn lansio sianel deledu ddigidol Gaeleg cyn bo hir. Mae darlledwyr a chynhyrchwyr eraill eisoes yn elwa ar bencadlys modern a newydd BBC Yr Alban yn Pacific Quay yn Glasgow, a datblygiad y BBC yn mediacity:UK yn Salford yn darparu cyfleusterau, doniau a chymorth ar gyfer darlledwyr, cwmnïau annibynnol a llawer o rai eraill.

I ysgogi trafodaeth ar yr adeg bwysig hon yn Adolygiad Ofcom, mae Cadeirydd y BBC wedi gofyn i'r Cyfarwyddwr-Cyffredinol archwilio ffyrdd newydd o helpu dod â manteision maint a buddsoddiad cyhoeddus y BBC i'r sector cyfan.  Un amod a osodwyd ar gyfer y syniadau hyn yw nad ydynt yn peryglu model o'r BBC sy'n cael ei berchnogi a'i ariannu gan dalwyr ffi'r drwydded a'i ddal yn atebol gan Ymddiriedolaeth y BBC.  Bydd Bwrdd Gweithredol y BBC yn ystyried ac yn datblygu'r syniadau partneriaeth canlynol dros yr haf a bydd yn cyflwyno set fanwl o gynigion i Ymddiriedolaeth y BBC yn yr hydref.

**Datgloi pŵer partneriaeth**

*Mark Thompson, Cyfarwyddwr-Cyffredinol y BBC*

O'i gymharu â darlledwyr eraill y DU, mae gan y BBC fanteision aruthrol: maint; cyllid dibynadwy; adnoddau niferus o ddoniau creadigol a thechnolegol; mynediad sy'n agos at fod yn fyd-eang ar gyfer cynulleidfaoedd. Ond mewn llawer o ffyrdd, mae'r BBC yn llai nag y mae'n ymddangos. Mae ei refeniw yn cynrychioli llai na chwarter diwydiant teledu'r DU a disgwylir i'r gyfran honno ostwng ymhellach dros y pum mlynedd nesaf. Mewn marchnad y cyfryngau sy'n cydgyfeirio ac yn globaleiddio yn gynyddol, mae hefyd yn fach o'i gymharu â'r prif chwaraewyr rhyngwladol mawr.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi dod i sylweddoli, os yw am helpu cefnogi arloesedd, dewis defnyddwyr a más critigol mewn darlledu yn y DU a'r diwydiannau creadigol ehangach, bod yn rhaid i'r DU weithredu nid ar ei ben ei hun ond gydag eraill; nid er ei les ei hun yn unig ond er lles darlledu yn y DU yn gyffredinol; nid fel capten ond fel partner cyfartal. Mae Freeview, Freesat, HD, DAB, Pacific Quay a Salford yn enghreifftiau o brosiectau sydd wedi'u cynllunio i gyflwyno mwy o ddewis, ansawdd uwch, buddsoddi newydd a chyfleoedd creadigol newydd. Ni fyddai'r un ohonynt wedi bod yn bosibl heb bartneriaid cryf a chefnogol – a BBC sy'n fodlon derbyn cyfrifoldebau ac arweinyddiaeth ar y cyd sy'n hanfodol ym mhob partneriaeth dda.

I'r BBC, nid yw partneriaeth yn ddamcaniaeth bellach. Mae'n fodel profedig - yn wir, hwn bellach yw'r model arferol i'r BBC pan fydd unrhyw fater neu gyfle ar raddfa fawr yn dod i'r amlwg. Credaf y bydd yn allweddol i ddod o hyd i atebion ymarferol i'r her o gynnal y system PSB ehangach. Mae partneriaeth yn ffordd o ddatgloi graddfa, adnoddau a medrau aruthrol y BBC mewn ffyrdd sy'n gallu cefnogi darlledwyr eraill yn sylweddol - ond eto heb wanhau'r BBC ei hun.

Rwyf fi a'm cydweithwyr ar Fwrdd Gweithredol y BBC yn datblygu pecyn o gynigion ar hyn o bryd ar gyfer partneriaethau newydd sydd wedi'u cynllunio'n benodol i gryfhau PSB a'r sector darlledu yn gyffredinol. Byddwn yn eu cyflwyno i Ymddiriedolaeth y BBC yr hydref hwn ar ôl proses a fydd yn cynnwys trafodaethau eang â'r darpar bartneriaid eu hunain. Mae'r hyn sy'n dilyn yn cynnwys rhai o'n syniadau sy'n dod i'r amlwg.

- *Y chwyldro cynhyrchu digidol*: Yn y BBC, rydym yn gwario dros £100 miliwn erbyn 2012 yn buddsoddi mewn chwyldro mewn cynhyrchu digidol. Y weledigaeth ar draws yr holl gyfryngau yw ar gyfer 100% o'r holl gynhyrchu digidol fel bod y cynnwys yn 'dechrau'n ddigidol ac yn aros yn ddigidol'. Mae'r BBC yn cefnogi'r chwyldro hwn am ddau reswm: yn gyntaf, oherwydd mai dyma'r unig ffordd o elwa'n llawn ar y cyfleoedd creadigol anhygoel y mae cyfryngau 360˚ yn eu cynnig i grewyr cynnwys a chynulleidfaoedd; yn ail, oherwydd mai'r chwyldro hwn yw'r unig ffordd y gall y BBC fodloni ei dargedau cynhyrchiant ac effeithlonrwydd hynod anodd ei hun yn llawn – targedau sydd, erbyn 2012, yn awgrymu 20% o arbediad tebyg at ei debyg mewn cynnyrch teledu mewnol ac annibynnol. Pe bai'r BBC yn rhannu ei wybodaeth a'i arbenigedd â chynhyrchwyr, darlledwyr, cyhoeddwyr a gweithgynhyrchwyr offer darlledu a chynhyrchu, gellid datgloi llawer o'r cyfle hwn ar draws y

diwydiant. Gallai darlledwyr eraill – ac yn arbennig darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill - symud yn haws i lwyfannau digidol newydd, a gallai mabwysiadu safonau technoleg cyffredin gynnig manteision sylweddol i'r DU yn gyffredinol. Pe bai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill yn gallu sicrhau arbedion tebyg i arbedion y BBC, yna gallai eu cyllidebau cynnwys llinol fynd ymhellach. O ganlyniad, gellid gwella eu gallu i barhau i gefnogi PSB yn sylweddol.

- *Ymchwil ac Arloesedd:* Mae gan y BBC adran ymchwil a datblygu weithredol (Ymchwil ac Arlosedd y BBC) sy'n cefnogi ei anghenion craidd fel darlledwr traddodiadol, yn ogystal â darparu atebion technolegol ar gyfer darpariaeth cyfryngau digidol y BBC. Mae'r BBC eisoes yn rhannu arloesedd sy'n ymwneud â thechnolegau darlledu yn eang â diwydiant y DU a byd-eang, ac wedi cyfrannu'n ganolog at fentrau ar y cyd fel Freeview, Freesat, HD a thechnoleg cywasgu fideo DIRAC. Yn y cyfryngau newydd, mae lle i gynyddu cyfraniad ehangach y BBC at y diwydiant, trwy weithio'n ehangach â datblygwyr a safonau ac ymagweddau ffynhonnell agored eraill.
- *Gwella canfyddiadwyedd*: Mae Ofcom yn nodi cyfoeth cynnwys gwasanaeth cyhoeddus sydd eisoes ar y rhyngrwyd – o amgueddfeydd, orielau a llawer o leoedd eraill – ond yn dod i'r casgliad ei bod yn aml yn rhy anodd canfod a chydgrynhoi. I wella canfyddiadwyedd cynnwys o'r fath, gallai'r BBC weithio gyda phartneriaid diwylliannol a chreadigol i archwilio'r posibilrwydd o rannu cynnwys, systemau llywio ac adnoddau eraill er mwyn i gynulleidfaoedd ddod o hyd i'r cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar-lein gorau yn y DU.
- *Helpu gwneud newyddion rhanbarthol yn gynaliadwy y tu hwnt i'r BBC*: Mae'r BBC wedi ymrwymo'n llawn o hyd i'r broses o gasglu newyddion rhanbarthol a lleol cynhwysfawr ledled y DU. Wrth fod yn wyliadwrus o'r potensial i gamliwio'r farchnad, rydym yn archwilio ffyrdd o drefnu bod rhai o ddeunyddiau newyddion rhanbarthol a lleol y BBC ar gael i fannau gwerthu newyddion eraill ar gyfer ailddefnyddio ac ailddarlledu cynnwys mewn ffyrdd sy'n cefnogi economeg darpariaeth newyddion rhanbarthol y tu hwnt i'r BBC.
- *Archwilio cyfleoedd byd-eang gyda'r sector annibynnol a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill*: Mae BBC Worldwide eisoes wedi dechrau archwilio ffyrdd o ddefnyddio ei faint a'i drosoledd byd-eang i gyflwyno refeniwiau byd-eang cryfach i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill yn y DU, ac mae'n bwriadu mynd â'r syniad hwn ymhellach trwy drafodaethau agored yn y sector.

Mae maes pwysig arall ar gyfer partneriaeth bosibl, ac er nad yw'n effeithio ar economeg uniongyrchol darlledwyr eraill, gallai serch hynny helpu cyflawni rôl bwysig a gwerthfawr yn nyfodol y cyfryngau electronig yn y DU, gan ymestyn gwerth cyhoeddus PSB traddodiadol mewn oes gwbl ddigidol.

- *Yr heriau sy'n wynebu DAB*: Roedd yn rhaid gwneud rhai dewisiadau anodd adeg cynllun chwe blynedd y BBC am y cyllid sydd ar gael ar gyfer DAB. Fodd bynnag, y tu hwnt i'w ymrwymiadau cyfredol, gallai'r BBC gefnogi set amlwg o fesurau i ddatblygu DAB ar ran y diwydiant cyfan, gan gynnwys ymestyn cwmpas amlblecs cenedlaethol y BBC y tu hwnt i 90% o boblogaeth y DU; datblygu cynllun ar gyfer ymestyn cwmpas gorsafoedd radio Cenhedloedd y BBC; a dechrau ymdrech farchnata gryfach sy'n cael ei chydlynu ar draws y diwydiant.
- *Cau'r rhaniad digidol*: Disgwylir o hyd na fydd 20% o'r boblogaeth wedi'u cysylltu â'r rhyngrwyd erbyn 2012. Trwy weithio mewn cydweithrediad â'r Llywodraeth, darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, ISPs a phartneriaid eraill, gallai'r BBC ymgymryd â rôl bwysig sy'n cael ei harwain gan gynnwys wrth helpu cau'r rhaniad hwn – gan ddefnyddio cynnwys rhagorol, gwybodaeth gyhoeddus gynhwysfawr, a

chydlynu diwydiant cyfan i annog y carfannau olaf o dai ym Mhrydain i ymuno â’r chwyldro band eang.

- *IPTV*: Mae cyfle i’r BBC a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill weithio gydag ISPs a’r diwydiant ehangach i osod safon syml ac agored i gyflwyno teledu rhyngrwyd i setiau teledu. Gallai IPTV fod â rhan bwysig mewn cyflwyno’r nod o gael mynediad band eang cyffredinol yn y pen draw, gyda’r holl fanteision ehangach i ddefnyddwyr a dinasyddion a fyddai’n dod yn sgil hynny.

# 2 Crynodeb Gweithredol

Yn ei ddogfen ymgynghori, mae Ofcom yn codi nifer o faterion ac yn nodi rhai dewisiadau ar gyfer y dyfodol. Yng ngweddill y cyflwyniad hwn, mae'r BBC yn ymateb i'r materion a'r dewisiadau hyn ac yn archwilio sut y gallant weddu i'r weledigaeth a nodir uchod.

## Y cyd-destun ar gyfer adolygiad Ofcom

Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus (PSB) wedi bod wrth wraidd cymdeithas Prydain ers degawdau lawer. Mae'n cefnogi ein democratiaeth, mae'n ein haddysgu fel dinasyddion ac mae'n ein hannog i gymryd rhan mewn bywyd dinesig. Gall rhaglenni PSB feithrin cydlyniad cymdeithasol, ehangu ein gorwelion a'n haddysgu am y byd; gallant ein huno mewn cyfnodau o ddathlu neu mewn cyfnodau o ofid. Gallant ein synnu a'n swyno, gan ddod â'r gorau o ddiwylliant a doniau creadigol y DU. Mae'r system PSB wedi dod â manteision sylweddol a phendant i'n cymdeithas; mae wedi cael ei hamau a'i phrofi sawl tro, ond wedi goroesi prawf amser ac yn parhau i gael ei chefnogi'n eang gan y mwyafrif helaeth o gynulleidfaoedd.

Gall darlledu gwasanaeth cyhoeddus barhau i gyflawni rôl hanfodol mewn dyfodol cwbl ddigidol. Mae cynulleidfaoedd yn glir eu bod yn cefnogi rôl PSB mewn tirwedd cyfryngau sy'n newid yn gyflym, gyda'r rhan fwyaf yn cytuno ei fod yn parhau mor bwysig ag erioed iddynt. Yn benodol, mae'r BBC yn cefnogi asesiad Ofcom:

- Bod dibenion a nodweddion PSB yn cadw cefnogaeth gyhoeddus glir
- Y dylid diffinio PSB yn ehangach yn hytrach na mewn termau cyfyng o ran methiant y farchnad
- Y dylai'r prif sianeli PSB barhau i ymgymryd â rôl flaenllaw wrth gyflawni dibenion gwasanaeth cyhoeddus
- Bod y prif sianeli gwasanaeth cyhoeddus, at ei gilydd, yn cyflawni'r dibenion hyn.

Mae adroddiad Ofcom yn nodi llawer o'r heriau sy'n wynebu PSB a chyfryngau'r DU yn fwy cyffredinol dros y degawd nesaf a'r tu hwnt. Rydym yn cytuno â byrdwn cyffredinol dadansoddiad marchnad Ofcom. Mae modelu marchnad y BBC ei hun yn awgrymu, fel modelu Ofcom, dyfodol pan fydd yn rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol addasu yn unol â thueddiadau yn y farchnad sy'n anrhagweladwy ac weithiau'n radical. Mae canlyniadau yn amrywio o senario esblygiadol cymharol ddibwys, i fyd llai cyfforddus a hynod ranedig gyda rhaniad digidol mawr.

Gyda'r cefndir hwn, bydd PSB dim ond yn parhau'n llwyddiannus os yw'n:

- Cadw maint, perthnasedd a chyrhaeddiad digonol i greu effaith mewn marchnad a allai fod yn cynnwys y prif chwaraewyr byd-eang a ariennir yn dda yn bennaf
- Parhau i gyflwyno cynnwys ysgogol, difyr ac ansawdd uchel i gynulleidfa eang
- Croesawu'r cyfleoedd creadigol a ddarperir gan gyfleoedd digidol a band eang newydd

- Dod o hyd i ffyrdd o ddod â manteision technoleg ddigidol i bob cynulleidfa a gwneud cynnwys digidol newydd yn berthnasol i bob rhan o gymdeithas
- Gweithio gyda llif newid technolegol a datblygiadau'r farchnad
- Cyflwyno gwerth amlwg am arian, gydag effeithlonrwydd cost amlwg.

## Y cyfle digidol

Mae'r BBC yn cefnogi'r pwyslais yn y teitl a ddewiswyd gan Ofcom, 'y cyfle digidol'. Credwn fod manteision digidol yn cynnig llawer o gyfleoedd i ymateb i'r heriau sydd o'n blaenau:

- Cynnal cyrhaeddiad ac effaith trwy wneud defnydd creadigol o aml-lwyfannau a phortffolios
- Cynnwys gwell trwy gyflwyno cyfranogiad defnyddwyr, rhyngweithgarwch, ffyrdd newydd o ddefnyddio ac elwa ar gynnwys a thrwy adeiladu cymunedau o ddiddordeb
- Brandiau PSB tra chyfarwydd sy'n dangos cynnwys y gellir ymddiried ynddo ac sy'n bodloni safonau uchel
- Cyflwyno gwasanaeth mwy effeithiol trwy lwyfannau newydd, gwasanaethau yn ôl y galw a syndicetiad
- Ffrydiau newydd o refeniw ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol.

Mae gan y BBC ddiben cyhoeddus ffurfiol i 'gyflwyno i'r cyhoedd fantais technolegau a gwasanaethau cyfathrebu sy'n ymddangos'. Gan adeiladu ar ei rôl mewn arwain y newid i ddigidol, gall y BBC ymgymryd â rhan allweddol wrth arwain defnyddwyr y DU i oes y band eang trwy helpu hyrwyddo dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o botensial y rhyngrwyd a thrwy sicrhau llwyddiant radio digidol.

## Rôl lluosogrwydd

Mae llawer o adroddiad Ofcom yn canolbwyntio ar sut i gynnal lluosogrwydd wrth ddarparu PSB ochr yn ochr â'r BBC. Fodd bynnag, mae'r DU yn awr yn mynd i farchnad wahanol iawn, un lle bydd cylch dylanwad rheoledig yn cyfrif am gyfran llawer llai o'r holl ddefnydd clyweled. Mae'r byd hwn yn gynyddol agored i ystod llawer mwy amrywiol o gynnwys o lawer o ffynonellau gwahanol ochr yn ochr â'r darlledwyr sefydledig a lle mae cydbwysedd refeniwiau darlledu wedi symud i'r sector masnachol. Mae'n fyd lle caiff symbyliad cystadleuaeth ar gyfer y BBC a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill ei ddarparu gan lawer o ddarlledwyr newydd a phrif chwaraewyr y cyfryngau newydd o bob cwr o'r byd. Yn erbyn y cefndir hwn, dylid ystyried lluosogrwydd darpariaeth PSB nid fel diwedd ynddo'i hun, ond fel un o ystod o arfau ac ymagweddau i helpu cyflawni amcan cyffredinol Ofcom i 'gynnal a chryfhau ansawdd PSB'. Bydd angen i bawb fod yn glir iawn ynglŷn â pha elfennau o luosogrwydd sydd bwysicaf i'w cadw yn y dyfodol.

Mae Ofcom yn awgrymu tair prif fantais bosibl darpariaeth PSB: ansawdd uwch o ganlyniad i gystadleuaeth rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, amrywiaeth barn a safbwyntiau, a chyrhaeddiad gwell ar gyfer PSB. Fodd bynnag, ym mhob achos, mae'n ymddangos bod y rhesymeg ar gyfer lluosogrwydd PSB a'i effaith yn llai cryf nag yn y gorffennol:

- Nid yw'n sicrhau <u>ansawdd</u>, sef yr hyn y mae cynulleidfaoedd wirioneddol yn ei werthfawrogi. Prin yw'r gydberthynas rhwng canfyddiadau cynulleidfa o ansawdd a lefelau cystadleuaeth

- Nid yw’n sicrhau amrywiaeth – mae Ofcom ei hun yn dyfynnu Newyddion fel achos
- Nid yw’n sicrhau cyrhaeddiad gwell – mae dadansoddiadau yn awgrymu bod y cyrhaeddiad graddol a gyflwynir gan raglenni ar wahanol sianeli yn eithaf bach.

Ymddengys bod ein hymchwil ein hunain ac ymchwil Ofcom yn awgrymu darlun cymhleth: er nad yw’n syndod bod cynulleidfaoedd yn croesawu dewis ac amrywiaeth, maent hefyd yn edrych ar y rheiny nad ydynt yn ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i ddarparu llawer o’r dewis a’r amrywiaeth honno mewn llawer o genres. Hefyd, pan fyddant yn wynebu’r costau ymhlyg wrth sicrhau lluosogrwydd darpariaeth PSB gyda chyllid cyhoeddus, mae cefnogaeth y cyhoedd yn dirywio’n gyflym. Mae’r cyhoedd yn credu bod y farchnad yn sicrhau llawer o ddewis, felly pan fyddant yn wynebu’r ffaith fod yr adnoddau ar gyfer dewisiadau eraill gwasanaeth cyhoeddus yn gyfyngedig, maent yn tueddu i ffafrio ansawdd, arloesedd ac arwahanrwydd uwchlaw mwy o luosogrwydd o ran cynnwys.

Mae dadansoddiad y BBC ei hun o ffactorau economaidd a dewisiadau cynulleidfa yn awgrymu mai nifer cyfyngedig yn unig o genres PSB a geir y gellir cyfiawnhau ymyriad cyhoeddus penodol i sicrhau lluosogrwydd darpariaeth ynddynt, sef:

- Rhaglenni newydd y Gwledydd a’r Rhanbarthau, lle mae cymorth am ddarparwr newyddion diduedd ac annibynnol ychwanegol ochr yn ochr â’r BBC yn ddull diogelu democrataidd hanfodol
- Rhaglenni ar gyfer plant hŷn, lle gallai darpariaeth gan ystod o ddarlledwyr wella cyrhaeddiad ac effaith a chynyddu’r cyflenwad.

Fodd bynnag, mae’r BBC yn credu mai agwedd hanfodol ar luosogrwydd – na roddodd Ofcom ddigon o amlygrwydd iddo yn ei ymgynghoriad – yw’r agwedd honno a gynrychiolir gan ystod o sefydliadau sydd â gwahanol fodelau o berchnogaeth, cyllid a threfniadaeth. Mae’r rhyng-chwarae rhwng y BBC, ITV, Five, Channel 4 a Sky, yn ogystal â darlledwyr eraill, wedi arwain at ddeinamig cystadleuol sydd wedi cefnogi ansawdd ac amrywiaeth, hyd yn oed mewn meysydd lle nad oes llawer o gystadleuaeth uniongyrchol. Mae hyn yn ymwneud yn llai â genres rhaglenni unigol, a mwy â gwahanol ymagweddau ar gyfer darlledu a’i ddibenion, er lles cyffredinol i gynulleidfaoedd.

Credwn felly y dylai unrhyw newidiadau polisi neu reoleiddio yn y dyfodol ganolbwyntio ar fesurau eang i gynnal cymysgedd o ymagweddau sefydliadol – gan gynnwys gan ITV, Channel 4 a Five – yn hytrach nag ar ymyriadau cyfyng neu ar ficro-reoli rhaniad cyllid cyhoeddus. Byddai ariannu sianeli a ariennir yn fasnachol gan y cyhoedd yn uniongyrchol, yn benodol, yn lleihau’r amrywiaeth sefydliadol hon trwy newid y nodweddion hanfodol sy’n gwneud pob darlledwr yn wahanol ac yn gyflenwol.

## Ymagweddau a chyllid yn y dyfodol

Yn hytrach nag ychwanegu haenau pellach o ymyriad a rheoleiddio gwasanaeth cyhoeddus, dylid gwneud yn siŵr mai’r nod yw sicrhau lluosogrwydd parhaus o sefydliadau, trwy:

- Wneud y gorau o werth asedau rheoleiddio, gan gynnwys mynediad at sbectrwm a llacio rheolau amser darlledu

- Addasu rhwymedigaethau'r PSB ar gyfer darlledwyr masnachol, er mwyn iddynt allu cael eu cefnogi gan yr asedau rheoleiddio hynny.  Gwelwn fod gan ITV, Channel 4 a Five i gyd rôl werthfawr o ran PSB mewn meysydd blaenoriaeth penodol
- Sicrhau y gellir bodloni'r 'bylchau lluosogrwydd' allweddol trwy'r ystod bresennol o sefydliadau, i sicrhau ansawdd, cyrhaeddiad ac effaith ac osgoi unrhyw isadeiledd ychwanegol ac a allai fod yn ddrud.

Y ffordd orau y byddai'r ymagwedd hon yn bodloni'r meini prawf a nodwyd gan Ofcom yw ar gyfer asesu dewisiadau yn y dyfodol, ac yn ychwanegol, byddai'n bodloni dau faen prawf arall, sydd yr un mor bwysig: sef gwerth am arian, a derbynioldeb cynulleidfaoedd.  Yn ychwanegol, byddai costau sefydlu isadeiledd PSB newydd i ddyrannu cyllid a monitro perfformiad yn cael eu hosgoi.

Nid yw Ymddiriedolaeth y BBC yn argyhoeddedig y byddai cyllid a chontractau dadleuol ar gyfer cyflwyno PSB i gynulleidfaoedd eang yn cyflawni manteision digonol yn y nifer fach o feysydd y nodwyd eu bod yn cyfiawnhau cost eu cyflwyno a'r effeithiau niweidiol posibl ar weddill tirwedd y PSB.

**Cyllid**

Nid yw'r BBC yn credu y dylai'r man cychwyn ymwneud â 'chyllid newydd ddisodli'r cymhorthdal ymhlyg cyfredol sy'n dirywio'.  Mae angen archwilio ymhellach i weld a yw'r lefel wreiddiol o gymhorthdal yn angenrheidiol ac yn berthnasol heddiw wrth gyflawni anghenion cynulleidfaoedd.  Byddem yn awgrymu y dylid gwneud y gorau o werth asedau rheoleiddio fel y dull cyllid mwyaf addawol ar gyfer y dyfodol gyda chyn lleied o anfanteision â phosibl.

Dengys ein hymchwil fod mwyafrif y sector cyhoeddus a'r sector creadigol, ar y cyfan, yn erbyn cymryd y gyfran uchaf o ffi'r drwydded.  Credwn ei bod yn annerbyniol defnyddio ffi'r drwydded i ariannu cynnwys PSB y tu hwnt i'r BBC, oherwydd byddai:

- Yn rhoi diwedd ar y cyswllt unigryw rhwng y sawl sy'n talu ffi'r drwydded a'r BBC
- Yn gofyn bod mecanweithiau atebolrwydd newydd yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer unrhyw dderbynwyr newydd
- Yn golygu bod ffi'r drwydded yn cael ei rhoi dan ragor o bwysau trwy roi lle i lobio pwerus a pharhaus yn y dyfodol, a fydd yn ei dro yn peryglu treuliad parhaol y cyllid sydd ar gael i'r BBC
- Yn lleihau cyfanswm yr arian sy'n cael ei wario ar PSB os caiff ei rhoi i ddarlledwyr masnachol: trwy beryglu rhoi cymhorthdal i raglenni a allai fod wedi cael eu gwneud beth bynnag a thrwy wastraffu arian ar fecanweithiau newydd
- Yn cymysgu refeniw hysbysebu a chyllid cyhoeddus ar lefel DU am y tro cyntaf, gan wanhau cymhellion masnachol o bosibl a rhoi mwy o fantais i ddarlledwyr a ariennir yn fasnachol na darlledwyr eraill.

Fel 'ffi ychwanegol y drwydded', mae Ofcom yn disgrifio'r arian sy'n cael ei wario gan y BBC ar gymorth wedi'i dargedu ar gyfer y newid i ddigidol.  Mae'r rhwymedigaethau a grëwyd gan ddibenion cyhoeddus y BBC, gan gynnwys ei chweched diben i 'gyflwyno mantais technolegau a gwasanaethau cyfathrebu sy'n

ymddangos i'r cyhoedd' yn golygu nad ydym yn cydnabod bod hyn yn 'ychwanegol'. Er bod yr incwm hwn wedi'i sicrhau, caiff ei ddyrannu'n llawn ar gyfer chweched diben y BBC, a'r newid i deledu digidol yw ffocws hwn ar hyn o bryd. Gyda'r newid i ddigidol ymhell o fod yn gyflawn; mae angen rhagor o gymorth ar DAB; a chyda 'rhaniad digidol' y disgwylir i dueddiadau cyfredol barhau ymhell ar ôl 2012, credwn y bydd angen cyllid parhaus er mwyn i'r BBC allu cyflawni ei chweched diben mewn ffyrdd priodol a pherthnasol.

## Y ffordd ymlaen

Mae'r BBC yn cytuno ag Ofcom ei bod yn bwysig paratoi yn awr ar gyfer y newidiadau y bydd eu hangen i gynnal a chryfhau PSB yn y dyfodol. Y flaenoriaeth gyntaf yw chwilio am ffyrdd o sicrhau bod PSB yn manteisio ar y cyfle digidol, gan ymroi i'r heriau o ran globaleiddio, technoleg ddigidol ac ymrannu. Gall y BBC – gyda'i faint a'i gwmpas – fod wrth wraidd yr ymateb hwn, yn galluogi atebion ar draws y diwydiant ac yn croesawu byd y cyfryngau newydd.

Er mwyn galluogi hyn i ddigwydd, rydym yn awgrymu ystod o gynigion a mentrau:

- Dylid ymestyn dibenion y PSB i gynnwys y cyfryngau newydd a'u haddasu i gynnwys 'ymddiriedaeth' yn nod allweddol – i ymateb i adborth diweddar gan y gynulleidfa ac adlewyrchu rôl newydd ym myd y band eang
- Dylai darlledwyr, rheoleiddwyr a'r sector cyfathrebu weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod defnyddiwr yn cael mynediad o ansawdd rhesymol at gynnwys gwasanaeth cyhoeddus dros y rhyngrwyd
- Dylid ailedrych ar bolisi IP a hawliau i sicrhau bod cynnwys yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ar draws y cyfryngau a'r llwyfannau, wrth sicrhau enillion teg i gynhyrchwyr a gwneuthurwyr
- Dylai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'r heriau niferus sy'n wynebu'r diwydiant. Yn adran 1 y ddogfen hon, mae Adran Weithredol y BBC wedi cynnig ystod o bartneriaethau ar gyfer y dyfodol sydd wedi'u bwriadu i gryfhau PSB a'r sector darlledu yn gyffredinol.

I sicrhau amrywiaeth barhaus o sefydliadau, mae'r BBC yn rhagweld sefyllfa yn y dyfodol lle bydd:

- Dalwyr trwydded Channel 3 yn parhau i fod yn ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gyda gwerth asedau rheoleiddio yn cael ei ddefnyddio'n llawn i gefnogi ystod fwy cyfyngedig o rwymedigaethau, fel cynnyrch gwreiddiol y DU, yn enwedig drama, a newyddion cenedlaethol a rhanbarthol
- Five yn parhau â'i rôl PSB, gyda rhwymedigaethau yn cael eu haddasu i adlewyrchu gwerth ei freintiau a chyda mwy o rôl ar gyfer rhaglenni plant iau
- Channel 4 yn parhau i fod yn PSB sy'n cael ei berchnogi'n gyhoeddus sydd â dyfodol diogel yn ategu'r BBC – gydag ymagwedd a thôn, strwythur sefydliadol a chyllid gwahanol. Byddai ariannu Channel 4 gan y cyhoedd yn uniongyrchol yn ategu ei allu i fentro, yn lleihau ei gymhellion ariannol, ac o'r herwydd yn lleihau'r amrywiaeth sefydliadol gyfredol mewn PSB y mae cymaint o bethau eraill yn deillio ohono
- Yn olaf, ym mhrif gorff yr adroddiad hwn, mae rhai awgrymiadau ar gyfer mynd i'r afael â'r materion allweddol o ran y Gwledydd a'r Rhanbarthau a nodwyd yn nogfen Ofcom.

Yn olaf, dylai'r mesurau i gefnogi PSB, o gofio'r lefelau uchel o ansicrwydd y soniodd Ofcom a gweddill y diwydiant amdano, barhau i fod yn hyblyg a defnyddio sefydliadau ac asedau sydd eisoes yn bod. O ystyried yr ystod eang o senarios tebygol ar gyfer y dyfodol, nid dyma'r amser i gynllunio system newydd radical y mae angen isadeiledd, cyllid a phrosesau newydd arni. Dylai'r ffocws yn hytrach fod ar wella ansawdd, ystod ac effaith cynnwys PSB ymhellach ar draws y cyfryngau. Mae'r cyfle digidol yn cynnig cyfleoedd gwych o ran gwerth cyhoeddus – credwn fod y cynigion a nodwyd gennym yn dangos ffordd gref ymlaen i sicrhau'r dyfodol hwnnw i bawb.

# 3 Y cyd-destun ar gyfer adolygiad Ofcom

Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi bod wrth wraidd cymdeithas Prydain ers sawl degawd. Mae cynnau teledu neu radio yn gyfystyr â mynd i le cymunedol a bod yn gyson ymwybodol ohono a chael eich dylanwadu ganddo. Mae rhaglenni gwasanaeth cyhoeddus yn cefnogi ein democratiaeth, yn ein hysbysu fel dinasyddion ac yn ein hannog i gymryd rhan mewn bywyd dinesig. Maent yn meithrin cydlyniad arbennig, gan ddangos yr hyn sydd gennym yn gyffredin a'r hyn sy'n ein gwneud yn wahanol. Gallant ein synnu a'n swyno, gan ddangos y gorau o ddiwylliant a doniau creadigol y DU. Maent yn ehangu ein gorwelion ac yn ein haddysgu am y byd. Maent yn ein huno mewn cyfnodau o ddathlu neu mewn cyfnodau o ofid. Mewn cyfnodau o argyfwng, gall darlledu gwasanaeth cyhoeddus fod yn llinell bywyd, yn darparu newyddion a gwybodaeth hanfodol y gellir ymddiried ynddynt.


Mae'r system PSB wedi dod â manteision sylweddol a phendant i'n cymdeithas. Mae'r DU yn buddsoddi mwy y pen ar raglenni gwreiddiol nag unrhyw wlad arall yn y byd, ac yn sicrhau effaith a chyrhaeddiad unigryw o uchel o'r herwydd. Mae'n cefnogi portffolio o orsafoedd radio cenedlaethol a lleol, ac yn y DU gydag ystod ac ansawdd darpariaeth heb ei ail yn unman arall yn y byd. Mae'r system yn cyflwyno safonau o ddarpariaeth newyddion ac amhleidioldeb heb eu hail hefyd. Mae'n gwneud yn siwr bod cyfleoedd dysgu ar gael i bawb. Ac, oherwydd ei system gyffredinol, gall ddod â rhannau mawr o'r DU at ei gilydd mewn cyfnodau o ddiddordeb, tristwch neu ddathlu cyhoeddus. Mae'n ecoleg sydd wedi cael ei hamau a'i phrofi sawl tro, ond wedi sefyll prawf amser ac yn parhau i gael ei chefnogi'n eang gan y mwyafrif helaeth o gynulleidfaoedd.

## 3.1 Cyflwyno PSB heddiw

Fel rhan o gyfraniad y BBC i Adolygiad Ofcom, rydym wedi ymgymryd â'r hyn sydd, yn ein barn ni, yn un o'r rhaglenni ymchwil mwyaf amrywiol i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae crynodeb o'r negeseuon allweddol o'r ymchwil hwn yn dilyn – mae ein canfyddiadau manwl ar gael yn bbc.co.uk/thefuture.

Mae ein hymchwil i gynulleidfaoedd a'n dadansoddiad manwl yn dangos bod PSB yn parhau i gael cefnogaeth eang gan y cyhoedd a bod cynulleidfaoedd yn parhau i ystyried ei ddibenion a'i nodweddion yn bwysig:

*Wrth feddwl am anghenion cymdeithas yn gyffredinol, pa mor bwysig yw pob nod yn eich barn chi?*
*(Graddfa: 1 = ddim yn bwysig o gwbl; 10 = pwysig iawn)*




*Ffynhonnell: arolwg ansoddol Ipsos MORI; sylfaen = 4,577*

Mae ein hymchwil, fel Ofcom yn ei Adolygiad cyntaf o PSB, yn dangos bod y cyhoedd yn parhau i ddiffinio darlledu gwasanaeth cyhoeddus, nid fel set gyfyng o gategorïau rhaglen penodol y gallai'r farchnad fethu eu darparu, ond fel system eang ac integredig o raglenni a gwasanaethau. I gynulleidfaoedd, gall PSB gynnwys drama, chwaraeon ac adloniant cymaint â'r categorïau sydd weithiau'n cael eu diffinio fel 'gwasanaeth cyhoeddus', er enghraifft, newyddion, materion cyfoes, y celfyddydau a chrefydd.

Yn yr un modd, ymhlith y gymuned ehangach sy'n creu rhaglenni:

- Mae cefnogaeth eang a dwys ar gyfer dibenion a dyfodol PSB, a ffydd ynddo
- Roedd diffiniad eang, nid cyfyng o PSB, yn cael ei gefnogi'n unfrydol
- Mae crewyr rhaglenni yn hynod ymwybodol bod yn rhaid i PSB gael graddfa ac effaith i gadw cefnogaeth y cyhoedd.

At ei gilydd, roedd ein hymgynghoriad ymhlith y gymuned greadigol yn dangos cefnogaeth cadarn i PSB, wedi'i gwrthbwyso gan deimlad bod ecoleg PSB yn fregus – gyda dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n ei gynnal yn hanfodol ar gyfer ei ddyfodol, a chefnogaeth ar ei gyfer[1].

Roedd dogfen ymgynghori Ofcom yn archwilio'r graddau y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cyflawni dibenion y gwasanaeth cyhoeddus, gan ddod i'r casgliad bod:

> *Y BBC yn cael ei werthfawrogi'n fawr, ac yn cael ei weld gan gynulleidfaoedd fel conglfaen darlledu gwasanaeth cyhoeddus, sy'n dangos y gall darpariaeth a ariennir yn gyhoeddus*

[1] BBC, *The Creative Perspective – The Future of Public Service Broadcasting*, Mehefin 2008

> *sicrhau bod cynnwys a werthfawrogir yn cael ei gyflwyno, hyd yn oed yn amgylchedd y cyfryngau heddiw, sy'n newid yn gyflym.*[2]

Mae'r BBC yn croesawu gwerthusiad cadarnhaol Ofcom o gyflawni ei genhadaeth, sy'n debyg i ganfyddiadau o ystod eang o arolygon a dadansoddiadau. Pan ofynnwyd, yn ymchwil cydgynghorol Human Capital ar gyfer y BBC, pa mor dda y mae'r gwasanaethau darlledu cyhoeddus cyfredol yn cyflawni dibenion a nodweddion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, roedd cynulleidfaoedd yn ystyried y BBC fel y gorau. Hefyd, roedd bron pob un o'r cyfranogwyr yn teimlo'n wahanol am y BBC o gymharu â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill[3]:

> *Rhoddodd y cyfranogwyr y sgôr uchaf iddo am argraff gyffredinol. Canfuwyd mai cryfderau allweddol y BBC (yn nhrefn pa mor aml y sonnir amdanynt): Amhleidioldeb a chanllaw y gellir ymddiried ynddo; Rhyddid o hysbysebu a dylanwad masnachol; Disgwyl rhywbeth i bawb; Awdurdod; enw da yn Fyd-Eang.*

Er gwaethaf yr asesiad cadarnhaol cyffredinol, mae ein hymchwil (yn gyffredin ag asesiad Ofcom ei hun) wedi amlygu rhai meysydd allweddol lle mae'r rheiny sy'n talu ffi'r drwydded yn credu y gallai'r BBC wneud yn well:

- Mewn canfyddiad tebyg i bwyslais Ofcom ar arloesedd ar draws yr holl ddarlledwyr, mae ymchwil Ymddiriedolaeth y BBC wedi dangos ei fod yn awyddus i'r BBC weithio'n galetach i ddarparu rhaglenni teledu sy'n ffres neu sy'n dangos syniadau newydd[4]
- Mae bylchau hefyd ym mherfformiad Newyddion a Materion Cyfoes i gynulleidfaoedd sy'n gwerthfawrogi'r BBC yn is na'r cyfartaledd; awydd am fwy o bwyslais ar addysg a dysgu, yn enwedig i blant; a rhai bylchau perfformiad gweddol fawr o ran pa mor effeithiol y mae'r BBC yn cynrychioli gwahanol Wledydd, Rhanbarthau a chymunedau'r DU ac yn darparu ar eu cyfer.

## 3.2 Perthnasedd parhaus PSB

Gallai PSB fod yn cael ei gyflwyno'n dda ar y cyfan, ond fel mae Ofcom yn nodi, mae amgylchedd y farchnad ar gyfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi newid yn sylweddol ers Adolygiad PSB diwethaf Ofcom. Er bod technolegau, llwyfannau dosbarthu ac ymddygiad cynulleidfaoedd wedi newid, mae'r achos sylfaenol ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus, fodd bynnag, yn parhau'n gryf:

- Mae rôl rhaglenni teledu, a gyflwynir trwy lwyfannau presennol a llwyfannau newydd, yn parhau i fod yn arwyddocaol wrth ffurfio ein bywydau, a dylanwadu ar yr hyn yr ydym yn ei wybod am y byd o'n cwmpas a'n barn amdano; mae ymchwil diweddar wedi dangos bod darlledwyr teledu a radio yn cael eu gweld fel y dylanwad mwyaf pwerus ar gymdeithas y DU heddiw[5]. Roedd adroddiad diweddar

---

[2] Ofcom, *Y Cyfle Digidol*, Ebrill 2008

[3] Human Capital, *Public service broadcasting now and in the future - audience attitudes*, Mehefin 2008

[4] Arolwg Cylch Gwaith Diben Ymddiriedolaeth y BBC, 2007 a Blinc Research, *Perceptions of Innovation and Distinctiveness*, Rhagfyr 2007

[5] Ffynhonnell: Ipsos MORI, Ionawr 2008

Ymddiriedolaeth y BBC, *Safeguarding Impartiality in the 21st Century* yn amlygu'r ffaith fod yr ymddiriedaeth yn y cyfryngau darlledu, yn enwedig teledu, yn parhau i fod yn llawer mwy na chyfryngau eraill[6]

- Mae'r DU yn dod yn gymdeithas gynyddol luosog ac amrywiol, fel yr amlygwyd mewn gwaith sy'n dadansoddi tueddiadau cymdeithasol a gomisiynwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC. Mae'n ddigon posibl fod gan ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus rôl hyd yn oed yn bwysicach yn cefnogi ac yn hyrwyddo gwerthoedd ar y cyd a phwyntiau cyfeirio diwylliannol mewn cymdeithas sy'n gynyddol ranedig[7]
- Er ei bod yn ymddangos bod y gwylio yn ymrannu ymhlith nifer o sianeli a bod goruchafiaeth y pum prif sianel analog wedi dirywio, mae llawer o'r gwylio yn syml yn symud i gynnwys PSB a gynhyrchir yn y DU ar sianeli digidol. Mae ein dadansoddiad o werth tri mis o gynnyrch ac ymddygiad gwylio yn dangos ystwythder ac amlygrwydd parhaus cynnyrch PSB a gynhyrchir yn y DU, sy'n cyfrif fel y mae am 16% yn unig o'r cynnyrch, ond eto 70% o'r holl wylio[8]
- Mae rôl darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i fod yn bwysig o ran y ffaith ei fod yn sicrhau manteision cyffredinolrwydd i gynulleidfaoedd mewn tirwedd dechnolegol gynyddol gymhleth. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys Freeview, Freesat, radio DAB a'r newid i ddigidol, sy'n dod â manteision i gynulleidfaoedd mewn ffyrdd sy'n mynd ymhell y tu hwnt i fuddsoddi mewn rhaglenni, a chyflawni canlyniadau cymdeithasol mesuradwy
- Mae 'cylch rhinweddol' y gystadleuaeth rhwng y BBC, y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a gweddill y farchnad fasnachol wedi cynhyrchu ecoleg ddarlledu nad oes ei gyffelyb bron o gwbl o ran ystod, amrywiaeth a chryfder cynhyrchu brodorol
- Caiff y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus effaith economaidd ehangach trwy hyfforddi'r diwydiant a helpu cefnogi economi greadigol ddynamig yn y DU. Mae gan y BBC rôl arbennig o bwysig yma gyda'i fuddsoddi mewn hyfforddiant sydd ar gael i bobl yn y gorfforaeth a'r tu allan. Gwariodd £40 miliwn ar hyfforddiant yn 2006/7, gan gynnwys £1.4 miliwn i gyrff hyfforddi allanol sy'n gwasanaethu'r diwydiant; a chyflwynodd 67,000 o ddiwrnodau hyfforddi, gan gynnwys 6,000 i sefydliadau eraill a gweithwyr ar eu liwt eu hunain.

## 3.3 Yr heriau i PSB yn y dyfodol

Yn ei ddogfen ymgynghori, mae Ofcom yn dadansoddi'r pwysau masnachol a allai fod yn wynebu'r system PSB ac yn amlinellu cyfres o senarios marchnad sydd â rhai themâu cyffredin. Mae'r senarios hyn yn dangos bod cyfran cynulleidfa'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn debygol o ostwng; bydd refeniwiau PSB masnachol ar eu gorau yn parhau yn wastad mewn termau real; mae sianeli digidol masnachol yn annhebygol o gau'r bwlch a adewir gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus; a bydd pwysau ar rai genres penodol.

[6] Bridcut, *From Seesaw to Wagon Wheel: Safeguarding Impartiality in the 21st Century*, Mehefin 2007

[7] Y Ganolfan Ymchwil Materion Cymdeithasol, *Life in the UK Today*, Mehefin 2008

[8] Ffynhonnell: BARB / TRP. Os yw'n seiliedig ar sianeli â chyfran>=0.1% ar gyfer Q1 2007, yna mae cynnyrch gan y DU yn cyfrif am 22% o'r holl amser darlledu a 71% o'r holl amser gwylio.

Mae'r BBC wedi cynnal dadansoddiad ategol sy'n dangos heriau tebyg sydd o'n blaenau.  Dengys ein dadansoddiad fod y rhain yn cynnwys:

- Y pwysau y gallai globaleiddio ei roi ar y sector PSB yn y DU
- Amlder o ffyrdd o gyflwyno cynnwys teledu a thalu amdano
- Mae cyfran y gynulleidfa PSB yn debygol o ostwng trwy newidiadau yn ymddygiad cynulleidfaoedd a rhaniad o ran gwylio
- Mae refeniwiau hysbysebu sianel PSB masnachol yn debygol o barhau yn wastad ar eu gorau, gydag ymraniad o ffynonellau cyllid a newidiadau strwythurol posibl yn y farchnad hysbysebu.

Mae modelu'r BBC yn dangos bod rhai canlyniadau a materion posibl a allai effeithio ar ddadansoddiad Ofcom:

- Er y byddem yn cytuno bod y rhagolwg ar gyfer darlledu yn y DU yn hynod ansicr, credwn y gallai fod datblygiadau ychwanegol sydd o bosibl yn gadarnhaol a allai liniaru, i raddau, rhai o'r pwysau a amlygir gan Ofcom
- Yn benodol, er y gallai'r hen fodelau PSB a hysbysebu ddioddef, mae'n debygol y bydd ffynonellau refeniw newydd yn datblygu – e.e. hysbysebu teledu wedi'i dargedu – sy'n gallu helpu sicrhau buddsoddiad diogel mewn cynnwys yn y DU
- Ymddengys fod senario mwyaf pesimistaidd Ofcom yn dibynnu ar gyfuniad eithaf annhebygol o dybiaethau ynglŷn ag ymraniad cynulleidfa; lefelau o ladradau cynnwys; a BBC sydd wedi'i leihau'n sylweddol – ac y gallai ei gymhwyso i'r drafodaeth fod yn gyfyngedig o'r herwydd
- Mae BBC sy'n cael ei ariannu'n briodol gyda chefnogaeth gyhoeddus barhaus yn cynnig sicrwydd clir y gall cynnwys yn y DU barhau i fod wrth wraidd system y DU.  Dengys tystiolaeth Ofcom fod y BBC yn cyfrif am fwyafrif helaeth y buddsoddi cyfredol mewn rhaglenni mewn darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ac eto credwn nad yw hyn yn cael digon o sylw yng nghasgliadau cyffredinol Ofcom.

### 3.3.1 Yr her fyd-eang

Gallai'r symud i farchnad sy'n fwy byd-eang o ran cynnwys a rhaglenni gael effaith arwyddocaol iawn ar deledu yn y DU, gydag amryw gystadleuwyr pwerus yn cynnig ystod eang o wasanaethau yn ôl y galw i gynulleidfaoedd:


- Nid yw'r rhyngrwyd yn rhwystro lleoliad y prynwr na chyflenwr y cynnwys o gwbl.  Mae wedi cynyddu marchnadoedd y cyfryngau yn sylweddol, er bod rhai cyfyngiadau newydd hefyd wedi codi (e.e. technoleg rheoli hawliau digidol)
- Mae'r cwmnïau cynhyrchu teledu mwy yn awr yn gwerthu i ystod o ddarlledwyr ledled y byd ac yn aml yn cymryd rhan mewn cyd-gynyrchiadau rhyngwladol
- Mae'r farchnad sianeli teledu yn dod yn rhyngwladol hefyd. Mae brandiau fel CNN, MTV a Discovery yn fyd-eang.  Mae gan y BBC sianel yn America a gall gwylwyr yn y DU wylio Fox News.

Mae'n amlwg ei bod yn hanfodol i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus allu ennyn sylw'r gynulleidfa ynghanol nifer cynyddol o ddarparwyr rhyngwladol.  Gallai cymariaethau rhwng y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ymddangos yn llai pwysig cyn bo hir yn wyneb cystadleuaeth gan Google, Yahoo, Viacom a Time Warner a'u tebyg.  Mae materion tebyg yn effeithio ar ecoleg ddarlledu y tu allan i'r DU; mae'r

drafodaeth sy'n digwydd ledled gweddill Ewrop yn ymwneud â sut i sicrhau cyrhaeddiad ac effaith PSB yn y dyfodol yn wyneb cystadleuaeth llawer mwy. Mae hyn yn gysylltiedig â llwyddiant o leiaf un PSB ym mhob gwlad, gan sicrhau cyfran resymol yn y farchnad yn wyneb adnoddau cyfyngedig.

Yn y DU, bydd llawer mwy o brif chwaraewyr mewn tirwedd cyfryngau wedi'i gydgyfeirio – gan ddod â mwy o refeniw i'r sector ond yn lleihau'n sylweddol y gyfran i'r BBC a'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a ariennir yn fasnachol. Er enghraifft, mae un datblygiad allweddol wedi bod yn amlwg yng nghwmnïau'r cyfryngau argraffu – yn genedlaethol ac yn lleol – yn darparu cynnwys clywedol ar wefannau cenedlaethol neu leol. Mae darparwyr cyfathrebu eisoes wedi dechrau yn y farchnad adloniant, fel BT (Vision), France Telecom (Orange a fydd yn lansio gwasanaeth IPTV), Telefonica (O2 y disgwylir iddynt lansio gwasanaeth IPTV) a Vodafone (sy'n un o'r darparwyr cynnwys teledu digidol). Bydd y prif chwaraewyr hyn yn gallu dod â llawer mwy o fuddsoddiad i ddarparu pecynnau o wasanaethau cynnwys a chyfathrebu na rhai prif chwaraewyr teledu traddodiadol: disgwylir i refeniwiau France Telecom a Telefonica fod yn fwy na €55.6 biliwn a €63.7 biliwn yn y drefn honno erbyn 2010, a disgwylir i gyfanswm refeniwiau Vodafone fod yn fwy na £41 biliwn erbyn 2010[9]. Er na ellir buddsoddi refeniwiau o'r cwmnïau hyn yng nghynnwys y DU, bydd ganddynt allu pwerus i ddylanwadu ar farchnad y DU.

*Refeniwiau arfaethedig y cyfryngau a chwmnïau eraill (£bn)*




*Ffynonellau: Adroddiadau cwmnïau, amcangyfrifon y BBC ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus: BSkyB gan Deutsche Bank, Tiscali gan Mediobanca securities, Virgin Media gan Credit Suisse; dosberthir ffigurau Apple TV ac iPhone fel 'refeniw gohiriedig' mewn cyfrifon cwmnïau.*

(Text for above graph)

New entrants – Dechreuwyr newydd

Non-PSB broadcasters – Darlledwyr nad ydynt yn ddarlledwyr PSB

---

[9] Ffynonellau rhagolygon: BT gan Bear Stearns; France Telecom a Vodafone gan Credit Suisse, Telefonica gan Société Générale

Mae dechreuwyr newydd yn dod â chystadleuaeth gynyddol ar gyfer rheoli a darparu cynnwys ar draws llwyfannau yn ogystal â rheoli'r berthynas gyda chynulleidfaoedd. Mae'n debygol mai'r her fwyaf sy'n wynebu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn y farchnad newydd hon yw sicrhau cyrhaeddiad ac effaith cynnwys PSB.

### 3.3.2 Modelu'r sector teledu yn y DU 2008 – 2016

Mae'r BBC wedi defnyddio gwaith modelu marchnad manwl a ddatblygwyd gan arfer y cyfryngau yn Capgemini i ateb rhai cwestiynau am y sector teledu yn y DU dros y cyfnod y mae Adolygiad Ofcom yn ymdrin ag ef. Mae'r adran hon yn amlinellu crynodeb o ganfyddiadau'r gwaith hwn – mae esboniad manylach o'r fethodoleg a chanlyniadau manylach ar gael yn bbc.co.uk/thefuture.

### 3.3.3 Mynd i'r afael â meysydd allweddol o ansicrwydd

Mae unrhyw ragolygon o'r farchnad teledu a fideo dros y degawd nesaf yn llawn ansicrwydd. Megis dechrau y mae llawer o'r technolegau a allai chwyldroi'r cyfraddau sy'n gwylio'r teledu, fel IPTV, ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae nifer cymharol fach o enghreifftiau o ansicrwydd sydd wedi effeithio'n fawr ar y canlyniadau i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Mewn llawer o achosion, gall yr ansicrwydd hwn fod yn gadarnhaol ac yn negyddol, ac mae ein modelu a'n cynllunio senario yn canolbwyntio ar y rhain:

- Treiddiad llwyfannau teledu newydd a thechnolegau newid amser: pa mor gyflym fydd y technolegau teledu mwyaf newydd yn treiddio i nifer sylweddol o gartrefi?
- Gwasgaru ymddygiadau gwylio newydd: a fydd gwylio llinol traddodiadol yn parhau i fod yr un prif brofiad teledu neu a fydd ymddygiad newidiol y cynulleidfaoedd iau yn gwasgaru ar draws y boblogaeth?
- Cyfran gwylio VOD: a fydd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus cyfredol yn llwyddiannus yn y byd ar-alw?
- Modelau busnes darlledwyr masnachol: yn benodol, sut bydd y farchnad hysbysebu teledu yn datblygu dros y degawd nesaf?
- Costau darlledwyr: a fydd costau yn parhau i godi gyda mwy o gystadleuaeth am hawliau a chynnwys mewn marchnad fywiog a chystadleuol sydd â llwyfannau dosbarthu lluosog, neu a fydd ymrannu a phwysau ariannol cynyddol yn gorfodi prisiau i ostwng?

Er mwyn amcangyfrif y tueddiadau hyn ddeg mlynedd, fe wnaethom greu pedwar senario – gan ein galluogi i edrych ar wahanol ffyrdd y gallai'r farchnad ddarlledu ddatblygu ac amlygu rhai meysydd allweddol lle gallai llunio polisïau gael effaith wirioneddol:

- Yn y **Senario Esblygiad**, mae llwyfannau teledu yn parhau i ddatblygu yn ôl eu cyflymder presennol. Ac eithrio ymhlith cynulleidfaoedd iau, mae oriau dyddiol o wyliau teledu llinol fesul defnyddiwr yn parhau i fod cryn dipyn yn fwy na'r defnydd aflinol. Fodd bynnag, mae gwasanaethau aflinol ar y teledu yn cyrraedd cryn dipyn o'r farchnad, ac mae gwasanaethau sy'n caniatáu gwylwyr i wylio'r

teledu ar eu cyfrifiadur hefyd yn dod yn fwy poblogaidd.  Mae cynulleidfa darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i ostwng hyd nes y newid i ddigidol, ac mae'n sefydlogi ar ôl hynny.  Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn defnyddio eu hasedau cynnwys yn fedrus i gynnal safle pwerus yn ecoleg ddarlledu'r DU tra bo'r farchnad hysbysebu yn parhau i aros yn ei hunfan

- Yn y **Senario Ymrannu**, mae'r nifer cynyddol sy'n manteisio ar wasanaethau aflinol newydd ar y teledu yn eu gwneud yn ffenomen marchnad dorfol ar draws grwpiau oedran.  Mae arferion cynulleidfaoedd iau o ran y cyfryngau yn lledu, er bod cynulleidfaoedd hŷn yn aros yn y byd llinol traddodiadol.  Mae prif chwaraewyr o'r tu allan i'r gadwyn gwerth teledu draddodiadol yn cynnig cynnwys teledu ar y we yn gynyddol, ac wrth i wasanaethau gwybodaeth cyfyngedig y teledu ddisgyn, bydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cystadlu fwyfwy â'r prif chwaraewyr hyn nad ydynt yn draddodiadol i gadw cyfran y gynulleidfa.  Gwelir effeithiau niweidiol ar yr holl fodelau busnes wrth i'r cyllid ymrannu: mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cael trafferth cynnal eu llwyddiant cymharol i'r byd ar-alw ac mae hysbysebu teledu llinol yn gostwng
- Yn ein dau **Senario Chwyldro**, mae treiddio ar-alw a threiddio newid amser yn cyrraedd uchafbwynt.  Mae treiddio cyflym o ran mynediad band eang a galw cynyddol gan ddefnyddwyr am gynnwys rhyngweithiol yn golygu bod gwasanaethau aflinol yn cynnig dewis ar draws pob grŵp oedran.  Mae porthorion yn ymddangos wrth i wasanaethau gwybodaeth cyfyngedig y teledu golli eu hapêl.  Mae'r farchnad yn aeddfedu i gefnogi ystod eang o fodelau busnes, er bod hysbysebu llinol yn dirywio'n gyflym.  Yn **Chwyldro A**, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn trosglwyddo'n llwyddiannus i'r byd cwbl ddigidol, a chynulleidfaoedd yn parhau i ddewis cynnwys y DU.  Yn **Chwyldro B**, caiff cyfran gynyddol o'r gwylio ar lwyfannau newydd ei chymryd gan ddechreuwyr newydd, sy'n aml yn rhai byd-eang.


Mae'r pedwar senario hyn yn creu darluniau gwahanol iawn o fyd y teledu digidol yn 2016 ac yn rhoi syniad o'r posibiliadau tebygol amrywiol o ran ymddygiad cynulleidfa, economeg darlledwyr masnachol a chyfleoedd y byd digidol.

I ymateb i fodelu Ofcom, rydym wedi bod yn archwilio pumed senario sy'n cael ei nodweddu gan ostyngiad cyflym mewn refeniw hysbysebu teledu a gostyngiad yn y premiwm hysbysebu rhwydwaith.  Ymddengys bod hyn yn llai tebyg na'r senarios a amlinellir uchod, er ein bod yn parhau i archwilio ei oblygiadau ar gyfer darpariaeth PSB.

<u>Treiddio llwyfannau a gwylio</u>

O dan y pedwar prif senario, mae pob technoleg yn cyflawni cyfraddau treiddio cryn dipyn yn uwch na heddiw.  Fodd bynnag, mae amrywiadau gwirioneddol yn lefel y fideo ar-alw a'r nifer sy'n defnyddio fideo symudol.  Yn y senario Esblygiad, dim ond 30% o gartrefi sydd â mynediad i VoD, tra bo hyn yn cynyddu i ryw 70% senarios y Chwyldro.  Mae'r newidiadau hyn mewn treiddio llwyfannau yn ysgogi newidiadau sylweddol mewn ymddygiad cynulleidfaoedd.  Erbyn 2016, yn y senario Esblygiad, mae 84% o'r gwylio yn parhau i fod yn llinol ac mae'r mwyafrif helaeth o hyn yn digwydd ar sgrin y teledu.  O'i gyferbynnu,  yn y senarios Chwyldro, erbyn 2016,  59% yn unig o'r gwylio sy'n parhau i fod yn brofiad llinol, ac mae llwyfannau fel cyfrifiaduron ac offer symudol yn mynd â chyfran gynyddol:

*Cyfanswm yr oriau gwylio dyddiol (miliynau o oriau)*




(Text for above graph)

Current – Cyfredol

Evolution – Esblygiad

Fragmentation – Ymrannu

Revolution A & B – Chwyldro A a B

TV – Teledu

Linear – Llinol

Non-linear – Aflinol


Mobile – Symudol

PC – Cyfrifiadur

<u>Refeniwiau PSB</u>

Mae ein modelu yn awgrymu, hyd yn oed o dan yr amodau ysgafnaf – senario'r 'Esblygiad' – bydd refeniwiau darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol wirioneddol yn gostwng rhwng 2006 a 2015 o £2.7 biliwn i £2.4biliwn.  O dan y senarios llai dibwys, gallai refeniwiau PSB masnachol ddirywio'n gyflymach:

*Refeniwiau PSB masnachol yn ôl senario (£ biliwn, termau real)*




(Text for above chart)

Evolution – Esblygiad

Fragmentation – Ymrannu

Revolution A – Chwyldro A

Revolution B – Chwyldro B

Yn senarios Ymrannu a Chwyldro B, byddai PSB a ariennir yn fasnachol yn ddielw erbyn 2015 oni bai bod y darlledwyr perthnasol yn lleihau eu costau. Un ffordd o gynnal proffidioldeb ar gyfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fydd lleihau costau rhaglenni – trwy leihau chwyddiant costau; lleihau swm y deunydd a gomisiynir; cael gwared ar genres llai proffidiol; neu drwy gynyddu caffaeliadau ac ailddarllediadau. Mae ein modelu yn awgrymu, o dan senarios Ymrannu a Chwyldro B, y bydd yr angen i addasu'r gwariant ar gynnwys a chymysgedd genre yn digwydd mor gynnar â 2010. Bydd rhan o'r strategaeth debygol yn golygu cael gwared ar y genres gwasanaeth cyhoeddus hynny sy'n ddielw a sicrhau cynnwys rhatach sydd ag apêl ehangach. Yn y cyd-destun hwn, gallai fod yn gynyddol anodd cynnal rhwymedigaethau PSB drud ar ddarlledwyr masnachol.

### 3.3.4 Pwyntiau allweddol ar gyfer llunio polisïau

Mae nifer o gasgliadau y gellir eu llunio o'r model a'r prif ddadansoddiad hwn i helpu deall yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus:

- Mae ansicrwydd sylweddol ynglŷn â sut gallai'r farchnad ddarlledu ddatblygu dros y degawd nesaf. Gall newidiadau mewn rhai tybiaethau allweddol gael effaith fawr ar hyfywedd amlwg darpariaeth PSB draddodiadol ar ddarlledwyr masnachol. Mae perygl sylweddol, felly, wrth geisio ffurfio atebion polisi yn rhy gyflym neu'n rhy radical. Bydd angen rheoleiddio i osgoi cymhlethu'r fframwaith rheoleiddio y mae prif chwaraewyr masnachol yn gweithredu ynddo

- Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fel ITV a Five yn debygol o barhau yn broffidiol yn y rhan fwyaf o senarios. Dylai'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus lwyddo'n sylweddol â'u sianeli deilliedig sydd, bron ym mhob senario, yn cyfrannu'n sylweddol at broffidioldeb cyffredinol y grwpiau darlledu dan sylw
- Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn gyffredinol, yn gweld na fydd pwysau masnachol cynyddol yn cael eu dechrau gan gyfleoedd refeniw newydd a bydd Channel 4 yn wynebu mwy o bwysau o gryn dipyn nag ITV neu Five. Trwy broses o arbrofi â gwahanol batrymau o ddarpariaeth cynnwys, mae model y BBC yn dangos ei bod yn debygol y bydd angen i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus symud eu patrwm o gynnyrch o genres sydd â chostau cyfle uwch tuag at y rheiny sy'n denu ffigurau gwylio uwch a phremiymau hysbysebu
- Bydd cost effeithlonrwydd yn ffactor llwyddiant allweddol i bob PSB ac i'r BBC a Channel 4 yn enwedig.  Mewn marchnad lle bydd hysbysebu teledu llinol yn parhau i fod dan bwysau, bydd yn hanfodol i bob darlledwr gadw rheolaeth dynn dros raglenni a chostau eraill
- Ffactor llwyddiant allweddol arall i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fydd eu gallu i gael cyfran o'r refeniwiau digidol sy'n ymddangos ar ôl 2012. Rhaid i ddarlledwyr traddodiadol addasu'n gyflym i fyd y cyfryngau newydd a manteisio ar y cyfleoedd a gynigir, neu bydd eraill yn manteisio arnynt
- Mae risg allweddol o hyd – sy'n fwy arwyddocaol nag yn y gorffennol – yn sgil y byd-ehangu cynyddol yn sector y cyfryngau.  Yn senarios mwyaf eithafol Ofcom a'r BBC, gallai hyn danseilio hyfywedd masnachol PSB yn gyffredinol, ac ni fyddai'r sector cyfan yn agored i gefnogaeth ymylol y cyhoedd. O dan y senarios hyn, BBC cryf fyddai'r unig ffordd o sicrhau effaith ac effeithiolrwydd darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU yn wyneb yr heriau gan frandiau byd-eang a newid technolegol.

# 4 Y cyfle digidol

Credwn mai trosglwyddo i fyd cwbl ddigidol yw'r her ganolog ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Bydd angen ymagweddau newydd amlwg ar gyfer sicrhau ansawdd, cyrhaeddiad ac effaith PSB yn y cyd-destun newydd hwn, a dylai trafodaethau amdanynt fod yn ganolog yng nghyfnod nesaf Adolygiad Ofcom.

Er bod llawer o heriau yn wynebu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol mewn byd cwbl ddigidol, maent yn cynnig llawer o fanteision hefyd. Byddant yn cael cyfle i elwa ar eu cynnwys ar draws llawer o lwyfannau, gan ddefnyddio cymysgedd llawer mwy hyblyg o'r cyfryngau, gan gyflwyno mwy o werth i gynulleidfaoedd a gwneud y gorau o'u henillion ar eu buddsoddiad. Dylai eu sefyllfa gymharol gref yn y farchnad yn y cyfryngau traddodiadol eu helpu i gyflawni cynigion unigryw ar lwyfannau symudol, ar-alw a manylder uchel i gynulleidfaoedd eang.

Does dim dwywaith y bydd y cyd-destun ar gyfer cyflwyno darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn 2016 yn wahanol iawn i'r 50 mlynedd diwethaf:

- Bydd ystod eang o wasanaethau a rhyngweithgarwch gwell bron ym mhob cartref, gan gynnig dewis cynyddol ac ansawdd darlledu gwell, yn sgil y newid i ddigidol
- Mae'r nifer sy'n manteisio ar fand eang ymhlith cynulleidfaoedd yn debygol o barhau. Bydd technoleg mynediad newydd yn galluogi lawrlwytho a llwytho i fyny cyflymach a ffrydio delweddau ansawdd darlledu
- Bydd storio gwell yn effeithio ar allu defnyddwyr i wylio cynnwys fideo (ffilmiau nodwedd, drama, comedi a fideos cerddoriaeth, er enghraifft) ar ddyfeisiadau symudol oddi ar-lein. Bydd hefyd yn cynyddu maint y cynnwys y gellir ei gadw ar PVR a gyriannau caled, gan alluogi amgylchedd y mae galw cynyddol amdano
- Bydd mwy o ddyfeisiadau newydd sy'n gallu ffrydio, storio ac ailchwarae cyfryngau o amrywiaeth eang o ffynonellau, gan gynnwys ar ddyfeisiadau symudol y genhedlaeth nesaf
- Bydd rhyngwynebau defnyddiwr a chymwysiadau chwilio mwy pwerus yn helpu defnyddwyr i ddewis y cynnwys sydd ei angen arnynt o'r swm a gynigir, sy'n cynyddu'n barhaus. Bydd y dulliau cyflwyno hyn yn cael eu gwella gan gyfranogiad defnyddwyr a rhwydweithio cymdeithasol, gan gynyddu eu hatyniad ymhellach
- Bydd prif chwaraewyr rhyngwladol newydd pwerus yn bodoli ochr yn ochr â darlledwyr y DU, gan roi'r trafodaethau traddodiadol am raddfa gymharol y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mewn cyd-destun gwahanol iawn.

Mae band eang yn cynnig potensial mawr iawn ar gyfer mynediad ar-alw at archif PSB sy'n ehangu, gyda chwmpas ochr yn ochr â hyn ar gyfer mathau newydd o gynnwys a lefelau newydd o gyfranogiad gan ddefnyddwyr. Mae gan y darlledwyr traddodiadol enw arbennig o dda am frandiau ansawdd da a hynod gryf, sy'n gallu eu gwasanaethu'n dda mewn marchnad orlawn. Ond bydd yn rhaid iddynt hefyd ddatblygu ffyrdd newydd o gyfathrebu â chynulleidfaoedd ac ennyn eu diddordeb. Mae gan y BBC rôl

arbennig, o gofio'r cyfrifoldebau sydd ganddo trwy ei chweched diben ('cyflawni manteision technoleg sy'n ymddangos') ac yn enwedig y disgwyliadau uchel sydd gan gynulleidfaoedd ohono.

## 4.1 PSB mewn oes ddigidol

Er bod adroddiad Ofcom yn canolbwyntio'n bennaf ar y sefydliadau a'r mecanweithiau ar gyfer PSB yn y dyfodol, credwn y bydd angen y newidiadau mwyaf radical yn natur PSB a'r ffurf y caiff ei gyflwyno yn y byd digidol a band eang. Yr hyn sydd bwysicaf yw y bydd angen i PSB newid yn ei hanfod fel ei fod yn parhau i gyflawni cyrhaeddiad ac effaith, ac yn cadw'r gefnogaeth eang a gaiff gan y cyhoedd.

Dros y degawd nesaf, bydd ar-alw yn ymddangos fel ffordd arwyddocaol, brif ffrwd, ac o bosibl y ffordd fwyaf blaenllaw, ar gyfer defnyddio cynnwys, gan ddod ag amlder hollol newydd o gynnwys a dewis. Fodd bynnag, nid yw awydd y gynulleidfa wedi cael ei brofi o hyd ar gyfer llawer o wasanaethau newydd, tra bo gwahaniaeth sylweddol rhwng treiddio technoleg a'r defnydd ohoni (e.e. setiau teledu manylder uchel). Felly, dros y blynyddoedd nesaf, bydd hwn yn fyd cymhleth a chymysgryw lle bydd yn rhaid i sefydliadau fel darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fodloni anghenion cynulleidfaoedd beth bynnag fo'u cynnydd ar y daith i'r byd cwbl ddigidol.

Dadleuir yn aml fod gallu'r rhyngrwyd i ddarparu mynediad at ystod enfawr o gynnwys math PSB yn lleihau'r angen am ymyriad PSB uniongyrchol. Dengys dadansoddiad Ofcom fod y rhyngrwyd yn gartref i ystod eang o ddarparwyr cynnwys cyfredol sy'n bodloni dibenion a nodweddion darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Fodd bynnag, ceir darpariaeth gref mewn nifer cyfyngedig o genres yn unig, a gall canfyddiadwyedd y cynnwys hwn fod yn isel. Bydd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gallu ymgymryd â rôl allweddol yn y bwlch digidol, gan gynnwys:

- Sicrhau cyflenwad cyson o gynnwys newydd o ansawdd uchel
- Dod â chynulleidfaoedd newydd ar-lein trwy frandiau a gwefannau y gellir ymddiried ynddynt
- Buddsoddi mewn casglu newyddion sylfaenol a newyddiaduriaeth ymchwiliol, yn hytrach nag ailddefnyddio hen newyddion
- Cefnogi'r diwydiannau creadigol trwy fuddsoddi mewn comisiynau cyfryngau newydd annibynnol
- Cysylltu â chynnwys a werthfawrogir ar draws y rhyngrwyd, gan gynyddu ei ganfyddiadwyedd

Mae'n hanfodol bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a ariennir yn gyhoeddus yn sensitif i ddatblygiadau'r farchnad yn y maes hwn, yn enwedig mewn marchnadoedd newydd a chychwynnol lle mae modelau busnes yn ansicr. Gall darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus helpu'r farchnad trwy fod yn agored ac yn gydweithredol, yn dryloyw yn eu hymdriniaeth, a thrwy helpu cau'r rhaniad digidol ac agor u marchnadoedd digidol i gynulleidfaoedd newydd.

Ond, ar y cyfan, gall PSB fod gryn dipyn yn fwy effeithiol yn y dyfodol, os yw darparwyr yn cyflawni'r her. Mewn gwirionedd, gellir ailddyfeisio PSB ar gyfer yr oes band eang i ddod â manteision mewn tri phrif faes:

- Gwella mynediad at gynnwys – trwy lwyfannau gwahanol, a thrwy gynnwys ar-alw a newid amser
- Gwella effeithiolrwydd rhai mathau o gynnwys, e.e. dysgu a gwybodaeth. Mewn perthynas â hyn, gall y cyfryngau cymdeithasol newydd greu mwy o gyfranogiad posibl gan y gynulleidfa, cynnwys wedi'i gynhyrchu gan ddefnyddwyr a phosibilrwydd trafodaeth wirioneddol rhwng darparwyr PSB a dinasyddion
- Cynnal cyrhaeddiad, effaith a gwerth am arian cynnwys PSB.


Mae'r BBC wedi bod ar y blaen o ran datblygu ymagweddau arloesol yn y meysydd hyn yn unol â'i chweched diben – 'cyflwyno i'r cyhoedd les technolegau cyfathrebu a gwasanaethau sy'n ymddangos' – ac mae llawer o enghreifftiau o'r adran hon wedi'u cymryd o wasanaethau'r BBC.

### 4.1.1 Mynediad gwell at gynnwys

Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cyflawni eu dibenion cyhoeddus yn draddodiadol trwy ddarlledu rhaglenni ar nifer cyfyngedig o sianeli teledu; yn awr gallant a rhaid iddynt gyflwyno cynnwys trwy amrywiaeth o lwyfannau, wedi'u hamserlennu a heb eu hamserlennu, yn y cartref neu wrth newid lleoliad.

Mae iPlayer y BBC wedi dechrau dangos yr atyniad a'r gwerth cyhoeddus a geir mewn ffyrdd newydd o gael mynediad at gynnwys PSB. Ers ei lansio ar ddydd Nadolig 2007, mae'r ceisiadau dyddiol cyfartalog wedi codi i 700,000 y dydd, gyda chyfanswm o 21.0 miliwn o geisiadau misol ym mis Ebrill (cynnydd o 22% o gymharu â mis Mawrth):

*Ceisiadau ffrwd a lawr lwytho iPlayer misol (miliynau)*




*Ffynhonnell: BBC Livestats*

(Text for above graph)


Average daily requests – Cyfartaledd y ceisiadau dyddiol

Er y gall gwasanaethau fel iPlayer wneud yn siwr bod ystod eang o gynnwys ar gael, mae ymgynghoriad Ofcom yn amlygu pa mor anodd y gallai fod i ddod o hyd i gynnwys mewn byd lle mae'n ymddangos bod y dewis yn gyfyngedig: 'Yn y dyfodol, mae'n ymddangos bod sicrhau bod pobl yn gwybod am, ac yn gallu dod o hyd i ystod eang o gynnwys gwasanaeth cyhoeddus rhyngweithiol o ansawdd uchel yn fwy o her na sicrhau ei fod ar gael. Mae ein hymchwil yn awgrymu bod llawer o bobl eisoes yn ei chael yn anodd gwahaniaethu p'un a ddylid ymddiried mewn gwefan sy'n newydd iddynt ai peidio, ac mae llawer hefyd yn teimlo'n rhwystredig oherwydd bod ystod y cynnwys ar-lein y maent yn ei defnyddio yn gyfyng'[10].

Mae wedi bod yn un o swyddogaethau craidd PSB erioed i gyflwyno pobl i destunau a rhaglenni na fyddent efallai wedi dewis eu gwylio. Gellir dadlau weithiau bod y swyddogaeth hon yn ddiangen yn y byd ar-alw; mewn gwirionedd, gallai fod yr un mor bwysig, gan fod pyrth newydd yn creu'r cyfle i ddarparu deunydd ar gyfer cynulleidfaoedd nad ydynt eto yn gwybod bod ei eisiau arnynt.

Mae ffigurau o safleoedd y BBC ei hun yn dangos pŵer ymddangosol pyrth. Dengys y ffigurau hyn fod hafan iPlayer yn hynod ddylanwadol yn gyrru cyrhaeddiad a'r defnydd o raglenni, ac mae hyn wedi golygu bod rhaglenni gan BBC Three a BBC Four yn torri drwodd i ddeg uchaf y gwylio aflinol, tra bod BBC One a BBC Two ar y blaen o ran ffigurau gwylio'r BBC yn y byd llinol.

*Y 10 rhaglen uchaf (Mawrth 2008)*




Ffynhonnell: *BBC*

Mae rhannau porth eraill safle'r BBC yn dangos gallu tebyg i yrru cyrhaeddiad a defnydd. Mae tua 55% yr ymweliadau â gwefan y BBC yn dechrau ar un o'r tudalennau cartref ar gyfer Newyddion, Chwaraeon neu Brif dudalennau cartref, ac mae'r ffigwr hwn wedi bod yn gyson ers cryn amser. Gall pyrth fel porth y BBC felly fod yn lleoedd i roi gwybod am rywbeth ac yn lleoedd a rennir. Fodd bynnag, nifer bach ymhlith llawer sy'n cystadlu am sylw fydd pyrth PSB - bydd gwneud cynnwys PSB yn weladwy mewn pyrth masnachol yn gynyddol bwysig gan eu bod nhw, hefyd, yn casglu sylw a mas critigol. Gallai hyn hefyd liniaru un perygl arall i werth cyhoeddus – sef y perygl y mae ar-alw yn ei gwneud yn haws defnyddio ystod fwy cyfyng o gynnwys, gan eithrio barn a safbwyntiau amrywiol.

[10] Ofcom, *Y Cyfle Digidol*, Ebrill 2008

### 4.1.2 Cyflwyno gwasanaeth cyhoeddus yn fwy effeithiol

Yn ogystal â mynediad gwell, mae nifer o ffyrdd eraill y gellir cyflawni dibenion cyhoeddus yn fwy effeithiol yn y byd ar-lein.

Cymunedau o ddiddordeb

Mae gan gymunedau o ddiddordeb dudalen gartref naturiol ar y we. Mae dadansoddiad Ofcom wedi dangos bod amlder o gynnwys gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei ddarparu trwy ystod helaeth o ddarparwyr. Mae'r rhain yn cynnwys cymunedau sy'n canolbwyntio ar ddaearyddiaeth, hobïau a chefnogaeth gymdeithasol ymhlith llawer o rai eraill. Mewn cyd-destun PSB, mae'r hyn a allai, yn draddodiadol, fod wedi cael ei ystyried yn gynnwys 'niche' yn y byd llinol bellach yn gallu cyrraedd llawer mwy trwy rhyng-gysylltiad cymunedau ar y we, ac felly'n ehangu gwerth y cyhoedd o'r darllediad gwreiddiol.

Gall darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd groesawu cymunedau o ddiddordeb lle gallant ymgymryd â rôl benodol. Er enghraifft, mae'r BBC yn cefnogi fforymau lle ceir cyfraniadau gweithredol gan letywyr y BBC ochr yn ochr â chyfraniadau defnyddwyr, neu ble gall y BBC wneud cyfraniad gwerthfawr trwy ddefnyddio safoni arfer gorau – er enghraifft, mewn lleoedd sydd wedi'u neilltuo ar gyfer plant a phlant yn eu harddegau neu destunau newyddion sensitif.

- Caiff bwrdd negeseuon *The Archers* ei gynnal gan awdur sgriptiau sy'n defnyddio'r gymuned fel seinfwrdd ar gyfer plotiau newydd a newidiadau mewn cymeriadau
- Mae One Life yn cynnig amgylchedd diogel sy'n cael ei gynnal gan arbenigwyr ar gyfer plant yn eu harddegau sy'n rhannu problemau iechyd, perthynas ac arholiadau
- Mae fforymau CBBC, blogiau ac amgylchedd gemau rhithwir *Adventure Rock* yn galluogi'r gynulleidfa iau i gyfathrebu gyda'i gilydd a'r BBC
- Mae tudalennau Have Your Say ar bbc.co.uk yn mynd ati'n weithredol i gynnwys cynulleidfaoedd mewn trafodaethau ar faterion y dydd. Mae Have Your Say yn rhoi llwyfan i ystod eang o farn, a chyda gwerthoedd o degwch ac amhleidioldeb y BBC, ceir ymddiriedaeth unigryw ynddo i roi arweiniad golygyddol i drafodaethau. Caiff 12,000 o negeseuon e-bost ar ddiwrnod cyffredin, ac mae ei Flog Golygyddion hefyd yn rhoi llwyfan i esbonio penderfyniadau ynglŷn â rhaglenni. Yn 2006/07, rhoddodd 70 o olygyddion BBC News a BBC Sport 500 o ohebiadau a chafwyd dros 30,000 o sylwadau gan ddarllenwyr yn ymateb.

Cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr

Mae'r cynnydd sydyn mewn cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr wedi bod yn un o'r datblygiadau mwyaf nodedig yn y gofod ar-lein, sydd wedi'i yrru i raddau helaeth gan y ffaith ei bod bellach yn hawdd ei greu. Mae blogiau o bob math – testun, ffotograffiaeth, fideo, sain a cherddoriaeth – wedi ymledu. Erbyn mis Tachwedd 2007, roedd peiriant chwilio'r cyfryngau cymdeithasol, Technorati, yn olrhain 112.8m o flogiau a thros 250m o ddarnau o gynnwys arall sy'n cael ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr. Mae blogio wedi cyfrannu at dwf newyddiaduriaeth gyfranogol neu ddinasyddion ac mae ei broffil wedi tyfu o ganlyniad. Mae ei ymagwedd gyflym, ryngweithiol at ddigwyddiadau newyddion; ei allu i gyrraedd lleoliadau a phobl na all newyddiadurwyr eu cyrraedd bob tro; a'i lwyddiant cysylltiedig mewn storïau newyddion wedi gorfodi cyfryngau'r brif ffrwd i roi sylw iddo.

Gall y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus reoli a hyrwyddo'r ddawn greadigol hon ymhellach. Gallant annog aelodau o'r cyhoedd i ddatblygu eu defnydd o dechnoleg a'u dawn greadigol ac wedyn eu harddangos i weddill y rhyngrwyd a thrwy ddarlledu. Mae'r potensial ar gyfer math newydd o bartneriaeth greadigol rhwng y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'u cynulleidfa yn gyfoethog gyda chyfle i'r naill a'r llall, a gallai ailffurfio'r broses o greu cynnwys ar-lein ac ar lwyfannau llinol traddodiadol. Nid oes angen cyfyngu'r angen hwn i greu cynnwys: er enghraifft, mae datblygu cymwysiadau neu feddalwedd wedi'u hadeiladu ar gynnwys y BBC neu gydag ef yn digwydd eisoes, pan ofynnir amdano ac i'r gwyrthwyneb, a bydd y BBC yn annog hyn i wneud y gorau o'r posibiliadau creadigol.

Rhan o'r we ehangach y gellir ymddiried ynddi


Mae gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hanes gadarn am ansawdd, annibyniaeth ac ymddiriedaeth. Mae'r priodoleddau hyn yn eu gwasanaethu'n dda ar y we, lle mae cynulleidfaoedd yn agored i beryglon a natur annibynadwy llawer o'r cynnwys. O ganlyniad, gallent fod yn hanfodol bwysig wrth helpu arwain cynulleidfaoedd o ran cynnwys ansawdd uchel a dibynadwy – nid ar eu safleoedd eu hunain yn unig, ond ar draws y we.

Cafodd yr agwedd newydd hon ar PSB ei chefnogi gan ymchwil cydgynghorol y BBC ar gyfer yr Adolygiad PSB:

> *Roedd ymwybyddiaeth uchel o beryglon y rhyngrwyd (yn ogystal ag o'r manteision). Y prif bryder oedd perygl cynnwys amhriodol mewn perthynas â phobl ifanc. Roedd rhai cyfranogwyr hefyd yn poeni am y perygl o dorri amodau diogelwch a'r potensial y byddai caledwedd a / neu feddalwedd yn cael eu difrodi... Ar ôl myfyrio ymhellach, awgrymodd rhai cyfranogwyr fod natur beryglus y rhyngrwyd yn golygu bod angen cynyddol am barth gwasanaeth cyhoeddus diogel. Yn wir, roedd rhai yn gweld cyfle i'r BBC atgyfnerthu ei safle fel canllaw y gellir ymddiried ynddo ar y rhyngrwyd.*

Yn ein harolwg cyfryngau newydd ansoddol, gwefan y BBC oedd yn ymddangos fel y safle y gellir ymddiried ynddo fwyaf o gryn dipyn ymhlith ystod eang o gymheiriaid.

*Pa wefan ydych chi'n ymddiried ynddi fwyaf?*




*Ffynhonnell: YouGov; data wedi'i bwysoli i oedolion ar-lein; sylfaen = 5,097; mae'r siart yn dangos gwefannau y mae eu sgôr yn fwy nag 1%*

Mae'r BBC yn credu y bydd ei rôl fel lle y gellir ymddiried ynddo yn parhau i fod yn bwysig wrth i ddefnyddwyr newydd ddod ar-lein ac wrth i ddefnyddwyr profiadol wynebu datblygiadau newydd. Er enghraifft, gall gynnig gwasanaethau argymell ar gerddoriaeth, gyda defnyddwyr yn gwybod yn sicr nad oes gan y BBC unrhyw agenda sy'n mynd y tu hwnt i ddod â'r gorau y gall y rhyngrwyd ei gynnig iddynt. Gall ddefnyddio ei donnau awyr yn ogystal â'i weithgaredd ar-lein i esbonio podledu neu newyddiaduraeth dinasyddion, er enghraifft, gan ddod â datblygiadau'r rhyngrwyd i gynulleidfa amrywiol.

Gellir ymddiried yn y BBC hefyd i fod yn ganllaw ar gyfer gweddill y rhyngrwyd. Yn arolwg cyfryngau newydd y BBC, dywedodd 43% o'r cynulleidfaoedd ar-lein eu bod yn tueddu i ddod o hyd i safleoedd newydd o gysylltiadau ar wefannau cyfredol, yn ail yn unig i beiriannau chwilio, sef 76%[11]. Fodd bynnag, roedd adolygiad diweddar Ymddiriedolaeth y BBC o bbc.co.uk yn dangos y gall y safle wneud mwy i gysylltu â gwefannau eraill sy'n darparu cynnwys a gwasanaethau sy'n cyfrannu at ddibenion cyhoeddus y BBC – rhywbeth y mae'r BBC wedi ymrwymo i'w wneud.

### 4.1.3 Cynnal cyrhaeddiad ac effaith

Er bod y byd digidol (ar y teledu ac ar fand eang) yn cyflwyno cyfleoedd creadigol go iawn i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyflwyno'r dibenion cyhoeddus mewn ffyrdd newydd a chyffrous, efallai y bydd heriau yn eu hwynebu o ran effeithiolrwydd a gwerth am arian PSB o'i ystyried yn ei gyfanrwydd. I sicrhau gwerth cyhoeddus, rhaid bod i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus gyrhaeddiad ac effaith. Rhaid iddo gyflwyno isafswm lefel o ddefnydd er mwyn cyfiawnhau lefel y buddsoddiad a wnawn ynddo. Gallai twf digidol fynd rhywfaint o ffordd i gymryd ei le, ond mae'n sicr y bydd angen ymagweddau llawn dychymyg


[11] Cafodd Ffynhonnell: YouGov; 'recommendations from other users' hefyd ei dewis gan 43%

gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus os ydynt am gynnal eu dylanwad a chyflawni eu hamcanion cymdeithasol.

Mewn tirwedd cyfryngau sy'n gynyddol orlawn, mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eisoes yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gyflwyno manteision PSB i gynulleidfaoedd eang:

- Portffolios gwasanaethau: Mae portffolios darlledwyr wedi dod yn gynyddol bwysig gan eu bod yn cyfrif gyda'i gilydd am gyfran ddigonol o wylio a gwrando i gael effaith ar gynulleidfaoedd. Mae cyrhaeddiad portffolios cyffredinol y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dangos ystwythder nodedig dros y tair blynedd diwethaf gyda chyrhaeddiad yn amrywio llai na 2% (mae cyfran portffolio PSB masnachol yn dangos patrwm tebyg):


*% Cyrhaeddiad Portffolio yr Holl Oriau: Unigolion (15 munud)*




*Ffynhonnell: BARB*

- Traws-hyrwyddo: mae gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus bortffolio cynyddol gyfoethog o asedau'r cyfryngau, sy'n cynnwys y teledu, y radio, y rhyngrwyd, offer symudol a'r cyfryngau argraffu. Yn yr oes ddigidol gymhleth gyda'i hystod helaeth o ddewis ar yr holl gyfryngau, gall darlledwyr ddefnyddio amserlennu a hyrwyddo i arwain cynulleidfaoedd ar draws y teledu, y radio a'r rhyngrwyd er mwyn gwella'r broses o gyflwyno PSB
- Sianeli ag effaith uchel: i gyflawni amcanion cymdeithasol y system PSB, bydd yn hanfodol cynnal sianeli teledu awdurdodol ac y gellir ymddiried ynddynt y bydd cynulleidfaoedd mawr yn troi atynt yn naturiol am newyddion, gwybodaeth a dehongliad mewn cyfnodau pwysig cenedlaethol a rhyngwladol, ac sy'n gallu - trwy ddrama ac adloniant - helpu creu gwerthoedd a phrofiadau ar y cyd sy'n mynd y tu hwnt i adloniant llwyr. Mae prif sianeli'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi dirywio o ran eu cyfran yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, oherwydd y berthynas gymhleth rhwng cyrhaeddiad a chyfran, maent yn parhau i gyrraedd mwyafrif helaeth poblogaeth y DU ac yn parhau i fod yn rym cryf ar gyfer y cyfryngau torfol nad oes unrhyw gyfrwng arall yn cyfateb iddo:

*% cyrhaeddiad sianeli daearol, yr holl oriau (15 munud, unigolion)*





*Ffynhonnell: BARB*

Ymagweddau newydd yn y byd ar-alw

Yn y byd band eang, bydd llawer o hyn yn parhau yn bwysig, ond bydd angen dimensiynau newydd hefyd:

- **Cyflwyno ar draws y cyfryngau**: Bydd darparwyr PSB yn gallu arwain cynulleidfaoedd ar draws gwahanol gyfryngau i sicrhau cyrhaeddiad ac effaith lle gellir gwneud hyn yn y ffordd fwyaf effeithiol. Er enghraifft, mae'r wefan ar gyfer *The Apprentice* (2007) yn dangos amrywiadau cyflym, wythnosol mewn defnydd sy'n cael ei yrru gan boblogrwydd y brif sioe. Serch hynny, mae argraffiadau tudalen â'r safle hefyd yn dangos sut yr adeiladwyd y 'cafnau' am gyfnod y gyfres, gan dyfu i fod yn gymuned 24/7 o amgylch y darllediadau:

*Argraffiadau Tudalen fesul Dydd ar gyfer Safle a Gêm The Apprentice, a Cheisiadau AV (2007)*




*Ffynhonnell: BBC*

(Text for above chart)

PIs to Apprentice site and requests – ATau ar gyfer safle The Apprentice a cheisiadau AV

PIs to Apprentice game – Atau ar gyfer gêm The Apprentice

- **Creu ac ailddefnyddio digidol**: mae technoleg newydd nid yn unig yn trawsnewid cyfryngau digidol sy'n wynebu cynulleidfa, gall chwyldroi'r union broses o gynhyrchu rhaglenni clyweled. Mae nifer o ddatblygiadau diweddar eisoes wedi cael effaith sylweddol ar y ffordd y caiff rhaglenni teledu eu creu, o gamerâu pwysau ysgafn a golygu pen desg. Fodd bynnag, mae llawer o botensial sydd heb gael ei wireddu yma. Mae'r BBC ei hun yn cynllunio yn y tymor hir, i sicrhau bod yr holl gynnwys yn cael ei 'eni'n ddigidol, a'i fod yn aros yn ddigidol'. Gyda BBC sy'n gwbl ddigidol, lle caiff ei holl gynnwys a'i ddata meta cysylltiedig ei gadw ar gronfeydd data â mynegai llawn, gall unrhyw un gael mynediad at unrhyw gipolwg ar cynnwys, o unrhyw derfynfa, ar unrhyw adeg – gan leihau costau, yn cynnwys ar gyfer ei ailddefnyddio, a chyfleoedd creadigol ysgogol. Gallai fod gwerth cyhoeddus sylweddol yma i bob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus pe bai'r dechnoleg hon ar gael yn ehangach, gan gynnwys ymhlith cynhyrchwyr annibynnol.

- **Dosbarthu cynnwys yn ehangach**: Mae pwysigrwydd gwasanaethau fel iPlayer y BBC a phortholion tebyg sy'n gallu ailddosbarthu cynnwys llinol ar lwyfannau newydd eisoes wedi cael ei archwilio. Fodd bynnag, mae ymagweddau eraill ar gyfer dosbarthu cynnwys nad ydynt yn dibynnu ar wefannau'r darlledwyr eu hunain. Er enghraifft, mae gwasanaeth iPlayer y BBC newydd lansio cebl digidol a chonsolau gemau, gan ddod â manteision rhaglenni ar-alw i lwyfannau annibynnol.

  Mae syndicâd yn un arall o'r ymagweddau newydd hyn, lle gall darlledwyr adeiladu saernïaeth eu gwefannau a'u cynnwys ar-lein i gynyddu canfyddiadwyedd a sefydlu'r arfau sy'n galluogi defnyddwyr i rannu deunydd. Nid yw'r maes hwn wedi cael ei ddatblygu rhyw lawer gan ddarlledwyr traddodiadol ar hyn o bryd, er bod safleoedd fel YouTube yn cael eu hadeiladu o amgylch yr egwyddor gyfan hon. Roedd un enghraifft ddiweddar o PSB yn ymwneud â chyfres BBC Two, *Seven Ages Of Rock*, lle amcangyfrifir bod tudalennau sydd â chlipiau fideo o'r gyfres mewn safleoedd oddi wrth bbc.co.uk wedi cael eu gwylio pedwar miliwn o weithiau, yn ystod y naw wythnos pan oedd y sioe yn cael ei darlledu.

  Ymddengys fod dadansoddiad o rai o'r gwefannau rhannu fideo mwyaf poblogaidd, fel Dailymotion a YouTube, yn dangos bod cynnwys teledu yn parhau i fod yn boblogaidd iawn yn y byd band eang. Mae ystod enfawr o gynnwys wedi'i gynhyrchu gan ddefnyddwyr ar gael ar wefannau rhannu fideo, ond mae'r defnydd yn gogwyddo'n drwm tuag at gynnwys proffesiynol. Er enghraifft, canfu arolwg Pew Internet yn UDA o'r 57% o oedolion ar-lein sydd wedi defnyddio'r rhyngrwyd i wylio neu lawr lwytho fideo, fod 62% yn dweud mai eu hoff fideos oedd y rheiny sy'n cael eu 'cynhyrchu'n broffesiynol'[12]. Ymddengys yn debygol y bydd atyniad cynnwys PSB yn y byd llinol yn mynd drosodd i'r byd band eang, er y gallai'r ffordd o'i gyflwyno gael ei rhannu ymhlith nifer o lwyfannau a phyrth.

## 4.2 Rôl y BBC yn y newid

Bydd angen i'r BBC, ynghyd â'r holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, wneud y mwyaf o'r holl gyfleoedd digidol a amlinellir uchod er mwyn parhau i gyflwyno gwerth cyhoeddus ar gyfer pob cynulleidfa

[12] Ffynhonnell: Pew Internet & American Life Project, 2007

mewn byd cwbl ddigidol. Fodd bynnag, mae rhai meysydd hefyd, lle gall y BBC yn benodol, ymgymryd â rôl ganolog a nodedig i sicrhau'r trosglwyddo i'r dyfodol digidol.

Mae'r BBC eisoes yn ymgymryd â rôl hanfodol wrth gyflwyno manteision y cyfle digidol i bob cynulleidfa trwy ei gyfraniad at y newid i ddigidol. Credwn fod y rôl hon – sef cefnogi chweched diben y BBC o adeiladu Prydain Ddigidol – yn debygol o ddod hyd yn oed yn bwysicach ar ôl 2012. Mae dau faes yn arbennig lle gall y BBC, mewn partneriaeth â'r Llywodraeth, Ofcom, ISPs a'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, helpu'r DU i wneud y mwyaf o'r cyfle digidol:

- Helpu cau'r rhaniad digidol band eang trwy ddod â chynulleidfaoedd ar-lein trwy ddefnyddio brandiau y gellir ymddiried ynddynt, mentrau llythrennedd y cyfryngau a chynnwys deniadol
- Sicrhau dyfodol radio digidol a helpu dod â'i fanteision i boblogaeth y DU gyfan.

### 4.2.1 Band eang

Mae sicrhau Prydain sy'n wirioneddol fand eang yn gynyddol bwysig ar gyfer cyflawni holl ddibenion y BBC:

- Fel sefydliad sy'n gyfrifol ar ran y Llywodraeth am 'gyflwyno i'r cyhoedd fanteision technolegau a gwasanaethau cyfathrebu sy'n ymddangos', mae'r BBC yn awyddus i helpu pob dinesydd i elwa ar y rhyngrwyd boed hynny o ran adloniant, gwybodaeth, addysg neu gyfranogiad democrataidd
- Fel prif ddarparwr cynnwys gwasanaeth cyhoeddus, rydym am sicrhau mynediad byd-eang at ein gwasanaethau yn y ffordd fwyaf cyfleus, yn gyson â chost resymol
- Fel arloeswr technoleg a ariennir yn gyhoeddus, mae gennym rôl i ddatblygu technolegau sy'n gofyn am gydweithio ar draws diwydiannau – fel aml-gast, sy'n galluogi cyflwyno sianeli llinol dros IP
- Fel cwmni sy'n creu cynnyrch gwasanaeth cyhoeddus arloesol, credwn y bydd ymestyn cyfyngiadau a chyflymder rhwydweithiau yn galluogi dawn greadigol i ffynnu.

Gyda disgwyl i nifer y cartrefi sydd wedi'u cysylltu â band eang gyrraedd tua 63% yn 2008, mae'r DU ar ôl gwledydd fel Canada (68%), Yr Iseldiroedd (81%) a De Corea (76%). Er y disgwylir i dreiddio band eang yn y DU, i ryw raddau, dyfu i ryw 79% erbyn 2012[13], bydd hyn yn parhau i olygu nad yw cyfran sylweddol o'r boblogaeth wedi'i chysylltu. Mae cynulleidfaoedd yn cydnabod bod hyn yn bryder; yn ymchwil Ofcom, roedd 72% o'r rheiny sydd â mynediad band eang yn cytuno ei bod yn bwysig i'r rhyngrwyd fod ar gael i bawb[14].

Mae'r BBC yn helpu gyrru'r galw am fand eang, gan gynnwys ymhlith y rheiny sydd fel arall yn amharod i fabwysiadu'r rhyngrwyd. Y grŵp oedrannus a chymdeithasol ddemograffig, C2DE, yw'r rheiny sydd â'r niferoedd uchaf heb eu cysylltu. Mae hyn yn destun pryder o ystyried eu bod ymhlith y grwpiau sydd fwyaf tebygol o elwa ar fanteision cymdeithasol y rhyngrwyd – gan gynnwys cymryd rhan mewn trafodaethau cyhoeddus, dysgu sgiliau newydd ac ymgysylltu â chymunedau o ddiddordeb. Mae'r BBC

---


[13] Screen Digest, 2008

[14] Ofcom, *Y Cyfle Digidol*, Ebrill 2008

yn credu'n gryf y byddai gan argaeledd ehangach cysylltiadau ansawdd uchel rôl bwerus mewn lleihau eithrio cymdeithasol.

Mae ymchwil i gynulleidfaoedd yn dangos mai'r prif beth sy'n rhwystro pobl rhag manteisio ar y rhyngrwyd yw'r diffyg perthnasedd amlwg:

*Rhesymau dros beidio â chael y rhyngrwyd gartref*




*Ffynhonnell: Ofcom*

(Text for above graph)

No need for internet – Dim angen am y rhyngrwyd

Haven't got round to connecting – Heb gael cyfle i gysylltu

All cost factors – Yr holl ffactorau cost

Don't understand how to use – Ddim yn deall sut i'w ddefnyddio

Satisfied using internet elsewhere – Yn fodlon defnyddio'r rhyngrwyd yn rhywle arall

Other – Arall

Y prif reswm dros beidio â chael y rhyngrwyd gartref, i hanner y rhai nad oeddent wedi cysylltu ag ef, yw eu bod yn credu nad oes ei angen arnynt o gwbl. Mae'r BBC yn gallu ac yn ymgymryd â rôl arwyddocaol iawn yma; yn wir, mae nifer o arolygon wedi cadarnhau bod bbc.co.uk yn rheswm pwysig sy'n cael ei roi gan bobl dros gysylltu â'r rhyngrwyd i ddechrau[15]. Mae llawer o'n mentrau wedi targedu grwpiau penodol yn llwyddiannus. Roedd *WW2 People's War*, er enghraifft, yn annog defnyddwyr hŷn i fynd ar-lein am y tro cyntaf – gan greu etifeddiaeth o ryw 47,000 o hanesion a 15,000 o ffotograffau. Yr hyn sy'n galonogol yw bod 90,000 o bobl dros 65 oed wedi dweud eu bod wedi dechrau neu y byddent yn dechrau defnyddio'r rhyngrwyd ar ôl mynychu digwyddiad *WW2 People's War*.

Yn ychwanegol, mae llawer o gyfleoedd yn parhau i gydweithio ag eraill sy'n darparu gwasanaethau ar y rhyngrwyd y mae grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd yn eu hystyried yn atyniadol. Gallai cyfleoedd o'r fath,


[15] Dangosodd arolwg diweddar fod 9% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd yn cytuno mai 'bodolaeth gwefan y BBC www.bbc.co.uk oedd un o'r prif resymau pam es i ar y Rhyngrwyd i ddechrau' (TNS, Rhagfyr 2007)

er enghraifft, gynorthwyo wrth wella canfyddiadwyedd ar gyfer cynnwys trydydd parti ar arweiniad ariannol; mynediad at wasanaethau lleol; canolfannau gwaith; trafodion gyda'r llywodraeth; neu fynediad at wefannau sefydliadau cyhoeddus (fel gwefannau orielau ac amgueddfeydd).

Gall y BBC hefyd helpu pobl i ddod yn fwy hyderus ac yn llythrennog yn y cyfryngau wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd.  Mae'r adnoddau sydd ar gael ar wasanaeth ein *Gwefan* eisoes yn rhoi cymorth ymarferol i ryw 130,000 o ddefnyddwyr yr wythnos[16]. Bydd y BBC hefyd yn parhau i annog cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr, gan roi mwy o hyder i bobl gymryd rhan yng nghyfleoedd y cyfryngau newydd.

Mae ein hymchwil ar-lein YouGov yn dangos bod cynulleidfaoedd yn credu ei bod yn bwysig i'r BBC barhau i ddarparu ystod eang o weithgaredd sy'n annog cynulleidfaoedd i fanteisio ar y rhyngrwyd a'i ddefnyddio:

*Pa mor bwysig yw hi, yn eich barn chi, y dylai'r BBC wneud y pethau hyn? (1 = ddim yn bwysig o gwbl; 10 = pwysig iawn)*




*Ffynhonnell: YouGov; data wedi'i bwysoli yn ôl oedolion ar-lein; sylfaen = 5,097; mae'r siart yn dangos gweithgareddau â chanolrifau >= 7*

Trwy ddarparu a marchnata cynnwys ar-lein sy'n berthnasol i bob grŵp; trwy wybodaeth wedi'i thargedu at adnoddau eraill sydd ar gael ar y rhyngrwyd; a thrwy gymorth pwrpasol ar y we - mae'r BBC eisoes yn ymgymryd â rôl bwysig felly wrth helpu pontio'r rhaniad digidol band eang, a chredwn y bydd hyn yn parhau i fod yn rôl graidd yn y dyfodol.

Credwn fod rhwydweithiau mynediad y genhedlaeth nesaf (NGAN) yn debygol o gael rôl bwysig yng nghymdeithas Prydain ac y gallent gyflawni gwerth cyhoeddus go iawn yn y dyfodol, fel teledu manylder

[16] Sage E-metrics, defnyddwyr unigryw cyfartalog wythnosol, Hydref 07

uchel ac ar-alw. Byddwn yn parhau i adeiladu partneriaethau gyda darparwyr rhwydwaith i'w helpu i asesu'r galw, a byddwn yn gweithio gyda'r holl randdeiliaid i helpu sicrhau mynediad teg ar gyfer cynnwys PSB dros rwydweithiau IP. Fodd bynnag, sylwn er bod y drafodaeth am NGAN yn canolbwyntio ar fand eang arbennig o gyflym (25 mbps+), mae'n ofynnol iddo mewn gwirionedd gyflawni cyflymder sy'n cael ei ystyried yn gyffredin heddiw (2 mbps) i leiafrif sylweddol (c10%[17]) o gartrefi'r DU mewn ardaloedd anghysbell. Yr ardaloedd hyn sydd fwyaf tebygol o gael eu gwasanaethu gan y farchnad, ac y gellir ystyried ymyriad y farchnad yn gyflymach ynddynt heb leihau'r cymhellion ar gyfer buddsoddi.

#### 4.2.2 DAB

Mae gan radio rôl bwysig mewn cyflawni dibenion cyhoeddus yn y DU. Mae nifer o bethau yn rhwystro pobl rhag manteisio ar radio digidol a'i argaeledd ledled y DU, a bydd angen ymyriad polisi sylweddol ar lawer o'r rhain i'w goresgyn.

Y prif rwystr ymhlith y rhain yw graddau'r cwmpas daearyddol a chost adeiladu'r cwmpas hwnnw allan i lefelau sy'n agos at FM. Mae cwmpas daearyddol yn arbennig o bwysig oherwydd ei bod yn annhebygol y bydd gweithgynhyrchwyr ceir yn mabwysiadu DAB fel y safon os yw'r cwmpas yn parhau i fod yn anghyson. Bydd angen buddsoddi'n sylweddol i ddatrys y sefyllfa ar adeg pan fo darlledwyr radio, yn enwedig y rheiny yn y sector masnachol, o dan bwysau cynyddol; ar adeg pan fo refeniwiau yn disgyn, mae costau cyd-ddarllediadau yn anghynaliadwy yn y tymor hwy. Nid oes gan ddarlledwyr masnachol y gallu ariannol na'r rheidrwydd masnachol ychwaith i fuddsoddi mewn adeiladu cwmpas y tu hwnt i'r 90% presennol o boblogaeth y DU y mae Digital One yn ei gwmpasu ar hyn o bryd.

Mae amlblecs y BBC bellach yn cynnwys tua 86% o boblogaeth y DU a bydd hyn yn cael ei ymestyn i 90% dros y pum mlynedd nesaf, ond 60% yn unig yw'r cwmpas daearyddol, ac mae problemau penodol ar gyfer ardaloedd mawr o Gymru a'r Alban. Os yw pob math o radio am gael lle mewn oes ddigidol – gan gynnwys radio lleol y BBC a gorsafoedd y Gwledydd – ac os yw cynulleidfaoedd yn yr ardaloedd hynny am barhau i allu derbyn radio fel y maent yn awr, yna bydd yn rhaid datrys y materion.

Mae'r BBC a'i bartneriaid wedi cynnig set eang o fesurau i gefnogi DAB ar ran y diwydiant cyfan:

- Cyflawni ymrwymiad presennol y BBC i ymestyn cwmpas ei amlblecs cenedlaethol i 90% o boblogaeth y DU erbyn diwedd chwarter cyntaf 2011
- Datblygu cynllun i gynyddu cwmpas daearyddol amlblecs cenedlaethol y BBC i 90% o'r DU gan lenwi i mewn ardaloedd lle mae 'tyllau' mewn ardaloedd – byddai cyflawni hyn hefyd yn sicrhau bron i 99% o gwmpas poblogaeth y DU
- Datblygu cynllun i ymestyn cwmpas Radio Scotland, Wales, Ulster, nan Gàidheal, Cymru a Foyle yn eu Gwledydd priodol
- Dechrau ymdrech farchnata gref wedi'i chydlynu ar draws y diwydiant, gan gynnwys cydlynu gweithredol ar hyd y diwydiant i ail-frandio radio digidol a thrwy ddatblygu cronfa ddata cwmpas genedlaethol ar fodel cynllunio unigol sydd ar gael ar-lein i'r cyhoedd (yn yr un modd â DTT / Freeview)

---

[17] Ffynhonnell: Analysys Mason

- Gwella’r hyn y mae radio digidol yn ei gynnig, ar DAB a llwyfannau radio digidol eraill, gan gynnwys: dewis ehangach, gwrando ar-alw (e.e. trwy iPlayer y BBC), podledu, gwasanaethau data a radio gweledol.

Byddai costau sylweddol i’r mentrau hyn, a byddai’n rhaid cytuno arnynt – yn enwedig y cynnydd mewn cwmpas i 99% o boblogaeth y DU ar gyfer amlblecs DAB cenedlaethol y DU.  Fodd bynnag, mae gwerth cyhoeddus mawr i ddyfodol cynaliadwy yn y tymor hir ar gyfer radio digidol.  Mae’r BBC yn credu y gall helpu ei sicrhau ar ran y diwydiant a’r DU gyfan.

# 5 Pwysigrwydd lluosogrwydd

Rydym yn croesawu barn Ofcom mai'r BBC yw conglfaen darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Yng nghyd-destun yr heriau a'r ansicrwydd a amlygwyd yn yr adran flaenorol, bydd rôl y BBC wrth sicrhau rhaglenni o ansawdd uchel ar draws ystod lawn o genres yn parhau i fod yn hollbwysig. Y cwestiwn allweddol sydd wrth wraidd dadansoddiad Ofcom, yw faint y bydd angen darpariaeth PSB wedi'i sicrhau y tu hwnt i'r BBC, ac a yw manteision ymyrryd i'w sicrhau yn gorbwyso'r costau.

## 5.1 Lluosogrwydd yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol

Mae cynulleidfaoedd y DU, ers degawdau, wedi cael ychydig iawn o ddewis ond gwylio cynnyrch nifer bach iawn o ddarlledwyr, pob un wedi ymrwymo i raglenni gwasanaeth cyhoeddus. Roedd cyrhaeddiad ac effaith fwy neu lai wedi'u sicrhau, ond roedd cynnal elfen o gystadleuaeth, amrywiaeth a dewis yn amcan pwysig yn yr hyn a oedd yn system gwbl gaeedig bron. Mewn byd pedair sianel ac wedyn pum sianel, parhaodd 'ecoleg PSB' hynod reoledig a oedd yn cynnwys y BBC, ITV, Channel 4 a Five i weithio'n dda. Roedd modelau sefydliadol gwahanol a mynediad at wahanol ffynonellau cyllid yn cynyddu grymuster y system yn gyffredinol; ystod ac amrywiaeth gynyddol; roedd yn annog cystadleuaeth am ansawdd; ac yn cynnal gweithgaredd PSB yr un mor atgyfnerthol. Mae awydd dealladwy i gadw manteision yr hen fodel hwn wrth i ni symud tuag at 2016. Ond eto, bydd unrhyw ymyriad i gyflawni hyn yn digwydd mewn marchnad sy'n wahanol iawn yn y bôn.

Mae gwylwyr y DU eisoes yn manteisio ar fyd aml-sianel, ac maent ar fin dechrau yn y chwyldro band eang ac aflinol. Cystadleuaeth yw'r realiti dyddiol bellach, bron yn gyffredinol, o ran cyllid yn ogystal â chynulleidfaoedd, ac o ystod gynyddol o gyfryngau. Yn y farchnad, bydd yr elfen reoledig yn y dyfodol yn cyfrif am gyfran sy'n lleihau o'r hyn y mae'r gwyliwr yn ei ddefnyddio mewn gwirionedd. Bydd sianeli nad ydynt yn sianeli PSB a darparwyr newyddion a gwybodaeth eraill yn sicrhau canlyniadau gwasanaeth cyhoeddus yn gynyddol ac yn bodloni anghenion gwasanaeth cyhoeddus cynulleidfaoedd, ond ar yr amod bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gyda'r BBC fel conglfaen y system, yn parhau i reoli'r farchnad â'u cynnyrch eu hunain sy'n gosod y safon.

Mae'r system PSB ei hun hefyd wedi datblygu graddau llawer mwy o gystadleugarwch mewnol. Ymhell o fyd o gynhyrchwyr/darlledwyr sydd wedi'u hintegreiddio'n fertigol, mae 45% o'r holl wariant ar gynyrchiadau bellach gyda sector cynhyrchu annibynnol sy'n ffynnu. Mae hyn wedi creu ystod fawr o gyflenwyr rhaglenni, cystadleuaeth ddwys am leoedd prin yn yr amserlen ac arloesedd arwyddocaol mewn cynnwys a fformatau. Yn erbyn y cefndir hwn, mae'n bwysig asesu:

- Y graddau y mae angen ail-ddychmygu nodau ac amcanion lluosogrwydd PSB
- Y graddau y bydd y nodau hynny yn cael eu bodloni gan y ffordd y bydd y farchnad ei hun yn datblygu (heb unrhyw ymyriad pellach)
- Effaith unrhyw ymyriad i sicrhau lluosogrwydd PSB yn y system bresennol, nid yn unig ar luosogrwydd ei hun ond ar rannau eraill o'r ecoleg.

## 5.2 Lluosogrwydd PSB heddiw

Pwyslais canolog dadansoddiad Ofcom yw bod nodau PSB, sef ansawdd trwy gystadleuaeth, amrywiaeth o leisiau a barn, a chyrhaeddiad ac effaith, yn cael eu cyflawni'n uniongyrchol gan fodolaeth lluosogrwydd darparwyr gwasanaeth cyhoeddus, ac y bydd unrhyw ostyngiad yn nifer y cyflenwyr PSB yn effeithio'n anochel ar allu'r system i gyflwyno'r manteision hyn i wylwyr.  Mae Ofcom yn ategu hyn ag asesiad o awydd y gynulleidfa am luosogrwydd, yn unol â'r hyn a fynegwyd mewn ymchwil ansoddol a meintiol, ac astudiaeth o ddarpariaeth debygol genres rhaglenni allweddol, ynghyd ag amcangyfrif o'r gost i ddarparwyr presennol sy'n cyflwyno'r rhaglenni hyn.

Mae'r BBC yn credu bod dadansoddiad Ofcom yn gadael rhai agweddau pwysig heb eu harchwilio, yn arbennig:

- Y graddau y mae nodau PSB yn dibynnu ar luosogrwydd cyflenwyr **PSB** y tu hwnt i'r farchnad
- Y graddau y caiff ymchwil i gynulleidfaoedd ei adlewyrchu gan y dystiolaeth o ymddygiad a gwerthfawrogiad cynulleidfa – a'r hyn y gallai unrhyw gamgymhariad ei olygu
- Y gwahaniaeth rhwng maint a lluosogrwydd – mewn geiriau eraill, gwahaniaethu rhwng ble mae'r broblem yn ymwneud â diffyg cyflenwad mewn cyferbyniad â phroblem ble mae'n ymwneud â diffyg lluosogrwydd PSB.  Mae hwn yn wahaniaeth hanfodol, gan nad yw'r broblem flaenorol yn ymwneud â diffyg lluosogrwydd, ac efallai y bydd angen gwahanol fath o ymateb arni felly
- Y ddeinameg wahanol sy'n ymwneud â'r modd y gallai gwahanol drefniadau i gyflwyno PSB weithredu yn y dyfodol.

O ystyried y pwyslais a roddir i luosogrwydd yn ymgynghoriad Ofcom, credwn ei bod yn hanfodol asesu'n llawn ei rôl wrth gyflawni nodau darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

### 5.2.1 Ansawdd trwy gystadleuaeth


Mantais gyntaf lluosogrwydd a ddyfynnwyd gan Ofcom yw'r effaith a gaiff ar ansawdd ac arloesedd o ganlyniad i gystadleuaeth.  Ar draws llawer o farchnadoedd, mae cystadleuaeth yn helpu ysgogi ansawdd, arloesedd a gwerth am arian.  Mewn darlledu, mae'r un peth yn berthnasol ar y cyfan, er nad yw cystadleuaeth yn syml nac yn unffurf yn ei heffaith ac mewn rhai achosion, gall hyn gael effaith negyddol.

Fel sydd eisoes yn glir o ddewisiadau yn y cyfryngau o'n hamgylch heddiw, bydd byd cwbl ddigidol yn golygu bod cystadleuaeth yn gwbl dreiddiol, yn y DU a'r tu allan, o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ac o'r rheiny nad ydynt yn ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, o gwmnïau cyfryngau enfawr ac o gwmnïau cyfryngau cychwynnol newydd ystwyth a chyflym.  Mae'r symbyliad i ansawdd ac arloesedd mewn PSB eisoes wedi dod yn rhywbeth ar draws genres, ar draws llwyfannau ac ar draws ffiniau.  Mae disgwyliadau yn cael eu gosod yn ôl cynnyrch byd-eang gorau yn ei ddosbarth ac mae llawer o raglenni

blaenllaw'r DU eisoes yn cymryd eu meincnodau ar gyfer ansawdd ac arloesedd, cymaint o gynnyrch gorau Americanaidd ag o raglenni domestig cystadleuol.

Mae archwiliad tri mis y BBC o raglenni ar draws cynnyrch daearol ac aml-sianel yn dangos cymaint o gynnyrch sydd bellach ar gyfer i wylwyr.  Mewn ardaloedd penodol, fel cynnwys y Gwledydd a'r Rhanbarthau, y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn unig sy'n cyfrannu.  Ond ar draws amrywiaeth eang o genres, mae cynnwys nad yw'n PSB a rhaglenni sy'n cael arian o ffynonellau rhyngwladol yn trefnu bod cyfoeth o ddewisiadau o raglenni ar gael i gynulleidfaoedd.  Mae tarddiad y cynnwys hwn weithiau yn PSB ac weithiau'n cael ei gynhyrchu gan y rheiny nad ydynt yn ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, ond mewn llawer o genres, mae caffaeliadau rhyngwladol yn cael lle blaenllaw ynddo. Mae darpariaeth PSB yn cyfrif am lawer llai na chwarter o'r cynnyrch.

*Maint cynnyrch yn ôl genre, wedi'u rhannu yn ôl darlledwr a tharddiad*




*Yn seiliedig ar sianeli gyda chyfran yn fwy na, neu'n hafal i 0.1% (ac eithrio sianeli cerddoriaeth), chwarter 1 2007. Nid yw Drama yn cynnwys drama barhaus. Ffynhonnell: BARB/TRP*

Mae gwylio gwirioneddol o ran y cynnyrch hwn yn amrywio, ond i rai genres fel comedi ac aml-sianeli i blant, mae'r gyfran yn sylweddol – sef tua 40% o'r holl wylio.  Er bod cynnyrch y DU yn parhau i fod yn allweddol ar gyfer cyflawni llawer o'r dibenion cyhoeddus, mae rhaglenni o'r tu allan i'r DU hefyd yn eu cefnogi ar draws ystod o genres.  Gallant roi gwybod i ni am y byd, cyflwyno gwybodaeth ac addysg, a thrwy ddarparu rhaglenni ansawdd uchel, bron bodloni pob un o nodweddion Ofcom.

Yn y cyd-destun hwn, mae'n arwyddocaol fod yr enghreifftiau y mae Ofcom yn eu dyfynnu o gystadleuaeth **PSB** yn gwella ansawdd i gyd wedi'u tynnu o oes y pum sianel.  Pan oedd y BBC ac ITV yn cystadlu ym maes drama boblogaidd, roedd ITV yn wynebu ychydig iawn o gystadleuaeth am refeniw


masnachol.  Pan oedd Channel 4 yn arbrofi â genres newydd yn y 1990au, roedd yn gwneud hynny mewn amgylchedd pedair sianel i raddau helaeth (ac roedd wedi'i ryddhau o'r rhwymedigaeth i ddychwelyd elw i gyfranddalwyr beth bynnag).

Mae hyn yn awgrymu mai'r amodau sydd wedi gweld cystadleuaeth wirioneddol am ansawdd ymhlith darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn y DU yw'r rheiny lle nad oedd angen i ddarlledwyr gystadlu â'i gilydd am refeniw.  Ar adeg pan oedd incwm masnachol yn sicr, gallai darlledwyr fforddio cystadlu â'i gilydd a'r BBC ar arloesedd ac arbrofi.  Ond pan fydd darlledwyr yn wynebu her uniongyrchol i'w ffynonellau refeniw, mae'r cyfle i arbrofi mewn genres nad ydynt yn rhai masnachol yn lleihau, a gallai effaith y gystadleuaeth olygu bod yr ystod a'r awydd am risg yn lleihau.  O ganlyniad, mae'r sbardun ansawdd heddiw am raglenni fel *Spooks* neu mewn genres fel hanes naturiol yn dod cymaint o'r cynnyrch gorau sydd wedi'i gaffael o dramor a chan ddarlledwyr eraill yn y DU.

Mae rhesymau eraill dros fod yn wyliadwrus ynglŷn â derbyn y rôl uniongyrchol sydd gan PSB yn ymddangosiadol ym mhob genre.  Dylid canfod tystiolaeth am gystadleuaeth yn ysgogi ansawdd mewn unrhyw gydberthynas rhwng graddau cystadleuaeth ymhlith darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mewn genre a lefel gwerthfawrogiad y gynulleidfa.  Hynny yw, os cafodd y gystadleuaeth ei hun effaith amlwg mewn gwella ansawdd, dylid adlewyrchu hyn mewn lefelau uwch o werthfawrogiad y gynulleidfa.

Mewn gwirionedd, nid yw'n ymddangos bod unrhyw gydberthynas yn bodoli.  Mae'r siart isod yn mapio canfyddiadau cynulleidfaoedd o ansawdd yn erbyn maint y cynnyrch PSB mewn gwahanol genres. Mae genres sydd â mwy o gynnyrch yn tueddu i gael niferoedd uwch o ddarparwyr PSB a byddai'n ymddangos mai perthynas fechan a geir rhwng cynyddu cystadleuaeth a chynyddu ansawdd:

*% y gynulleidfa sy'n ystyried bod ansawdd rhaglenni yn uchel (wedi'u crynhoi yn ôl genre) yn erbyn meintiau cynnyrch PSB*




*Blwyddyn ariannol 07/08: BBC One-Four, ITV1, C4, E4, Five. Ffynhonnell: BARB / Pulse / TRP*

(Text for above chart)

**% agreeing a particular programme is high quality - % sy'n cytuno bod ansawdd rhaglen benodol yn uchel**

Gardening – Garddio

Travel – Teithio

Animation – Animeiddio

Science/Medical – Gwyddoniaeth/Meddygol

Drama Series / Serials – Cyfresi Drama

News / Weather – Newyddion / Tywydd

Art – Celf

Current Affairs – Materion Cyfoes

Sitcoms – Rhaglenni sitcom

Drama Single Plays – Dramâu Unigol

Films: Cinema – Ffilmiau: Sinema

Religious – Crefyddol

Hobbies / Leisure – Hobïau /Hamdden

Sport – Chwaraeon

Cookery – Coginio

Consumer – Defnyddiwr

Music – Cerddoriaeth

Documentaries – Rhaglenni Dogfen

Chat Shows – Sioeau Sgwrsio

Soaps – Operâu Sebon

Entertainment – Adloniant

Other Comedy – Comedi Arall

Films: Made for TV - Ffilmiau - Crëwyd ar gyfer y Teledu

Miscellaneous – Amrywiol

Education – Addysg

Children's – Plant

**Total Duration (Minutes) – Cyfanswm eu Hyd (Munudau)**

Nid yw'r dystiolaeth hon yn bendant, ond mae'n anodd dod o hyd i unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu cydberthynas. I'r gwrthwyneb, ychydig iawn o gystadleuaeth yn y DU sydd gan gynnyrch y BBC ar Radio 3, Radio 4 ac mewn hanes naturiol ar y teledu, ac eto mae cynulleidfaoedd yn gweld bod ansawdd y gwasanaethau a'r genres hyn yn uchel iawn.

### 5.2.2 Amrywiaeth Lleisiau a Barn

Yr ail fantais a ddyfynnwyd gan Ofcom yw cyflwyno barn a safbwyntiau amrywiol. Yn enwedig mewn rhaglenni newyddion a materion cyfoes, mae gwerth mewn sicrhau bod ystod eang o leisiau a safbwyntiau yn cael eu darparu ar gyfer cynulleidfaoedd. Os yw trafodaethau gwleidyddol a chymdeithasol yn cael eu llywio gan yr ystod ehangaf posibl o farn, bydd gwylwyr yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus yn well ac ymgymryd â rôl gwbl effeithiol fel dinasyddion.

Yn ffodus, mae gan ddatblygu gwasanaethau ar-lein, ynghyd â'r nifer eang o sianeli newyddion a gwybodaeth sydd ar gael o bob cwr o'r byd, ran gynyddol yn sicrhau lluosogrwydd safbwyntiau ac ystod o leisiau. Er bod newyddion teledu yn parhau i fod yn ganolog i brofiad dinasyddion y DU, a'i fod yn gyfrwng wrth lunio barn a phennu pwysigrwydd a blaenoriaeth i'r agenda newyddion, caiff ei ategu'n gynyddol gan newyddion ar-lein a rhyngweithiol. Mae ymchwil diweddar gan Harris yn awgrymu, er y bydd pwysigrwydd y teledu fel ffynhonnell newyddion yn dirywio rhywfaint dros y pum mlynedd nesaf, bydd y rhyngrwyd bron yn dyblu[18].

[18] Ffynhonnell: Harris Poll, Mai 2007

Ar y teledu, mae'r ffaith fod dosbarthiad aml-sianel ar gael yn eang yn rhoi dewis sylweddol o ffynonellau newydd i wylwyr, yn enwedig sianeli newyddion sy'n cael eu safiad a'u hymagwedd olygyddol o safbwyntiau diwylliannol eraill. Mae sianeli newyddion Americanaidd yn cynnig ymagweddau penodol, tra bo rhaglenni newyddion a gwybodaeth, nid yn unig yn Saesneg, yn cynnig straeon ac agendâu newyddion gwahanol iawn sydd o ddiddordeb i grwpiau penodol ond nad yw'r prif fwletinau PSB yn ymdrin â nhw.


Mae ymchwil diweddar Ofcom ei hun i ddarpariaeth newyddion, yn *New News, Future News*, yn awgrymu bod amrywiaeth go iawn yn cael ei chyflwyno o'r tu allan i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn hytrach nag oddi mewn iddynt. Nid yw hyn yn syndod o gofio'r prif resymau dros sicrhau lluosogrwydd darpariaeth newyddion gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r teledu yn gyfrwng o bŵer penodol. Mae'n cyrraedd pob cartref, ac mae gan ei fynegiant llinol a'i hyd cyfyngedig y gallu i flaenoriaethu a chyfyngu agendâu golygyddol fel ei gilydd i raddau mwy na chyfryngau eraill. Mae'r rhwystrau rhag mynediad wedi bod yn uchel iawn yn draddodiadol: dim ond y rheiny a oedd yn gallu sicrhau trwydded gan y wladwriaeth oedd yn gallu cynnig newyddion teledu. Roedd hyn yn golygu ei fod o'r pwys mwyaf y dylid diogelu lluosogrwydd o ddarparwyr i sicrhau annibyniaeth newyddion darlledu a darparu presenoldeb sicr llais amgen i'r BBC. Mae'r agwedd hon ar luosogrwydd yn parhau i gael ei gwerthfawrogi'n fawr gan gynulleidfaoedd ac mae'n parhau'n hanfodol i gael darparwyr newyddion diduedd ac annibynnol ychwanegol sydd â chyrhaeddiad ac effaith arwyddocaol ochr yn ochr â'r BBC.

Er bod Ofcom yn nodi bod diffyg cyflenwad o newyddion cenedlaethol a rhyngwladol yn ogystal â'r newyddion a ddarperir gan y BBC yn annhebygol, mae'n debygol y bydd problem serch hynny yn y Gwledydd datganoledig lle mae gallu'r system PSB i sicrhau ail ddarparwr newyddion cenedlaethol yn arbennig ar gyfer Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, o dan bwysau go iawn. Mae dadansoddiad Ofcom ei hun yn awgrymu bod yr achos ar gyfer darpariaeth fasnachol barhaus gan ddalwyr trwydded Channel 3 yn gynyddol anodd i'w gynnal. Credwn, ar yr un pryd, fod y cyfiawnhad democrataidd dros ail ffynhonnell o newyddion teledu yn tyfu mewn grym, wrth i weinyddiaethau a sefydliadau datganoledig gael eu sefydlu'n dda. Mae hwn felly, yn parhau i fod yn faes pwysig lle dylid sicrhau amrywiaeth o ran cyflenwad.

### 5.2.3 Cyrhaeddiad ac Effaith

Mae hwn, sef y trydydd o'r manteision sy'n gysylltiedig yn draddodiadol â lluosogrwydd, yn un lle mae Ofcom yn cynhyrchu'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth wedi'i chymryd o wylio gwirioneddol – er enghraifft, yn ei ddadansoddiad o batrwm gwylio newyddion ar draws sianeli, neu nifer y rhaglenni plant sy'n cael eu gwylio nad ydynt yn gynnyrch y BBC. Efallai mai hyn, ochr yn ochr â'r safbwyntiau ansoddol a fynegwyd yn yr ymchwil i gynulleidfaoedd am werth cyflenwyr amgen sy'n sicrhau bod mwy o wylwyr yn cael cyfle o weld cynnwys gwasanaeth cyhoeddus, yw'r ddadl gryfaf dros ymyrryd i sicrhau lluosogrwydd. Mae ymchwil y BBC ei hun yn dangos mai'r agwedd hon yw'r agwedd y mae cynulleidfaoedd yn ei gwerthfawrogi fwyaf pan gânt eu cymell â'r manteision posibl:


*A wnewch chi ddewis pa rai o'r rhain sydd bwysicaf wrth ddarlledu yn eich barn chi?*




*Ffynhonnell: arolwg meintiol Ipsos MORI; sylfaen = 4,577*

Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth o'r gwylio gwirioneddol yn fwy cymysg nag y mae dadansoddiad Ofcom yn ei awgrymu. Er bod Ofcom yn awgrymu bod 18% o wylwyr yn dibynnu ar ITV yn unig ar gyfer eu newyddion, mae ein dadansoddiad ein hunain yn dangos bod y nifer yn agosach at 6%:

*Gwylio unigryw o ran Newyddion fesul sianel (% y gwylwyr newyddion)*




*Gwylwyr newyddion sy'n gwylio'r hyn sydd gyfwerth ag o leiaf 15 munud / wythnos ar draws blwyddyn, Ebrill 07-08. Ffynhonnell: BARB / Human Capital*

(Text for above chart)

Never this channel – Byth y sianel hon

This channel and others – Y sianel hon a sianeli eraill


Only this channel – Y sianel hon yn unig

Efallai'n fwy trawiadol yw'r ffaith fod nifer y gwylwyr newyddion unigryw fel y darperir ar Channel 4 a BBC Two - y gellir ei ystyried yn fwy nodedig - yn fach iawn yn wir. Mae ymagwedd olygyddol wahanol y sianeli hyn o fudd i gynulleidfaoedd presennol ar gyfer newyddion a materion cyfoes, yn hytrach na dod â chynulleidfa newydd neu arbennig ynddo'i hun.

Fel y nodir gan Ofcom, mae newyddion cenedlaethol a rhyngwladol yn debygol o gael eu cyflwyno gan sianeli masnachol beth bynnag fo'u gofyniad rheoleiddio penodol. Fodd bynnag, mewn genres gwasanaeth cyhoeddus craidd eraill, mae'r stori yn debyg i'r llun mewn Newyddion. Mewn Materion Cyfoess, mae nifer y gwylwyr ITV unigryw fwy neu lai'r un fath ag ar gyfer Newyddion (6%); nid yw Channel 4 yn denu unrhyw wylwyr i Faterion Cyfoes nad ydynt yn ei wylio hefyd ar sianeli eraill. Dim ond 7% o'r gynulleidfa newyddion rhanbarthol sy'n eu gwylio ar ITV1 yn unig – mae'r mwyafrif helaeth (77%) yn gwylio newyddion rhanbarthol ar BBC One ac ITV1.

Pan gaiff yr uned fesur ei lleihau i wythnos yn hytrach nag ar draws y flwyddyn gyfan (fel yn nadansoddiad Ofcom), mae mwy o wylwyr, wrth gwrs, nad ydynt yn edrych ar unrhyw un o sianeli'r BBC yn ystod yr wythnos ar gyfer y genres hyn. Fodd bynnag, hyd yn oed yma, mae bron i dri chwarter o'r holl bobl sy'n gwylio rhaglenni ffeithiol difrifol yn gwylio o leiaf rhywfaint ohonynt ar y BBC, ac mae aml-sianel yn cyrraedd nifer sylweddol iawn ohonynt hefyd:

*% y cyrhaeddiad wythnosol cynyddol yn ôl genre (3 munud yn olynol, 4+ oed)*




*Ffynhonnell: BARB / TRP*

(Text for above graph)

Serious Factual – Ffeithiol Difrifol

National News – Newyddion Cenedlaethol

Current Affairs – Materion Cyfoes

Regional News – Newyddion Rhanbarthol

Children's – Plant

Incremental Multichannel – Aml-sianel Gynyddol


Incremental Commercial PSB (ITV1, CH4, Five only) – PSB Masnachol Cynyddol (ITV, CH4, Five yn unig)

All BBC – BBC i gyd

Hefyd, nid yw hyn yn ystyried unrhyw ymddygiad newid tebygol.  Yn annhebyg, mewn llawer o farchnadoedd cystadleuol eraill, er enghraifft, mae costau newid yn sero ar gyfer teledu.  Felly, pe na bai'r newyddion yn cael eu dangos mwyach ar ITV, mae'r niferoedd sylweddol iawn o bobl sy'n fodlon gwylio newyddion ar fwy nag un sianel yn awgrymu bod newyddion yn genre y byddai gwylwyr yn barod i ddod o hyd iddo yn rhywle arall.  Er bod newyddion rhanbarthol ITV yn cyflwyno cyrhaeddiad cynyddol o ryw 20% o wylwyr ar draws wythnos, fel y dangosir uchod, mae'n amlwg o'r ffigurau cyrhaeddiad blynyddol a ddyfynnwyd yn gynharach bod gwylwyr newyddion rhanbarthol yn hapus i'w gwylio ar y BBC (gan mai 7% yn unig o gynulleidfa flynyddol y newyddion rhanbarthol sy'n eu gwylio ar ITV1). Mae'n hynod annhebygol na fyddai'r gwylwyr hyn yn troi at y BBC pe na bai gwasanaeth ITV yn cael ei ddarparu mwyach.

Mae dadansoddiad manylach o raglenni plant yn cynhyrchu canlyniadau tebyg.  Mae'n wir nad yw nifer sylweddol o blant 4 - 15 mlwydd oed yn gwylio rhaglenni'r BBC: mae dadansoddiad Ofcom yn awgrymu nad yw un o bob chwe phlentyn sy'n gwylio rhaglenni plant yn gwylio sianeli'r BBC.  Serch hynny, dengys ein dadansoddiad fod cyrhaeddiad cynyddol cynnyrch plant y PSB i blant y tu hwnt i'r BBC yn gyfyngedig iawn.  Nid yw plant yn gwylio deunydd plant PSB yn unig ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill yn hytrach na gwylio'r BBC - y cyrhaeddiad hanesyddol ac effaith y cyfiawnhad dros luosogrwydd PSB - ond maent yn gwylio'r amrywiaeth eang o sianeli digidol yn lle:

*% y cyrhaeddiad wythnosol cynyddol ar gyfer rhaglenni plant (3 munud o gyrhaeddiad olynol, plant 4-12 oed)*




*Ffynhonnell: BARB / TRP, Ebrill 2007-Mawrth 2008*

Mae hyn yn arwain at ddadansoddiad amgen o bwysigrwydd cyrhaeddiad ac effaith sy'n awgrymu, yn y dyfodol a amlinellir yn adroddiad Ofcom o bwyntiau dosbarthu lluosog a gwylio rhanedig, mai'r elfen bwysicaf wrth ddiogelu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus fydd sicrhau ei fod yn dod i'r cyhoedd trwy frandiau pwerus ac y gellir ymddiried ynddynt.  Mae PSB wedi elwa yn y gorffennol ar ei statws symudydd cyntaf yn y farchnad deledu:  yn sgil y diogelu a'r meithrin rheoleiddiol a gaiff, mae ganddo fanteision helaeth dros y farchnad fasnachol.  Fodd bynnag, yn y dyfodol, bydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn colli'r manteision hyn: er y gallai eu rhaglenni a'u hamserlenni fod yn wahanol iawn i gyfryngau eraill o ran cwmpas ac uchelgais golygyddol, bydd yr her yn ymwneud â llywio ac effaith.

Mae cynnwys gwasanaeth cyhoeddus eisoes yn cael ei ddosbarthu'n eang ar draws y byd aml-sianel (trwy'r farchnad deledu eilaidd) a bydd ar gael yn gynyddol trwy wahanol lwyfannau dosbarthu yn y dyfodol.  Ond yr her fydd sicrhau sefydliadau o raddfa, cyrhaeddiad ac ymddiriedaeth ddigonol i greu'r cynnwys hwnnw i ddechrau a chefnogi ei ddosbarthu ar gynifer o lwyfannau ag sydd angen i sicrhau ei gyrhaeddiad a'i effaith.

### 5.2.4 Ymchwil i gynulleidfaoedd

Ymddengys fod ymchwil Ofcom i gynulleidfaoedd yn dangos bod cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi lluosogrwydd cyflenwad PSB.  Dywed Ofcom, yn ei ymchwil cydgynghorol, y mynegodd fwyafrif eu bod yn barod i dalu mwy i gynnal lluosogrwydd.  Fodd bynnag, mae'n amlwg o atodiad yr ymchwil mai mwyafrif tenau oedd hyn:  byddem yn awgrymu y gallai fod angen lefel fwy argyhoeddedig o gymorth i gyfiawnhau ymyriad pellach trwy gyllid cyhoeddus ychwanegol.  Mae ymchwil meintiol y BBC (gweler yn ddiweddarach) yn cefnogi'r farn fod cynulleidfaoedd yn amharod i dalu mwy am luosogrwydd ac yn

dangos bod barn cynulleidfa am luosogrwydd a'i fanteision posibl mewn gwirionedd yn fwy cymhleth nag y gellir ei dybio.

Ymddengys hefyd fod rhai o gwestiynau Ofcom yn yr ymchwil yn anwybyddu rhai o'r agweddau mwy cymhleth ond pwysig ar luosogrwydd. Er enghraifft, cymerwyd tystiolaeth i gefnogi lluosogrwydd o'r atebion i'r cwestiwn 'pa mor bwysig, os o gwbl, yw dangos [math o raglen] ar fwy nag un o'r prif sianeli teledu yn eich barn chi?' Felly, gallai lluosogrwydd yn yr ystyr hon gynnwys rôl sianeli BBC eraill, er enghraifft, yn enwedig BBC Two. Gofynnwyd i'r gynulleidfa ddweud faint oeddent yn cytuno â'r datganiad bod y sianeli yn darparu 'ystod eang o raglenni plant ansawdd uchel, wedi'u creu yn y DU' – ac mae'n aneglur o'r ymateb pa ran o'r datganiad (ystod, ansawdd neu wedi'u creu yn y DU) y maent yn cytuno ag ef.

## 5.3 Lluosogrwydd sefydliadol

Credwn nad yw Ofcom yn rhoi digon o amlygrwydd i rôl hanfodol lluosogrwydd sefydliadol yn llwyddiant yr ecoleg PSB gyfredol. Mae'n hanfodol deall y ffordd y mae'r cydbwysedd o sefydliadau sy'n gyfrifol am gyflwyno PSB wedi gweithio yn y gorffennol, a beth allai dynameg ymyriad cyhoeddus fod yn y dyfodol. Os yw Ofcom am ddechrau llunio mecanweithiau newydd ar gyfer ymyriad, rhaid iddo ystyried nid yn unig y ffynonellau cyllid, ond natur a chymhellion y gwahanol sefydliadau cyhoeddus a phreifat sy'n gysylltiedig.

Roedd lluosogrwydd sefydliadol mewn PSB yn sicrhau yn wreiddiol bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cystadlu am gynulleidfaoedd ond nid am refeniw. I gyflawni hyn, crëwyd gwe gymhleth o strwythurau perchnogaeth a chyllid gwahanol. Datblygodd y system hon dros gyfnod, yn fwyaf nodedig gyda'r penderfyniad i greu dalwyr trwydded sy'n sefyll ar eu pen eu hunain yn Neddf 1990 a'r penderfyniad i ganiatáu i Channel 4 werthu ei amser ei hun ar yr awyr. Fodd bynnag, er bod y newidiadau hyn mewn rhai ffyrdd yn rhagweld y farchnad ddarlledu gynyddol gystadleuol, ni wnaeth y naill na'r llall ohonynt newid strwythur sylfaenol y farchnad a oedd yn parhau i gwmpasu tri math eang o gyflwyno:

- Sefydliadau nid er elw, a ariennir yn gyhoeddus (e.e. y BBC)
- Sefydliadau nid er elw, a ariennir yn fasnachol (e.e. Channel 4)
- Sefydliadau a ariennir yn fasnachol, sy'n canolbwyntio ar y cyfranddalwyr (e.e. ITV, Five)

Roedd pob math o sefydliad yn dod ag ymagweddau, cymhellion a safbwyntiau gwahanol ar gyfer cyflwyno PSB y gellir eu holrhain yn ôl i'w natur sefydliadol, eu strwythur, eu cylch gwaith a'u cyllid.

Gellir dadlau mai nodwedd unigol bwysicaf y sefydliadau darlledu hyn yw'r ffaith y rhoddwyd cwmpas a chylch gwaith eang iawn iddynt, ac o ganlyniad, trwythwyd cyflwyno gwasanaeth cyhoeddus yn eu hymagwedd at ddarlledu. Gallai ymyriad rheoleiddio fod wedi ffurfioli rhai o'r gofynion mwy penodol – e.e. lefelau rhaglenni gwreiddiol, neu gynhyrchu ledled y DU – ond roedd hyn mewn athroniaeth gyffrednol lle'r oedd llawer o nodweddion yr hyn yr ydym bellach yn ei alw'n PSB yn rhan o strwythur sylfaenol gweithrediadau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol – er enghraifft, canolfannau rhanbarthol

ITV ac ymrwymiad eang i raglenni o'r DU trwy ei fusnesau cynhyrchu ei hun. Atgyfnerthwyd hyn gan y dirwedd ddarlledu yn y DU sy'n cael ei rheoleiddio'n agos ac y mae'r cyhoedd i raddau helaeth yn berchen arni, a oedd yn annog darlledwyr i gystadlu yn unol â hyn.

Y broses hon o greu darlledwyr o faint gyda gwahanol fathau o gynnyrch mewn amserlen gymysg oedd craidd y system PSB. Roedd cymysgedd pob darparwr o gynnyrch yn adlewyrchu eu blaenoriaethau eu hunain cymaint â'u rhwymedigaethau a osodwyd yn allanol. Yn y cyd-destun hwn heddiw, er enghraifft, y mae Channel 4 yn gwneud ei gyfraniad arbennig at faterion cyfoes, comedi a drama wrth iddo gyflwyno PSB mewn ffordd sy'n gytûn â'i amcanion sefydliadol. O ganlyniad, mae llawer o'r hyn sy'n cael ei ystyried yn fras yn gynnyrch gwasanaeth cyhoeddus yn gwneud synnwyr masnachol i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, o leiaf yn rhannol, ac adlewyrchir hyn yn y cydbwysedd o gwotâu sy'n bodoli tuag at agweddau llai masnachol ar ddarpariaeth (e.e. newyddion rhanbarthol neu faterion cyfoes) tra bo'r bygythiad i genres eraill, fel newyddion rhwydwaith, yn fach.

Gallai'r manteision hyn gael eu tanseilio gan y symud tuag at gyllid penodol. Mae'r gost am PSB eang ei sylfaen i gynyddu neu wella ei gynhyrchu presennol yn debygol o fod yn ymylol; gallai'r gost i ddarparwr newydd sefydlu cyflwyno PSB mewn un ardal yn unig fod yn fwy a chael llai o effaith. Byddai hefyd yn amhosibl i lawer o ddarparwyr gyflwyno llawer o'r cynnwys ansawdd uchel, eang, a ddangosir gan ITV, Channel 4 a Five.

Yn ychwanegol, mae dwy risg bwysig arall y dylai Ofcom eu nodi cyn penderfynu ar unrhyw newid i'r strwythur. Bydd angen i unrhyw ymyriad brofi ei fod yn gallu lliniaru'r naill a'r llall o'r risgiau hyn yn llwyddiannus.

### 5.3.1 Arloesedd

Mae 'arloesol' yn un o nodweddion Ofcom ac mae ymchwil Ofcom a'r BBC yn dangos bod cynulleidfaoedd yn ei werthfawrogi'n fawr. Un o fanteision y system hon fu'r cyfle ar gyfer arloesedd yn y bwlch *rhwng* genres, e.e. trwy ddatblygu dramâu dogfen neu mewn cyfres fel *The Apprentice* neu *Dragons' Den*. Mae Ofcom wedi cydnabod cyfyngiadau disgrifiadau a thargedau genre penodol erioed. Yn wir, dyma oedd un o'r rhesymau pam newidiwyd y fframwaith rheoleiddio yn Neddf Cyfathrebu 2003, i roi mwy o ryddid creadigol a golygyddol i ddarlledwyr arbrofi y tu allan i ofynion cwota ac archwilio ffyrdd ar draws y genres o gyrraedd cynulleidfaoedd gyda chynnwys gwasanaeth cyhoeddus.

Atgyfnerthwyd hyn i bob pwrpas gan benderfyniad Ofcom ei hun, yn ei Adolygiad PSB cyntaf, i nodi nifer o **ddibenion a nodweddion** ar gyfer PSB, i ategu'r rhestr o genres rhaglenni a amlinellir yn y Ddeddf. Gwnaeth hynny'n eglur i gydnabod y realiti bod PSB creadigol yn gweithredu y tu hwnt i genres i gyflwyno canlyniadau gwasanaeth cyhoeddus, a bod cyfyngu'r trafodaethau am PSB i genres rhaglen gyfystyr ag anwybyddu o ble mae ei arloesedd go iawn wedi dod.

Trwy'r mecanweithiau hyn, mae byrdwn creu polisïau yn ystod y pum mlynedd diwethaf wedi bod yn wahanol i ddiffiniad cyfyng o PSB wedi'i ddiffinio yn ôl genres, tuag at ddiffiniad sy'n cael ei yrru i raddau helaeth gan arloesedd creadigol ac ar draws genres. Ymddengys bod hyn wedi cael ei wrthdroi yng

nghyfnod cyntaf ail adolygiad PSB Ofcom, i'r graddau bod Ofcom yn anelu at sicrhau bod genres penodol yn cael eu darparu gan ddarparwyr lluosog.

### 5.3.2 Hyblygrwydd

I'r graddau y mae'n edrych ar fodelau sefydliadol, mae Ofcom yn awgrymu lle ceir rhwymedigaethau rhaglen penodol a diffiniedig, y gellid cael gwared ar y rhain a'u gwneud yn destun contract penodol ar gyfer eu cyflwyno gan drydydd parti. Mae angen ystyried y model cytundebol ar gyfer anghenion darlledu yn ofalus (gweler adran 6), ond gallai atomeiddio darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn flociau arwahanol a chytundebol amharu ar union ronyn yr hyn mae'r system wedi'i chynllunio i'w gyflwyno. Yn hytrach nag ymateb i'r rhaglen mewn modd hyblyg, gallai, mewn gwirionedd, fod yn llawer llai hyblyg na'r hyn y mae'n ei ddisodli.

Mae risg cynhenid hefyd yn natur y cyllid cyhoeddus ei hun, yn enwedig pan gaiff ei ddefnyddio ar gyfer darlledwyr presennol. Os defnyddir cyllid cyhoeddus i ariannu lluosogrwydd cyflenwad – h.y. y tu hwnt i'r hyn y byddai'r BBC fel arall yn ei ddarparu mewn genre penodol – yna, rhaid sicrhau'r cyllid i gyflawni'r nod penodol hwnnw. Fel y nodwyd uchod, mae hyn eisoes mewn perygl o leihau, yn hytrach na gwella'r cyfleoedd ar gyfer arloesedd a risg, gan ei fod yn cyfyngu'r cwmpas ar gyfer defnyddio'r cyllid i ddatblygu ymagweddau ar draws genres – yn aml y tir mwyaf ffrwythlon ar gyfer arloesedd. Rhaid rhoi ystyriaeth hefyd i effaith cyllid cyhoeddus ar weddill cynnyrch y darlledwr hwnnw, a goblygiadau model cymysg.

## 5.4 Pwyntiau pwysau yn y dyfodol

Nid yw'r dadansoddiad uchod yn tanseilio gwerthoedd ansawdd na chystadleuaeth, amrywiaeth ac ystod, na chyrhaeddiad ac effaith, mewn unrhyw ffordd. Yn wir, mae'n seiliedig ar gytundeb sylfaenol gydag Ofcom fod y rhain yn fanteision y mae'n rhaid i'r system ddarlledu eu sicrhau. Credwn fod llawer o'r manteision hyn yn cael eu cyflwyno gan y farchnad heddiw, a bod yr angen i ymyrryd i sicrhau lluosogrwydd o ran darpariaeth PSB yn is nag y mae mewn byd caeedig, pum sianel.

Fodd bynnag, mae ein dadansoddiad ein hunain yn awgrymu bod heriau i'r system yn y dyfodol agos ac rydym yn cytuno bod rhai meysydd rhaglen lle nad yw cynulleidfaoedd yn cael eu gwasanaethu ddigon, neu ble mae perygl o ddiffyg cyflenwad yn y dyfodol. Rydym yn cytuno ag Ofcom bod angen atebion ar y meysydd hyn a fydd yn gyson â chynnal a chryfhau darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus.


### 5.4.1 Rhaglenni ar gyfer plant hŷn

Mae'n gynyddol amlwg bod y cyflenwad cyfredol o raglenni ar gyfer plant hŷn yn annigonol: dyma gynulleidfa nad yw ar y cyfan yn cael ei gwasanaethu'n dda gyda rhaglenni wedi'u hanelu'n benodol ati. Mae darlledwyr wedi canfod ei bod yn fwyfwy anodd targedu'r gynulleidfa hon gyda chynnyrch wedi'i dargedu: mae'n cynnwys pobl ifanc sy'n amharod i'w hystyried eu hunain yn blant, sy'n awyddus i archwilio ystod ehangach o raglenni. Mae'r ffaith fod cymaint o ddeunydd aml-sianel apelgar a safonol ar

gael i'r gynulleidfa hon, yn enwedig comedi â sgriptiau Americanaidd, ynghyd â chost drama wreiddiol a'r anhawster wrth bennu gwerth y gynulleidfa hon ar gyfer sianeli masnachol, wedi arwain at dynnu nôl yn gyson o raglenni wedi'u hanelu at blant 10 – 15 oed.

Rydym yn croesawu'r ffocws y mae Ofcom wedi'i roi i'r mater hwn. Fodd bynnag, mae'n bwysig gyntaf i gydnabod bod y broblem yn ymwneud yn fwy â diffyg cyflenwad yn hytrach na diffyg lluosogrwydd. O ran diffiniad, os yw'r broblem yn ymwneud â diffyg cyflenwad mewn maes penodol, yna dylai'r BBC, fel yr un sy'n derbyn cyllid cyhoeddus ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus, fyfyrio ynghylch a fyddai'n gallu llenwi'r bwlch hwn, ac os felly, sut. Er enghraifft, mae ymchwil y BBC yn awgrymu pan fydd cynulleidfaoedd yn cael y dewis i'r BBC yn gwario mwy ar raglenni plant yng ngoleuni gostyngiadau ar ITV, Channel 4 a Five, roedd bron i ddwywaith cymaint o rieni yn cytuno y byddent yn fodlon â'r dewis hwn nag a oedd yn anghytuno:

*I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol? (rhieni plant o dan 16 oed)*




*Ffynhonnell: YouGov; sylfaen = 5,097; data wedi'i bwysoli â'r holl oedolion; 'Ddim yn cytuno nac yn anghytuno' 31%, DK 3%*

(Text for above chart)

I would be satisfied… - Byddwn yn fodlon i ITV1, Channel 4 a Five ddangos llai o raglenni plant wedi'u creu yn y DU ar yr amod bod y BBC yn gwario mwy ar raglenni plant sy'n cael eu creu yn y DU.

Strongly agree / agree – Cytuno'n gryf / cytuno

Strongly disagree / disagree – Anghytuno'n gryf / anghytuno

Nid yw hyn yn golygu na ddylai darlledwyr eraill asesu a fyddent mewn sefyllfa dda i gyflwyno mwy o raglenni wedi'u targedu i'r grŵp oedran hwn – yn enwedig os gallan nhw hefyd, gyflawni cyrhaeddiad ac effaith. Rydym wedi cynnal dadansoddiad pellach yn y maes hwn – gweler adran 7.

### 5.4.2 Newyddion ar gyfer y Gwledydd a'r Rhanbarthau

Y maes arall lle mae perygl o ddiffyg cyflenwad yw mewn gwasanaethau newyddion sydd wedi'u hanelu at y Gwledydd datganoledig. Mae hwn yn faes sy'n cael ei wasanaethu gan y BBC ac ITV ar hyn o bryd, ond y bydd y sianel fasnachol yn cael trafferth ei gynnal. Fodd bynnag, mae amrywiaeth o gyflenwyr newyddion cyhoeddus diduedd ac annibynnol yn ddull diogelu democrataidd pwysig, a chanfu ein hymchwil cynulleidfa fod gwylwyr yn y Gwledydd yn awyddus y dylai fod llais arall ar gyfer y BBC yn y dyfodol.

Mae bodolaeth barhaus newyddion rhanbarthol masnachol yn ei ffurf gyfredol yn fwy agored i drafodaeth. Mae ITV wedi'i gwneud yn glir ei fod yn disgwyl parhau i wneud newyddion rhanbarthol am weddill tymor ei drwydded, er mewn ffurf newydd. Mae dadansoddiad Ofcom ei hun yn *New News, Future News* yn cydnabod bod newyddion rhanbarthol, mewn llawer o ffyrdd, yn adlewyrchu hen batrymau darlledu yn hytrach na'i fod yn adlewyrchiad go iawn o gynllunio golygyddol cydlynus.

Rydym yn cydnabod y bydd angen i Ofcom gael cydbwysedd rhwng sicrhau gwasanaeth rhanbarthol parhaus gan ITV, er y bydd yn eithaf gwahanol i nawr (ac felly'n gynyddol wahanol i wasanaeth y BBC) a'r cyfle i ddod o hyd i ffyrdd newydd o gyflwyno newyddion i ardaloedd a rhanbarthau. Rydym yn awgrymu rhai ffyrdd o archwilio'r maes hwn yn adran 7.

Yn olaf, mae'r BBC yn cefnogi gwerth cyflenwad lluosog ar gyfer cynulleidfaoedd: mae cynyddu'r dewis i wylwyr yn hanfodol ar gyfer marchnad deledu sy'n ffynnu. Ond mae dadansoddi'r broblem yn gywir yn hanfodol os yw Ofcom am lunio'r ateb cywir, ac nid yw'n glir mai methu sicrhau cyflenwad lluosog gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ynddo'i hun yw'r her unigol fwyaf arwyddocaol yn y dyfodol. Er ei bod yn sicr yn wir bod y system bresennol yn annhebygol o allu cynnal yr un lefelau o ymrwymiad i raglenni PSB, mae'n llai clir bod ymyriad strwythurol sylweddol i gyflawni lluosogrwydd naill ai'n angenrheidiol nac yn fanteisiol.

# 6 Ymagweddau a chyllid yn y dyfodol

Yn ei ddogfen ymgynghori, mae Ofcom yn rhagweld y bydd cyfanswm cyllid PSB masnachol wedi gostwng rhyw £335m rhwng 2003 a 2013 - bwlch sy'n seiliedig ar ddadansoddiad o werth gostyngol breintiau PSB. Mae Ofcom yn argymell y dylid dod o hyd i ffynonellau cyllid newydd i lenwi'r bwlch cyllid a sicrhau manteision lluosogrwydd.

Er mwyn dod â hyblygrwydd i'r system, mae Ofcom yn amlinellu pedwar model posibl ar gyfer darpariaeth PSB, sy'n amrywio o'r BBC ar ei ben ei hun i gymysgedd eang o gontractau cystadlu. Mae hefyd yn amlinellu cyfres o brofion ar gyfer unrhyw fodel, sy'n cwmpasu cyrhaeddiad ac effaith, lluosogrwydd, hyblygrwydd, llywodraethu, cyflenwoldeb â'r farchnad, dosbarthu a chynaliadwyedd.

Yn yr adran hon, rydym yn asesu'r mecanweithiau PSB amrywiol a'r ffynonellau cyllid sydd ar gael, gan gynnwys modelau a awgrymwyd gan Ofcom. Mae ein dadansoddiad yn awgrymu:

- Y gall sefydliadau cyhoeddus, os ydynt yn atebol ac wedi'u cynllunio'n gywir, ddarparu'r ffordd orau o gyflawni amcanion PSB sy'n cael eu gwerthfawrogi gan gynulleidfaoedd
- Mai cymysgedd o ymagweddau sefydliadol, sy'n gweithio gyda llif pob sefydliad, sydd fwyaf tebygol o gyflawni manteision PSB a lliniaru unrhyw risgiau
- Y gallai contractau fod â rhywfaint o rôl gyfyngedig os gellir nodi canlyniadau PSB yn briodol yn y contract ac wedyn eu monitro, ond mae'n anodd gweld lle dylai hyn ddigwydd yn y tymor byr i'r tymor canolig
- Na ddylid gwahanu'r drafodaeth am fodelau PSB oddi wrth y drafodaeth am ffynonellau cyllid. Ni fyddai unrhyw bwynt dewis model ffafriol, dim ond i ganfod mai'r ffordd o dalu amdano fyddai'r dull cyllid lleiaf ffafriol
- Dylid profi'r angen am gyllid ychwanegol ymhellach. Nid yw unrhyw ddewis cyllid yn ddelfrydol, er ei bod yn ymddangos mai defnyddio asedau rheoleiddio sy'n cynnig y potensial mwyaf. Mae llawer o anfanteision sylweddol yn dod yn sgil cymryd y gyfran uchaf o ffi'r drwydded
- Mae gwerth am arian yn faen prawf hanfodol. Nid yw meini prawf Ofcom ar gyfer modelau PSB newydd yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at effeithlonrwydd na gwerth am arian.

Nid ydym yn cytuno ag Ofcom mai'r man cychwyn yw 'y dylid dod o hyd i gyllid newydd yn lle'r cymhorthdal ymhlyg cyfredol sy'n dirywio'. Nid yw cyfanswm y cymhorthdal cyfredol nad yw'n arian parod wedi'i gysylltu'n uniongyrchol ag angen y gynulleidfa, mecanweithiau cyflwyno priodol na pharodrwydd y cyhoedd i dalu. Yng ngoleuni'r dadansoddiad a amlinellir yn yr adran flaenorol, mae'r BBC yn credu ei bod yn fwy priodol trafod y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon o gyflwyno canlyniadau PSB, ac wedyn, yng ngoleuni'r dadansoddiad hwnnw, archwilio'r cyllid a'r dulliau cyllid angenrheidiol sydd eu hangen i gyflawni'r canlyniadau dymunol.

## 6.1 Dylunio model newydd

Mae Ofcom yn amlinellu ystod o ofynion a phrofion ar gyfer unrhyw fodel PSB yn y dyfodol: cyrhaeddiad ac effaith, lluosogrwydd, hyblygrwydd, llywodraethu, cyflenwoldeb â'r farchnad, dosbarthu a chynaliadwyedd. Mae'r BBC yn credu bod llawer o'r rhain yn brofion priodol ond y dylai Ofcom ystyried rhai meini prawf ychwanegol a allai fod hyd yn oed yn bwysicach. Mae'r tabl canlynol yn amlinellu sylwadau'r BBC ar feini prawf Ofcom ac yn awgrymu dau sylw ychwanegol.

| **Gofynion model yn y dyfodol** | | |
|---|---|---|
| Maen Prawf Ofcom | Prawf Ofcom | Sylw'r BBC |
| Cyrhaeddiad ac Effaith | A yw darparwyr yn cael eu cymell i gyflwyno cynnwys gwasanaeth cyhoeddus sy'n cyflawni cyrhaeddiad ac effaith? | • Mae cyrhaeddiad ac effaith yn un o'r profion pwysicaf ar gyfer unrhyw fodel newydd<br>• Fodd bynnag, nid yw'r prawf allweddol yn ymwneud â ph'un a yw darparwyr yn cael eu cymell yn briodol, ond p'un a oes gan y dull / model a ddewiswyd unrhyw gyfle o gyflawni cyrhaeddiad ac effaith<br>• Ni fydd cymhellion yn ddigonol os nad yw'r model wedi'i brofi, ar raddfa fach neu'n annhebygol o gyrraedd nifer sylweddol o wylwyr |
| Lluosogrwydd | A yw cystadleuaeth rhwng darparwyr yn cyflawni manteision lluosogrwydd? | • Nid ydym yn cefnogi cynnwys y prawf hwn: dylid ystyried lluosogrwydd darpariaeth PSB nid fel diwedd ynddo'i hun ond fel ffordd o gyflawni<br>• Dylai felly fod yn un o ystod o arfau ac ymagweddau i helpu cyflawni amcan cyffredinol Ofcom i 'gynnal a chryfhau ansawdd PSB', nid amcan |
| Hyblygrwydd | A yw'r model yn ddigon hyblyg i ymateb i anghenion y gynulleidfa a'r farchnad? | • Credwn fod hyblygrwydd yn amcan pwysig<br>• Fodd bynnag, rydym yn cwestiynu'r cyswllt rhwng hyblygrwydd a chontractau trosglwyddadwy tymor hir. Mae contractau o bosibl yn llai hyblyg dros gyfnod (oni bai bod y tendr ar eu cyfer am gyfnodau cymharol fyr) na darpariaeth PSB trwy sefydliad sy'n cael ei lywodraethu'n effeithiol gyda chylch gwaith PSB eang<br>• Er enghraifft, mae wedi bod yn haws i Channel 4 ddatblygu ei ddull o gyflwyno deunydd dysgu dros lwyfannau newydd na Teachers TV, yr oedd ei gontract gwreiddiol wedi nodi cyflwyno llinol |
| Llywodraethu | A oes gan ddarparwyr gylchoedd gwaith clir, annibyniaeth, trefniadau atebolrwydd eglur a chymhellion sy'n | • Rydym yn cytuno bod hwn yn brawf pwysig ar gyfer unrhyw fodel newydd<br>• Fodd bynnag, bydd yn bwysig deall y berthynas ddwy ffordd rhwng llywodraethu / atebolrwydd a gosod strategaeth / cylch gwaith – nid yw'r ddau yn rhanadwy<br>• Bydd unrhyw fframwaith llywodraethu yn effeithio'n |

| | | |
|---|---|---|
| | cyd-fynd â dibenion cyhoeddus? | uniongyrchol ar gymhellion a diwylliant sefydliadol y darparwr dan sylw. Er enghraifft, yn sgil gosod fframwaith math BBC ar Channel 4, mae perygl difrifol y bydd yr union nodweddion sefydliadol sy'n cael eu gwerthfawrogi fwyaf gan gynulleidfaoedd yn cael eu tanseilio |
| Cyflenwoldeb | A yw'n ategu, nid yn ceisio atal darpariaeth y farchnad? | • Cytunwn fod ategu darpariaeth y farchnad yn faen prawf pwysig |
| Dosbarthu | A yw'n croesawu'r llwyfannau, y ffurfiau cynnwys a'r gwasanaethau sy'n bodloni anghenion cynulleidfa yn y ffordd fwyaf effeithiol? | • Rydym yn cefnogi'r maen prawf hwn, er ei bod yn ymwneud yn agos â chyrhaeddiad ac effaith ac y gellir eu cyfuno<br>• Rydym yn cytuno ei bod yn debygol mai defnyddio cymysgedd o lwyfannau, mentrau cynnwys ar draws y cyfryngau a gweithgaredd marchnata a thraws hyrwyddo arloesol fydd yn rhoi'r cyfle gorau i PSB lwyddo yn y byd digidol |
| Cynaliadwyedd | A yw darparwyr yn ariannu modelau yn gynaliadwy? | • Rydym yn cefnogi'r maen prawf hwn, ond byddem yn nodi nad yw hyn yn awtomatig yr un fath â chyllid cyhoeddus uniongyrchol. Bydd cymorthdaliadau a thraws-gymorthdaliadau yn parhau i fod yn ffyrdd pwysig o ariannu PSB yn y dyfodol. Yn ychwanegol, dylai Ofcom gydnabod y bydd yr angen am PSB ochr yn ochr â'r BBC ynddo'i hun yn newid ymhellach dros gyfnod. |

| Maen prawf ychwanegol y BBC | Prawf y BBC | Sylw'r BBC |
|---|---|---|
| Gwerth am arian | A yw'r ateb arfaethedig yn cynrychioli gwerth da i'r cyhoedd? | • Mae hwn yn faen prawf allweddol ar gyfer unrhyw ymyriad cyhoeddus a rhaid i'w rôl fod yn allweddol wrth ddylunio unrhyw fodel yn y dyfodol. Byddai'r cwestiynau allweddol yn cynnwys:<br>  • A yw'r cyllid cyhoeddus yn cael ei wario'n dda?<br>  • A yw'r cyllid yn cael ei golli'n ddiangen trwy gostau gweinyddol neu drafodion?<br>  • A yw'r cyllid yn cael ei wastraffu trwy effeithiau amnewid, gyda derbynwyr yn cymryd y cyfle i leihau eu cyllid cyfredol eu hunain?<br>  • A yw'r arian yn cael ei wario ar ymyriadau nad ydynt wedi'u profi, sy'n beryglus neu sydd ag ychydig o obaith o gyflawni cyrhaeddiad ac effaith? |
| Derbynioldeb cynulleidfa | A yw'r ateb arfaethedig yn galw am gefnogaeth cynulleidfa? | • Fel y dangoswyd yn ymchwil Ofcom a'r BBC, mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael cefnogaeth gref gan y cyhoedd<br>• Bydd angen i unrhyw ateb neu fodel newydd ddangos ei fod yn cael cefnogaeth gan y cyhoedd ac nad yw'n tanseilio rhannau eraill o'r system sy'n parhau i gael cefnogaeth heddiw. |

Yn gryno, mae'r BBC yn credu mai dyma ddylai'r meini prawf fod ar gyfer dewis rhwng ymagweddau:

- *Effeithiolrwydd:* a all yr ymyriad weithio? – e.e. trwy gyfateb amcanion sefydliad â nodau cyhoeddus neu drwy ddefnyddio contractau penodol iawn
- *Cyrhaeddiad ac Effaith:* a yw'r ymyriad yn gallu sicrhau bod y cynnwys yn cyrraedd ei gynulleidfa darged? – e.e. osgoi peryglon ymrannu neu'r diffyg cefnogaeth o ran hyrwyddo os yw PSB am wasgaru ymhlith gormod o ddarparwyr. A yw'n defnyddio'r cyfuniad mwyaf effeithiol o lwyfannau a'r cyfryngau?
- *Cynaliadwyedd:* a ellir dibynnu ar yr ymyriad i gynnal lefel briodol o gefnogaeth dros nifer o flynyddoedd, mewn cyfnod o newid mawr?
- *Hyblygrwydd:* a ellir addasu'r ymagwedd wrth i amodau'r farchnad neu anghenion cynulleidfa newid?
- *Cyflenwoldeb:* a yw'r model yn ategu darpariaeth yn rhywle arall neu yn ei ailadrodd yn unig?
- *Llywodraethu:* a oes lefelau priodol o lywodraethu ac atebolrwydd ar waith, ac a yw'r model PSB yn ystyried effaith llywodraethu ar gymhellion ac ymagweddau sefydliadol?
- *Derbynioldeb cynulleidfa:* a yw'n galw am gefnogaeth y gynulleidfa?
- *Gwerth am arian:* a yw cyllid cyhoeddus yn cael ei wario'n dda?

## 6.2 Cyflwyno PSB effeithiol

Mae'r dewis eang wrth gynllunio ymagwedd ar gyfer PSB rhwng:

- Contractau â chyflenwyr masnachol, fel Teachers TV, i gyflawni rhwymedigaethau PSB penodol
- Sefydliadau, fel y BBC, sy'n cael eu sefydlu'n benodol i gyflwyno PSB (yn nodweddiadol gyda mynediad at gyllid cyhoeddus neu gefnogaeth gyhoeddus arall).

Mae'r pedwar model a awgrymwyd gan Ofcom ar gyfer PSB yn ymgorffori amrywiaeth o gyfuniadau o'r ddwy ymagwedd eang hon. Mae'n werth archwilio manteision ac anfanteision contractau a sefydliadau fel ei gilydd, cyn symud ymlaen i edrych ar bedwar model Ofcom yn fanwl.

### 6.2.1 Contractau trosglwyddadwy

Gall rôl cystadleugarwch fod yn werthfawr wrth ddyrannu cyllid cyhoeddus yn gyffredinol, yn benodol i:

- Helpu cael y ddêl orau (dyrannu adnoddau yn effeithlon)
- Sicrhau bod y syniadau gorau yn cael eu dewis (Dawn greadigol ac arloesedd)

Mae graddau uchel o gystadleugarwch eisoes yn y gadwyn gwerth PSB:

- Ar gyfer comisiynau rhaglenni unigol – er enghraifft, yn 2007, gwnaeth cynhyrchwyr annibynnol tua 40% o gynnyrch teledu rhwydwaith cymwys y BBC, gan gynnwys hanner o'r holl oriau darlledu mewn rhaglenni plant a 58% mewn comedi
- Ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu contractio yn allanol, fel darlledu – mae gwasanaethau darlledu'r BBC wedi cael eu darparu ar sylfaen contract y mae modd cystadlu amdano, ers sawl blwyddyn
- Ar gyfer cymeradwyaeth cynulleidfa – trwy gystadlu trwy raglenni arloesol ac ansawdd uchel.

Fodd bynnag, nid yw cystadleugarwch wrth gyflwyno gwasanaethau PSB wedi cael ei weithredu'n eang yn y DU.

Contractio am PSB yn ymarferol

Mae contractau (yn eu hystyr ehangach) ar gyfer cyflwyno PSB wedi bod mewn amrywiaeth o ffurfiau yn y sector darlledu rhyngwladol, gan gynnwys:

- Ar gyfer rhaglenni unigol sy'n cael eu cynnwys yn amserlenni darlledwyr masnachol (e.e. NZ On Air)
- Ar gyfer strandiau o raglenni (e.e. adran y plant ar sianel benodol) neu ar gyfer gwasanaethau cyflawn (e.e. Teachers TV)
- Rhwng darlledwyr a chynhyrchwyr (e.e. ar gyfer cynhyrchu rhaglenni PSB yn annibynnol).

Mae contractio am raglenni unigol trwy gyllid y gellir cystadlu amdano wedi bod ar waith yn Seland Newydd (trwy NZ On Air) er 1988. Er bod yr ymagwedd wedi arwain at rywfaint o lwyddiant wrth gefnogi cynnwys a gynhyrchir yn lleol, mae wedi dioddef yn sgil y ffaith ei bod yn dibynnu ar ddarlledwyr sydd â gogwydd masnachol yn mynd yn borthorion, a allai fod wedi arwain at ffocws ar raglenni ag apêl fwy poblogaidd a llai o her i gynulleidfaoedd. Nid yw yn glir ychwaith p'un a oedd y cyllid yn gynyddol neu a oedd yn syml yn disodli gwariant masnachol. Fel y dywedodd Ofcom, "Mae'r system yn annog y darlledwyr i 'chwarae gemau', ac maent yn anelu at gael cyllid cyhoeddus, hyd yn oed ar gyfer rhaglenni na fyddent wedi'u creu beth bynnag." Roedd sawl problem sefydliadol arall yn amlwg gyda'r model NZ On Air ac fe'u cydnabuwyd gan Ofcom[19].

Mae profiad Seland Newydd yn dangos, ar yr amod bod amcanion yr ymyriad yn gymharol syml i'w nodi[20] (e.e. y lleoliad ble dylai'r cynnwys gael ei gynhyrchu), yna gall cyllid y gellir cystadlu amdano trwy'r farchnad lwyddo. Fodd bynnag, pan fydd amcanion yr ymyriad yn mynd yn fwy cymhleth – fel cyflwyno rhaglenni PSB ansawdd uchel – yna mae cyllid y gellir cystadlu amdano yn llai llwyddiannus. Am bob un o'r rhesymau hyn, gan ddefnyddio contractau i gyflwyno PSB ar sail rhaglen fesul rhaglen – nid yw'r hyn a elwir yn 'Gyngor Celfyddydau'r Awyr' – wedi cael ei fabwysiadu yn y DU.

Wrth gydnabod pob un o'r materion hyn, mae Ofcom yn cynnig yn ei fodelau 3 a 4 y dylid defnyddio contractau trosglwyddadwy tymor hwy i sicrhau ymyriadau'r farchnad wrth ddarparu PSB. Fodd bynnag, prin y mae'r rhain wedi cael eu defnyddio yn y DU, am nifer o resymau:

---

[19] Adolygiad Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus (2004) "*Cyfnod 2 – Bodloni'r her ddigidol*"

[20] Mayhew & Bradley-Jones (2005) tudalen 165 a McKinsey (2004), *Review of public service broadcasting around the world*

- Mae'r cysyniad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn anodd i'w nodi mewn fframwaith y gellir cytuno arno'n rhwydd, yn enwedig os oes yn rhaid iddo ymdrin â grŵp amrywiol iawn[21]. Cafodd yr anhawster o nodi a chytuno ar natur PSB ei ddangos yn glir gan Adolygiad cyntaf Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, a oedd yn ffafrio sefydlu system o ddibenion a nodweddion, yn hytrach na dibynnu ar ddiffiniadau genre cyfyng. Mae nodi PSB, felly, yn parhau i fod yn fater goddrychol sy'n agored i drafodaeth a dehongliad unigol
- Mae o leiaf dau ganlyniad i'r cymhlethdodau hyn: mae PSB yn anodd i'w nodi mewn contract ac yn anodd i'w fonitro a'i fesur, sy'n gofyn am gontractau hynod gymhleth sy'n debygol o fod yn 'fentrus'. Mae'n amlwg bod rhai o nodweddion darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn haws i'w disgrifio a'u hasesu nag eraill. Os yw contractau yn anodd i'w nodi, maent yn debygol o wynebu oportiwnistiaeth ac yn annhebygol o gyflawni'r ymyriad a ddymunir. Mae anawsterau o ran nodi hefyd yn ei gwneud yn anodd i gyrff goruchwylio fonitro perfformiad, ac o ganlyniad, mae contractau yn anodd i'w gorfodi
- Yn ogystal â'r 'broblem nodi' hon, mae dadansoddiad academaidd[22] yn nodi mater arall sy'n gwneud gorfodi contract yn anodd: mae unrhyw ddangosyddion perfformiad sy'n cael eu defnyddio yn debygol o fod yn amcangyfrifon ar eu gorau. O gofio natur oddrychol y diffiniad o ddibenion a nodweddion ar gyfer PSB, sut ydych chi'n mesur p'un a yw rhaglen yn heriol, yn ennyn diddordeb neu'n arloesol? Mae hwn yn fater hynod berthnasol yng nghyd-destun PSB, lle gall unrhyw asesiad o natur gwasanaeth cyhoeddus y cynnwys – e.e. ei ansawdd[23] – fod yn hynod oddrychol ac yn agored i ystod eang o ddehongliadau. Y perygl yn y pen draw yw mai'r procsïaid ynddynt eu hunain fydd y canlyniadau a ddymunir, gan golli'r naws nad oes ynddynt.

Mae Teachers TV yn enghraifft o'r defnydd a wneir o gontractau ar gyfer cyflwyno gwasanaeth teledu PSB yn y DU. Gellir dadlau bod y gwasanaeth hwn yn cynnwys y nodweddion priodol ar gyfer y math hwn o ymyriad, yn benodol: amcanion cyfyng, wedi'u nodi'n glir gyda chynulleidfa benodol – y gellir ei thargedu'n hawdd. Ymddengys yn annhebygol, fodd bynnag, fod nodweddion tebyg yn berthnasol i gyflwyno PSB i gynulleidfaoedd eang ar draws ystod o ddibenion.

### 6.2.2 Sefydliadau

Mae theori economaidd yn awgrymu, pan fydd anawsterau contract yn codi, y gallai fod manteision wrth fewnoli darpariaeth cynnwys PSB mewn un sefydliad dynodedig neu fwy. Mae Ofcom wedi cydnabod pŵer sefydliadau dynodedig wrth gyflwyno cynnwys PSB: 'gellir cyflawni dibenion cymdeithasol yn haws pan fydd y nodau sefydliadol y mae comisiynwyr a threfnwyr amserlen yn gweithio ynddynt yn cyd-fynd yn agos â dibenion PSB, yn hytrach na'u bod o bosibl yn gwrthdaro â nhw'[24].

Yn ôl ymchwil academaidd, mae sefydliadau yn cynnig sawl mantais i gynhyrchu rhaglenni PSB:

---

21 Gweler, er enghraifft, Gavyn Davies gol., *The Future Funding of the BBC: Report of the Independent Review Panel*, Gorffennaf 1999

22 Gweler, er enghraifft, Hargreaves Heap, *Television in Digital Age*, Economic Policy Rhifyn 20(41), 2005

23 Mae Klein B., Crawford R.G. & Alchian, A.A in *Vertical integration, appropriable rents, and the competitive contracting process* (1978) yn nodi'r anhawster penodol wrth nodi ansawdd cynnyrch mewn contract: 'mae costau nodi'r holl elfennau ansawdd pwysig yn gytundebol yn amrywio'n sylweddol yn ôl y math o ased. Ar gyfer rhai asedau, gallai fod yn hanfodol amhosibl nodi'r holl elfennau ansawdd yn effeithiol ac felly mae integreiddio fertigol yn fwy tebygol.'

24 Ofcom, *Is Television Special?*, 2004

- Gall sefydliadau ddenu pobl sy'n gwerthfawrogi PSB yn gynhenid, e.e. trwy gyfuniad o gyflogau islaw lefel y farchnad â mantais addas mewn nwyddau (fel cyllidebau rhaglen sy'n gymharol fwy)[25]
- Gall hyn annog trosglwyddo sgiliau creadigol annirweddol sydd yn aml dim ond yn gallu cael eu cyfathrebu trwy eu harddangos. Mae ymchwil academaidd yn awgrymu y gallai sefydliadau dynodedig greu cylch rhinweddol o atgyfnerthu mewnol a gwerthoedd ar y cyd, sy'n crynhoi gwybodaeth a phrofiad[26]
- Mae sefydliadau dynodedig sy'n darparu PSB – o bosibl – yn gallu sicrhau eu hannibyniaeth o ymyrraeth wleidyddol yn well:

  *Mae synnwyr y BBC ohono'i hun, ac o'i le yn y byd, yn ei alluogi i ddenu doniau na fyddai efallai yn eu denu fel arall; i alw am ymrwymiadau nad yw darlledwyr eraill efallai'n gallu gofyn amdanynt; ac atgyfnerthu hyder i wrthsefyll heb feirniadaeth.*[27]
- Gall sefydliadau greu lle i arloesi. Mae perygl na fydd sefydliadau sy'n cael eu gyrru'n fasnachol sy'n wynebu pwysau marchnad ariannol yn y tymor byr yn yr un sefyllfa â sefydliad nid er elw neu sefydliad sy'n cael ei ariannu'n gyhoeddus i fabwysiadu prosiectau arloesedd blaengar, a byddant yn hytrach yn dibynnu ar raglenni fformwläig profedig. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod y darlledwyr nid er elw dynodedig yn y DU, yn wahanol i lawer o sefydliadau cyhoeddus eraill, yn gweithredu mewn sector hynod gystadleuol ac arloesol sy'n rhoi cymhellion iddynt arloesi
- Mae sefydliadau dynodedig o bosibl yn cynnig graddfa a all gynorthwyo'r broses o gyflawni dibenion a nodweddion PSB yn llwyddiannus. Mae nifer o resymau pam y mae graddfa a chwmpas sefydliad PSB dynodedig yn ei gwneud yn fwy effeithiol wrth gyflawni dibenion PSB:
  - Mae darlledu yn wynebu costau sefydlog uchel a chostau amrywiol cymharol isel – o ran cynhyrchu cynnwys ac o ran dosbarthu cynnwys. Caiff sefydliad PSB dynodedig gyfle i wireddu darbodion maint ac effeithlonrwydd cwmpas sylweddol, e.e. o ledaenu ei gynnwys dros nifer o brosiectau a chyrff
  - Mae graddfa a chwmpas yn cynorthwyo cyrhaeddiad ac effaith, wrth i gynnwys fod ar gael yn ehangach ar amrywiaeth o gyrff a chyfryngau ac mae'n manteisio ar gyfran ddigonol o'r gwylio i ddylanwadu a llywio
  - Mae graddfa yn hwyluso'r broses o greu brand – rhywbeth i ymddiried ynddo – lle gall profiad y gorffennol ddangos unrhyw brofiad penodol da ymlaen llaw. Mae Schlesinger yn awgrymu bod hyn, yn ddadleuol, yn dystiolaeth o effeithiau gwerth ehangach sefydliadau: '*mae cael map economaidd-ddiwylliannol a gydnabyddir yn gyhoeddus o'r math hwn yn llawer ehangach yn ei ystyr na phob sianel yn cyflawni adnabyddiaeth i'w brand. Mae'n awgrymu bod y bensaernïaeth deledu bresennol yn cael ei deall yn dda gan ei bod yn gysylltiedig ag ystod o ddibenion penodol a gwerthoedd cymdeithasol*.' Roedd hyn hefyd yn glir o ymchwil cydgynghorol y BBC, lle mynegodd cynulleidfaoedd y teimlad eu bod yn 'gwybod beth i'w ddisgwyl' oddi wrth bob un o'r sianeli a'r brandiau PSB
  - Mae graddfa yn gwrthbwyso ag ymraniad cynulleidfaoedd ac yn cynnig un lle ar gyfer profiad cenedlaethol. Mae perygl mawr y byddai'r cyfle hwn yn cael ei golli mewn byd lle'r oedd cynnig y BBC yn fwy rhanedig

---

[25] Gweler Hargreaves Heap, op. cit. a *Special report on entertainment industry*, The Economist, 18 Ionawr 2003.

[26] Schlesinger, *Do institutions matter for Public Service Broadcasting?*, 2004

[27] Lipsey, *In Defence of Public Service Broadcasting*, 2002

- o Mae graddfa yn hwyluso cyflyru'r farchnad. Mae sefydliad â graddfa yn fwy tebygol o effeithio ar ddisgwyliadau gwylwyr a'u cyflyru i werthfawrogi cynnwys gyda nodweddion PSB yn fwy. Bydd darlledwyr masnachol (heb unrhyw rwymedigaethau PSB) yn ymateb yn unol â hynny ac yn cynyddu darpariaeth eu cynnwys gyda nodweddion PSB i ddenu gwylwyr a hysbysebwyr. Mae'r raddfa gymharol fawr o sefydliadau sy'n cynhyrchu PSB yn y DU wedi dylanwadu ar werth barnau'r sector teledu yn y DU yn gyffredinol; er enghraifft, trwy lif barhaus o staff rhwng y sefydliadau hynny a darlledwyr eraill[28].

Yn hanesyddol, mae rôl wedi bod mewn darpariaeth PSB ar gyfer sefydliadau hybrid fel ITV a Five - sefydliadau masnachol ond gyda rhwymedigaethau PSB yn cael eu hariannu trwy gymorthdaliadau ymhlyg. I raddau, mae ethos gwasanaeth cyhoeddus y sefydliadau hyn yn treiddio y tu hwnt i'r rhwymedigaethau hyn ac yn deillio'n rhannol o dreftadaeth sefydliadol pob darlledwr. Mae'n effeithio ar lawer o'r ystod ehangach o raglenni a wnânt, sy'n bodloni'r un safonau ansawdd ac arloesedd â sefydliadau PSB dynodedig fel y BBC. Er bod y manteision cymhorthdal traddodiadol nad ydynt yn fanteision arian parod, yn diflannu'n raddol, nid yw'r cymhellion i gyfateb meincnodau a osodwyd gan y BBC a chan ddisgwyliadau cyhoeddus yn diflannu. Mae felly'n parhau i fod yn bosibl cynnal rhwymedigaethau PSB sy'n cyd-fynd â threftadaeth a gwerthoedd brand pob sefydliad. Yn yr un modd, mae strwythur sefydliadol unigryw a ariennir yn fasnachol, nid er elw Channel 4 wedi cyfuno'r elfennau hyn mewn ffordd wahanol ac wedi dod ag ymagweddau newydd ac arloesedd i ddarpariaeth PSB.

Fodd bynnag, mae anfanteision wrth gwrs mewn sefydliadau. Er enghraifft, un mater yw sut i sicrhau bod gan gynhyrchydd PSB dynodedig amcanion PSB ffurfiol, ac yn bwysicach, ei fod yn cadw atynt. Fel y mae Schlesinger yn nodi:

> *Mae risgiau cynhenid ym mhob sefydliad o fynd yn hunanfodlon ac yn fewnblyg, o gredu nad oes ffordd arall o gyflwyno ffyrdd o wneud pethau ac y gellir diystyru beirniadaeth allanol. Yn gryno, er y gall diwylliannau sefydliadol gyflwyno hunaniaeth a magu hyder, gallant hefyd danseilio ac nid ydynt o angenrheidrwydd yn rhinweddol.*[29]

Gellir lliniaru'r risgiau a ddisgrifir gan Schlesinger, gan gynnwys:

- Trwy newid a her fewnol trwy newid uwch reolwyr o bryd i'w gilydd
- Trwy newidiadau strwythurol, fel cyflwyno'r cwota annibynnol ac wedyn y WoCC yn y BBC
- Trwy strwythurau llywodraethu, archwilio allanol a mecanweithiau atebolrwydd[30]
- Trwy gymhellion a blaenoriaethau sefydliadol mewnol, er enghraifft, trwy ail-archwilio ac ailddiffinio dibenion a nodweddion PSB yn rheolaidd. Gellir dadlau bod sefydliadau yn gallu ymateb yn gyflymach i newidiadau wrth ddehongli dibenion a nodweddion PSB na system sy'n seiliedig ar gontractau

---

[28] Mae Schlesinger, op. cit., yn dyfynnu gohebiaeth gyda chyfarwyddwr y Ganolfan Ymchwil ar gyfer Teledu a Rhyngweithgarwch. Yn ôl Schlesinger, mae'r rheiny sydd wedi'u hyfforddi gan y BBC yn rhan arwyddocaol o'r sector gweithwyr ar eu liwt eu hunain ac yn cymryd gwerthoedd gyda nhw.

[29] Schlesinger, op. cit.

[30] Mae'n werth nodi y gallai sefydliad dynodedig sy'n cynhyrchu PSB wneud strwythurau llywodraethu yn fwy effeithlon trwy wasgaru eu cost sydd i raddau helaeth yn sefydlog dros lawer o sefydliadau PSB. Hynny yw, gallai fod yn fwy cost effeithiol rheoleiddio llawer o drafodion mewn un sefydliad yn hytrach na maint tebyg o drafodion ar draws llawer o gyflenwyr yn y farchnad. Mae bod yn gyfarwydd â brand hefyd yn hwyluso ymgysylltu â chynulleidfaoedd sy'n hanfodol i sicrhau atebolrwydd.

- Mae sefydliadau dynodedig sy'n cynhyrchu PSB hefyd yn cael eu cadw ar flaenau eu traed hefyd gan y farchnad y maent yn gweithredu ynddi. Mae'r sefydliadau PSB dynodedig yn y sector teledu heddiw (BBC, Channel 4, S4C) yn wynebu cystadleuaeth uniongyrchol gan ystod o gyflenwyr eraill, gyda graddfa cyllid masnachol bellach yn amlwg yn fwy nag arian cyhoeddus yn y sector darlledu.

Gallai modelau hybrid fel ITV a Five wynebu tensiwn cynyddol rhwng eu hamcanion masnachol a'u nodau a'u gwerthoedd PSB. Mae'r un peth yn wir ar gyfer Channel 4, er ei fod yn cael ei liniaru i raddau gan ei statws nid er elw cyhoeddus. Fodd bynnag, ymddengys o hyd bod ITV a Five yn barod i aros yn y dirwedd PSB. Ni ddylid anwybyddu defnyddio darlledwyr masnachol fel ITV i gyflwyno PSB yn y tymor byr i'r tymor canolig o leiaf. Yn wir, mae gwerth go iawn mewn cynnal ymagweddau sefydliadau a chyllid gwahanol sy'n ychwanegu at y gymysgedd gyfoethog o PSB sydd ar gael yn y DU ac yn darparu meincnodau o ansawdd ac effeithlonrwydd. Mewn llawer o ffyrdd, mae'r syniad hwn o luosogrwydd sefydliadol, y gellir ei ymestyn i gynnwys cwmnïau cwbl breifat, yn fwy arwyddocaol ar gyfer polisi yn y dyfodol nag unrhyw ddadansoddiad o luosogrwydd yn seiliedig ar genre.

### 6.2.3 Dadansoddiad o bedwar model Ofcom

Byddai'r dadansoddiad yn yr adran flaenorol yn dangos, i fodloni'r profion a ddisgrifiwyd yn gynharach, bod yr agweddau pwysicaf ar unrhyw fodel newydd yn cynnwys:

- Ffocws ar gyflwyno sefydliadol ar gyfer unrhyw ddarpariaeth PSB lle mae'r elfennau ohoni a werthfawrogir fwyaf yn rhinweddau nad ydynt mor hawdd i'w diffinio, e.e. arloesol, ansawdd uchel, 'difrifol', 'manwl', 'yn adlewyrchu cymdeithas y DU'
- Ffafriaeth am ystod o sefydliadau PSB sydd â modelau cyllid a llywodraethu gwahanol, ond sy'n gallu darparu meincnodau a ffyn mesur cyffredin.

Yn ychwanegol, gellir ystyried defnydd gofalus o gontractau dadleuol a throsglwyddadwy ar gyfer y meysydd mwy cyfyng hynny y gellir defnyddio dibenion PSB ynddynt, a lle mae cydbwysedd mantais yn gorbwyso manteision profedig cyflwyno sefydliadol.

Gan ddefnyddio'r dadansoddiad hwn, mae'n bosibl gwerthuso pedwar model Ofcom ar gyfer cyflwyno PSB yn y dyfodol a dod i gasgliadau ynglŷn â'u heffaith debygol:


- Mae Model 1 (Esblygiad) yn cynnig yr ystod ehangaf o ymagweddau sefydliadol a hwn fyddai â'r gobaith mwyaf o gyflawni cyrhaeddiad ac effaith sylweddol. Byddai angen cydbwyso rhwymedigaethau PSB yn erbyn manteision gweddilliol PSB, ond wrth bwyso a mesur y dadansoddiad yn y bennod flaenorol, mae hyn yn debygol o fod yn gyflawnadwy os bydd nodau realistig yn cael eu mabwysiadu a blaenoriaethau yn cael eu sefydlu'n glir. Byddai angen egluro rôl Channel 4, yn ei ddibenion, ei gylch gwaith a'i gyllid
- Model 2 (BBC yn unig) fyddai'n achosi'r risg lleiaf o ran gwerth am arian a byddai'n sicrhau mwyafrif y ddarpariaeth PSB gyfredol. Fodd bynnag, byddai'n ymgorffori ystod leiaf yr ymagweddau sefydliadol ac felly, ni fyddai'n cynnwys y math o amrywiaeth ymagwedd sydd wedi nodweddu darpariaeth PSB hyd yn hyn
- Byddai gan Fodel 3 (BBC, Channel 4 a chyllid cystadleuol posibl) y fantais o gadw dau sefydliad PSB ochr yn ochr â sector sy'n gwbl fasnachol. Fodd bynnag, byddai colli ITV a Five o'r teulu PSB yn lleihau lluosogrwydd sefydliadol ac yn peryglu cyrhaeddiad ac effaith. Nid yw'n glir bod llawer o

ddarparwyr a allai – ar sail ddadleuol – gyflenwi'r math o raglenni PSB, cyrhaeddiad ac effaith y mae ITV, yn benodol, wedi'u cyflwyno

- Model 4 (cyllid cystadleuol eang) yw'r lleiaf deniadol o'r holl ddewisiadau. Mae'n lleihau lluosogrwydd sefydliadol yn eithafol ac mae hyd yn oed y BBC gryn dipyn yn llai. Gallai ystod o gontractau cystadleuol ddarparu ystod o ddeunydd PSB, ond mae'n debygol y bydd y cynnyrch hwn yn methu cael cyrhaeddiad ac effaith ac mae'n annhebygol o ddarparu gwerth am arian. Nid yw cystadleugarwch ar y raddfa hon wedi'i phrofi a byddai diffyg derbynioldeb cynulleidfa ynddo.

Fel rhan o ymchwil y BBC i gynulleidfaoedd i gefnogi'r Adolygiad PSB, fe wnaethom ofyn i gynulleidfaoedd am eu barn ar gyflwyno PSB yn barhaus trwy ddarparwyr sefydliadol sydd eisoes yn bod. Roedd cynulleidfaoedd yn awyddus i'r holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol cyfredol barhau i ddarparu cynnyrch PSB – yn enwedig ITV a Channel 4, gydag o leiaf hanner y cynulleidfaoedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y dylent barhau i ddangos rhaglenni PSB:

*I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai pob un o'r darlledwyr hyn barhau i gael eu gorfodi i ddangos rhaglenni gyda nodau gwasanaeth cyhoeddus, ochr yn ochr â'r BBC, yn y dyfodol?*




*Ffynhonnell: Ipsos MORI arolwg meintiol; sylfaen = 4,577*


Fodd bynnag, roedd yr ymchwil hefyd yn dangos bod cynulleidfaoedd yn reddfol yn deall bod gan ddarlledwyr wahanol fecanweithiau ac amcanion cyllid, ac arweiniodd hyn at ddisgwyliadau gwahanol ohonynt. Roedd llawer llai o gefnogaeth i'r syniad y dylid defnyddio arian cyhoeddus i gefnogi ymrwymiadau gwasanaeth cyhoeddus darlledwyr a ariennir yn fasnachol yn y dyfodol. Yn yr ymchwil cydgynghorol:

> *Roedd llawer o gyfranogwyr yn credu y dylai rhaglenni ansawdd uchel allu ennill refeniw hysbysebu digonol, ac fel busnesau masnachol, y dylent sefyll ar eu traed eu hunain. Mynegodd cyfranogwyr bryder am yr hyn yr oeddent yn ei ganfod yn gymhorthdal ar gyfer busnesau masnachol; yn ychwanegol, roedd llawer yn pryderu am orfodi costau ar bobl eraill, hyd yn oed pe bydden nhw eu hunain yn gallu ei fforddio; yn olaf, roedd rhai*

*cyfranogwyr yn gwrthwynebu egwyddor talu mwy ar ben Ffi'r Drwydded a thalu tanysgrifiadau teledu.*[31]

Roedd y barnau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y sgorau cyffredinol isel a roddir i'r syniad o ddefnyddio arian cyhoeddus i ariannu darlledwyr masnachol yn yr arolwg ansoddol, er bod ymatebwyr wedi cael gwybod am y genres y gellir eu lleihau ar ITV1, Channel 4 a Five heb hyn. Roedd dros hanner yr holl gynulleidfaoedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â hyn, er gwaethaf y sgorau llawer uwch a roddir i'w cefnogaeth gyffredinol ar gyfer PSB ar y sianeli hynny:

*I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai pob un o'r darlledwyr hyn gael arian cyhoeddus er mwyn iddynt allu dangos rhaglenni â nodau gwasanaeth cyhoeddus, ochr yn ochr â'r BBC, yn y dyfodol?*




*Ffynhonnell: Ipsos MORI arolwg meintiol; sylfaen = 4,577*

Mae'r amharodrwydd amlwg hwn i ddarparu arian cyhoeddus uniongyrchol i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a ariennir yn fasnachol hefyd yn cael ei adlewyrchu yn yr ymchwil i gynulleidfaoedd o amgylch dulliau cyllid Ofcom y sonnir amdanynt yn yr adran nesaf.

[31] Human Capital, *Public service broadcasting now and in the future - audience attitudes*, Mehefin 2008

## 6.3 Lefel a ffynonellau cyllid

### 6.3.1 Lefel cyllid PSB yn y dyfodol

Yn ei ddadansoddiad o lefel gyffredinol cyllid PSB, mae Ofcom yn canolbwyntio ar y gostyngiad mewn cymorthdaliadau PSB nad ydynt yn gymorthdaliadau arian parod er 2003/4 – y disgwylir iddynt fod yn £335m erbyn 2012. Mae'n argymell felly 'y dylid dod o hyd i gyllid newydd i ddisodli'r cymhorthdal ymhlyg cyfredol sy'n dirywio'[32].

Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad hwn yn codi rhai materion pwysig, yn arbennig:

- Bod y gostyngiad yng ngwerth cymorthdaliadau PSB yn nifer sydd, fel y mae Ofcom ei hun yn cydnabod, yn agored i nifer o enghreifftiau o ansicrwydd ac efallai na fydd yn sylfaen ddigon cryf ar gyfer cwmpasu ymyriad cyhoeddus yn y dyfodol
- Nid yw'n gysylltiedig ag angen cynulleidfa, ac nid yw, er enghraifft, yn cynnwys y cyfraniad a wneir at gynhyrchu yn y DU gan sianeli nad ydynt yn sianeli PSB yr amcangyfrifwyd gan Ofcom ei fod yn £268m yn 2007[33]. Nid yw ychwaith yn cynnwys y cyfraniad a wneir gan gynnyrch nad yw o'r DU. Rydym yn cytuno ag Ofcom nad yw rhaglenni caffaeledig efallai'n cyfrannu at holl ddibenion PSB yn uniongyrchol, ond does dim amheuaeth eu bod yn cyfrannu at rai o'r dibenion a'u bod yn ychwanegu amrywiaeth hanfodol, ansawdd a lluosogrwydd at y dirwedd PSB
- Nid yw'n cynnwys cyfraniad cynnyrch PSB sy'n ymarferol yn fasnachol at ddibenion cyhoeddus
- Nid yw'n ystyried parodrwydd y cyhoedd i dalu am PSB yng nghyd-destun tirwedd y cyfryngau sydd wedi newid yn aruthrol.

Mae'r BBC yn credu bod graddfa PSB a'i gyllid yn y dyfodol yn fater pwysig. I raddau, bydd lefel yr angen PSB yn y tymor hir yn dibynnu ar ba senario fydd yn codi yn y farchnad. Fel yr amlinellir yn adran 3, mae datblygiadau'r farchnad a hyfywedd PSB masnachol yn agored i ystod o ganlyniadau posibl ac mae nifer o enghreifftiau o ansicrwydd na ellir eu gwerthuso'n llawn ar hyn o bryd, yn effeithio ar hyn.

O ystyried yr ansicrwydd hwn, gellir dadlau o blaid cynnal y lefelau cyllid eang cyfredol dros orwel amser deng mlynedd Adolygiad Ofcom, er y dylai unrhyw feintoliad o'r lefel hon o gyllid allu caniatáu cynnwys sy'n cyflawni dibenion PSB a nodweddion PSB o ba bynnag ffynhonnell. O ystyried pwysigrwydd parhaus PSB, cefnogaeth y gynulleidfa, ac ansicrwydd am ddatblygiadau'r farchnad yn y dyfodol, byddai'n annoeth mentro torri'n ôl. Mae rhai agweddau ar PSB yn debygol o greu costau cynyddol: yr angen i wario mwy ar farchnata a hyrwyddo, yr angen i gynnal gwahanol lwyfannau dosbarthu a'r angen i fuddsoddi mewn gwerthoedd cynhyrchu uwch er mwyn dal i fyny â chystadleuaeth fyd-eang. Ar y llaw arall, gallai datblygiadau newydd yn y cyfryngau gynyddu neu ostwng yr angen am PSB – er enghraifft, os gellir trefnu bod llai o gynnwys ond cynnwys gwell ar gael yn ôl y galw, yna efallai y bydd gwariant cyffredinol ar PSB yn disgyn, wrth gyflawni gwerth cyhoeddus uchel o hyd. Fodd bynnag, mae datblygiadau'r farchnad a datblygiadau technolegol yn rhy ansicr i fod yn bendant heddiw.

---

[32] Ofcom, *Y Cyfle Digidol*, Ebrill 2008

[33] Ofcom, *Y Cyfle Digidol*, Ebrill 2008

### 6.3.2 Ffynonellau cyllid PSB

Ni ddylid gwahanu'r drafodaeth am fodelau PSB oddi wrth y drafodaeth am ffynonellau cyllid. Ni fyddai pwrpas dewis model ffafriol, dim ond i ganfod bod y ffordd o dalu amdano trwy'r dull cyllid lleiaf ffafriol. Awgrymwyd ystod o ffynonellau cyllid gan Ofcom i ddisodli'r cyllid hwnnw a gollwyd trwy'r ffaith fod gwerth PSB nad ydynt yn gymorthdaliadau arian parod yn gostwng:

- Cyllid cyhoeddus uniongyrchol (trethiant neu enillion sbectrwm wedi'u neilltuo)
- Ffi'r drwydded (gan gynnwys cadw cyllid ffi'r drwydded sy'n cael ei sicrhau ar gyfer y Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol ar hyn o bryd, trefnu bod cyllid craidd ffi'r drwydded ar gael i ddarparwyr eraill, neu ddefnyddio asedau'r BBC i gefnogi darparwyr eraill)
- Asedau rheoleiddio (e.e. mynediad at sbectrwm, rheolau hysbysebu diwygiedig)
- Ariannu gan y diwydiant (e.e. ardollau fel y cynigiwyd yn Ffrainc).

Mae manteision ac anfanteision cryf i bob dull, ac mae Ofcom yn amlinellu rhai ohonynt yn adran 7 o'i ymgynghoriad. Mae barn y BBC ar bob dull wedi'i hamlinellu isod:

| Categori | Dull ariannu | Sylw'r BBC |
|---|---|---|
| Cyllid Cyhoeddus Uniongyrchol | Cymorth grant / grantiau eraill y llywodraeth | • Mae economegwyr yn ffafrio grantiau uniongyrchol y llywodraeth fel y rhai sydd wedi'u camliwio leiaf a gellir eu hasesu yn erbyn galwadau eraill ar gyllid cyhoeddus<br>• Maent yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer PSB a gyflwynir gan BBC World Service, S4C, GMS a Teachers TV<br>• Fodd bynnag, gallai'r dull cyllid hwn beryglu annibyniaeth y derbynnydd – mae'n nodedig bod gan bob un o'r uchod nodweddion neu fecanweithiau i liniaru hyn: mae BBC World Service yn canolbwyntio ar faterion byd-eang; mae S4C a GMS fel ei gilydd yn dibynnu ar wasanaeth newyddion a gynhyrchir gan y BBC; mae cylch gwaith a chyrhaeddiad Teachers TV yn gyfyngedig<br>• Mae perygl o hyd y gallai buddsoddiadau diwylliannol 'meddal' golli allan mewn adolygiadau gwariant i fuddsoddiadau 'caled' mewn iechyd, er enghraifft<br>• Gallai cyllid Loteri fod yn eithaf cyfyngedig a byddai'n annog honiadau bod cyllid yn lleihau mewn sefydliadau eraill. Fodd bynnag, ymddengys ei fod yn dderbyniol i gynulleidfaoedd (gweler isod) |
| | Enillion sbectrwm wedi'u neilltuo | • Byddai hyn yn rhannu manteision ac anfanteision tebyg i'r cyllid uniongyrchol uchod. Er ei fod yn ddeniadol mewn llawer o ffyrdd, gallai cyllid o'r ffynhonnell hon amrywio mewn modd anrhagweladwy o bryd i'w gilydd ac efallai na fydd yn ddibynadwy yn y tymor hir |
| Ffi'r Drwydded | Ffi'r drwydded sy'n cael ei chlustnodi ar hyn o bryd | • Mae'r BBC yn credu bod y risgiau a'r anfanteision yn gorbwyso'r manteision yn fawr: gweler isod yn adran 6.3.3 |

| | | |
|---|---|---|
| | Ffi'r drwydded graidd | |
| | Asedau'r BBC e.e. BBC Worldwide | |
| Asedau rheoleiddio | Mynediad at y sbectrwm | • Dau o ddewisiadau mwy deniadol Ofcom yw'r rhain – gweler dadansoddiad y BBC isod |
| | Rheolau diwygiedig ynghylch munudau hysbysebu | |
| | Statws PSB ar gyfer sianeli eraill | • Mae'n werth archwilio'r dewis hwn ymhellach, a gellir ei ddefnyddio gyda dulliau eraill i gynyddu'r tebygolrwydd y bydd cynnwys PSB yn cyflawni cyrhaeddiad ac effaith trwy roi Cyfeirydd Rhaglenni Electronig (EPG) mewn safle gwell<br>• Fodd bynnag, fel dull cyllid, mae'n annhebygol o godi symiau sylweddol |
| Ardollau diwydiannol | Amrywiol | • Mae trethi penodol ar ddarlledwyr neu sefydliadau eraill yn debygol o effeithio ar fuddsoddi, lleihau cynnyrch masnachol, a gallent fod yn anodd i'w cyflwyno yn wleidyddol. Mae perygl hefyd o fynd oddi wrth y lan. |

O'r dewisiadau cyllid, mae ein dadansoddiad yn awgrymu mai darpariaeth asedau rheoleiddio – yn arbennig mynediad at sbectrwm sy'n is na phrisiau'r farchnad – sy'n cynnig y dewis cyllid mwyaf addawol i gefnogi PSB ar ddarlledwyr masnachol, oherwydd ei bod yn ffordd brofedig o gyflwyno cynnyrch PSB ar ddarlledwyr masnachol, ac mae wedi bod yn gefnogaeth allweddol ar gyfer yr ecoleg PSB hyd yn hyn. Byddai'n osgoi'r holl anawsterau sy'n gysylltiedig â chyllid cyhoeddus uniongyrchol y cynnyrch ar sianeli masnachol. Mae'n bosibl y gallai gwerth y sbectrwm hwn fod yn sylweddol ac mae manteision eraill (fel rhestr rheoliadau EPG ar gyfer Five) hefyd yn cadw gwerth sylweddol – yn nadansoddiad Ofcom, tua £200m[34].

Nod Ofcom yw cyflwyno prisiau sbectrwm ar gyfer darlledwyr, gan gynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, ac mae wedi awgrymu y bydd y rhain yn seiliedig ar gostau cyfle i ddarlledwyr. Os yw'r prisiau hyn yn seiliedig ar werth y sbectrwm i unrhyw ddefnyddiwr, gan gynnwys ffonau symudol, gallent fod yn llawer uwch – gan ei gwneud yn anodd i unrhyw ddarlledwr wneud enillion rhesymol ar y sbectrwm a ddefnyddir.

[34] Ofcom, *Y Cyfle Digidol*, Ebrill 2008


Beth bynnag, i fanteisio'n llawn ar y cyfle i ddefnyddio gwerth y sbectrwm yn gyfnewid am PSB, gallai Ofcom wneud y mwyaf o werth mynediad at y sbectrwm DTT i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Gallai hyd yn oed hyn ar ei ben ei hun, er enghraifft, yn ôl dadansoddiad cyfredol Ofcom, gynhyrchu gwerth o £45m y flwyddyn ar gyfer ITV, sy'n awgrymu cyfanswm gwerth ar gyfer PSB sy'n fwy na £100m y flwyddyn.

Yng ngoleuni hyn, bydda'r BBC yn awgrymu bod Ofcom yn cadarnhau ei fod yn barod i hepgor prisiau sbectrwm ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Gellid gwneud mwy o waith i gynhyrchu golwg fanwl a phendant o werth gallu dawnus i'r holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol, a'r graddau y gellid ei ddefnyddio i ariannu rhwymedigaethau PSB allweddol.  Er y gallai gwerth y sbectrwm barhau i fod yn ansicr ar hyn o bryd, ymddengys yn debygol y bydd yn cadw gwerth sylweddol y gellid ei ddefnyddio fel hyn.  Mae adolygiad PSB Ofcom hefyd yn awgrymu cynyddu nifer y munudau hysbysebu a gallai fod gwerth yma i'r sianeli PSB traddodiadol.

Y tu hwnt i asedau rheoleiddio, nid oes unrhyw ddewisiadau sy'n ddeniadol mewn ffordd unigryw gan eu bod yn cyflwyno risgiau gwahanol ond go iawn.  Ar ran y BBC, esboniodd Ipsos MORI i gynulleidfaoedd y cyfaddawdau sy'n gysylltiedig â'r penderfyniadau hyn – gan gynnwys genres rhaglenni a allai gael eu lleihau ar ddarlledwyr y tu allan i'r BBC – ac wedyn, yn ystod holiadur, gofynnodd pa un o ddulliau cyllid Ofcom allai fod y ffordd orau o sicrhau darpariaeth PSB y tu allan i'r BBC. Ni chafodd unrhyw un o'r dewisiadau arfaethedig sgôr uchel, gyda phob un yn cyflawni sgôr gymedrig yn llawer llai na 6 allan o 10.

*Sut ydych chi'n teimlo ynglŷn â'r ffyrdd gwahanol posibl y gellid darparu cyllid i ITV1, Channel 4 a Five yn y dyfodol er mwyn iddynt allu dangos rhaglenni â nodau gwasanaeth cyhoeddus?*

*(Graddfa: 1 = hynod anffafriol; 10 = hynod ffafriol)*




*Ffynhonnell: Ipsos MORI arolwg meintiol; sylfaen = 4,577*

Byddai asesiad teg o ymateb y gynulleidfa yn dod i'r casgliad nad yw'r un o'r dewisiadau cyllid hyn yn cael llawer o gefnogaeth gan y cyhoedd, gan warantu archwiliad beirniadol o'r angen am gyllid cyhoeddus ychwanegol i ddechrau. Yn yr ymchwil a gynhaliwyd gan y BBC, mae dulliau cyllid anuniongyrchol yn fwy poblogaidd na dulliau cyllid uniongyrchol, sy'n cefnogi'r ddadl nad yw cynulleidfaoedd yn frwdfrydig pan ofynnir iddynt dalu'n uniongyrchol i gynnal lluosogrwydd.

### 6.3.3 Cyllid ffi'r drwydded

O gofio arwyddocâd y cwestiwn hwn i'r BBC, rydym wedi archwilio goblygiadau defnyddio ffi'r drwydded ar gyfer darlledwyr eraill yn fanylach. Mae Ofcom yn nodi tair ffynhonnell gyllid bosibl o ffi'r drwydded:

- Ffi'r drwydded graidd
- Y rhan honno o ffi'r drwydded a ddefnyddir i gefnogi'r newid i ddigidol ar hyn o bryd
- Defnyddio asedau'r BBC, e.e. BBC Worldwide, i gefnogi darparwyr eraill.

<u>Ffi'r Drwydded Graidd</u>

Mae Ofcom yn sôn am rai o risgiau posibl yn defnyddio cyllid ffi'r drwydded y tu hwnt i'r BBC. Mae'r BBC yn credu bod nifer o resymau pam y byddai defnyddio ffi'r drwydded i ariannu rhaglenni ar ddarlledwyr eraill yn creu perygl o wneud difrod sylweddol i'r BBC a darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn gyffredinol. Byddai:


- Yn rhoi diwedd ar y cyswllt unigryw rhwng y sawl sy'n talu ffi'r drwydded a'r BBC
- Yn golygu bod angen rhoi mecanweithiau atebolrwydd newydd ar waith ar gyfer unrhyw dderbynwyr newydd
- Yn creu perygl o fwy o bwysau ar i fyny ar ffi'r drwydded gan roi cyfle ar gyfer lobio pwerus a pharhaus yn y dyfodol, sydd yn ei dro yn peryglu erydiad parhaus y cyllid sydd ar gael i'r BBC
- Yn lleihau, os caiff ei roi i ddarlledwyr masnachol, cyfanswm yr arian sy'n cael ei wario ar PSB: trwy gynnig perygl cymorthdalu rhaglenni a allai fod wedi cael eu gwneud beth bynnag a thrwy wastraffu arian ar fecanweithiau newydd
- Yn cymysgu refeniw hysbysebu a chyllid cyhoeddus ar lefel y DU am y tro cyntaf, gan wanhau o bosibl gymhellion masnachol a golygu bod gan rai darlledwyr a ariennir yn fasnachol fantais dros ddarlledwyr eraill.

Yn fanylach:

- Mae ein hymchwil i gynulleidfaedd yn dangos bod gan y rheiny sy'n talu ffi'r drwydded ddealltwriaeth eang a greddfol o'r cyswllt rhwng ffi'r drwydded a'r BBC. Mae hyn yn gwneud iddynt deimlo'n gryfach am y BBC, ei wasanaethau, ei atebolrwydd a'r ffordd y mae'n gwario'i arian. Mae ymchwil Ipsos MORI yn dangos bod cynulleidfaoedd yn gweld cyswllt clir rhwng talu ffi'r drwydded a'u hagweddau tuag at y BBC; daeth Human Capital i'r casgliad bod: 'yr ymchwil meintiol yn awgrymu'n gryf bod gan ffi'r drwydded rôl bwysig wrth ffurfio cyswllt y gynulleidfa â'r BBC'[35]:

[35] Human Capital, *Public service broadcasting now and in the future - audience attitudes*, Mehefin 2008

*Agweddau tuag at Ffi'r Drwydded a'r BBC*




*Ffynhonnell: Ipsos MORI arolwg meintiol; sylfaen = 4,577; 'Ddim yn cytuno nac yn anghytuno' 12%-20%, Ddim yn gwybod 2%*

(Text for above chart)

Because the public pays the Licence Fee, I care more… – Oherwydd bod y cyhoedd yn talu Ffi'r Drwydded, rwy'n poeni mwy am y modd y mae'r BBC yn gwario'r arian hwn nac am y modd y mae darlledwyr eraill yn gwario eu hincwm

Because the public pays the Licence Fee, I feel the BBC should… - Oherwydd bod y cyhoedd yn talu Ffi'r Drwydded, rwy'n teimlo y dylai'r BBC fod yn fwy atebol am yr hyn y mae'n ei ddangos a'r hyn y mae'n ei wneud na darlledwyr eraill


Because the public pays the Licence Fee, I feel mor strongly… - Oherwydd bod y cyhoedd yn talu Ffi'r Drwydded, rwy'n teimlo'n gryfach am y BBC a'i raglenni a'i wasanaethau na darlledwyr eraill

Strongly agree / agree – Cytuno'n gryf / cytuno

Strongly disagree / disagree – Anghytuno'n gryf / anghytuno

- Byddai clustnodi cyfran o ffi'r drwydded yn gwanhau'r cyswllt hwn trwy wasgaru cyfrifoldeb am yr hyn y modd y caiff ffi'r drwydded ei gwario y tu hwnt i'r BBC. Os caiff ei rhoi i ddarlledwyr masnachol, ni fyddai cynulleidfaoedd yn gwybod pa raglenni a oedd yn cael eu hariannu gan ffi'r drwydded a pha raglenni oedd yn cael eu hariannu'n fasnachol. Mae'n amlwg o ymchwil i gynulleidfaedd bod gan y rheiny sy'n talu ffi'r drwydded farn a disgwyliadau gwahanol o'r BBC o gymharu â EPG darlledwyr eraill. O'r herwydd, gallai gwasgaru ffi'r drwydded ymhlith darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol ddrysu'r berthynas hon:

*Agweddau tuag at y BBC, ITV1, Channel 4 a Five*




*Ffynhonnell: Ipsos MORI arolwg meintiol; sylfaen = 4,577*

(Text for above chart)

Strongly agree / agree – Cytuno'n gryf / cytuno

Neither agree nor disagree – Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Strongly disagree / disagree – Anghytuno'n gryf / anghytuno

Don't know – Ddim yn gwybod

I care a lot about… - Rwy'n poeni llawer am y darlledwr hwn a'i raglenni a'i wasanaethau

This broadcaster belongs… - Mae'r darlledwr hwn yn perthyn i'r cyhoedd

- Byddai dosbarthu ffi'r drwydded i ddarparwyr eraill yn rhoi cyfle i lobio pwerus a pharhaus ar gyfer mwy o ffi'r drwydded yn y dyfodol gan bob un o'r rheiny sy'n ei chael, gan roi pwysau sylweddol ar y cyfanswm cyffredinol sydd ei angen. Mae'n amlwg y byddai ffi trwydded sydd gryn dipyn yn uwch yn amhoblogaidd gyda'r rhan fwyaf o gynulleidfaoedd. Yn ein hymchwil meintiol, ffi trwydded uwch gyda chyfran o'r ffi honno wedi'i chlustnodi oedd y dewis cyllid lleiaf poblogaidd ymhlith cynulleidfaoedd, sy'n cyflawni sgôr gymedrig o 3 allan o 10
- Gallai rhoi cyllid cyhoeddus uniongyrchol i ddarlledwyr masnachol leihau cyfanswm yr arian sy'n cael ei wario ar PSB, trwy gynnig peryglu cymorthdalu rhaglenni a allai fod wedi cael eu gwneud beth bynnag. Byddai hefyd yn mynd ag arian oddi wrth PSB trwy'r angen i sefydlu strwythurau a mecanweithiau newydd ar gyfer ei ddosbarthu. Byddai angen rhoi mecanweithiau atebolrwydd newydd ar waith hefyd ar gyfer unrhyw dderbynwyr
- Gallai rhoi cyllid cyhoeddus uniongyrchol i ddarlledwyr masnachol gymysgu refeniw hysbysebu a chyllid cyhoeddus uniongyrchol ar lefel y DU am y tro cyntaf a gallai gael effaith niweidiol ar brif

chwaraewyr masnachol eraill. Ar hyn o bryd, ar lefel y DU, mae'r BBC yn cystadlu am gynulleidfaoedd gyda'r darlledwyr eraill ond nid am refeniwiau. Byddai cyllid cyhoeddus a roddir i brif chwaraewyr masnachol yn ariannu rhaglenni a fyddai'n denu arian hysbysebu'r DU, gan gamliwio'r farchnad o bosibl.

Ffi'r Drwydded wedi'i sicrhau

Mae Ofcom yn cyfeirio at incwm y BBC sy'n cael ei wario ar y newid i ddigidol fel 'gormodedd' y gellid cymryd y gyfran uchaf ohono. Nid 'gormodedd' yw'r incwm hwn, fodd bynnag, ond incwm sydd wedi'i ddyrannu'n llawn i chweched diben y BBC o 'gyflawni manteision technolegau sy'n ymddangos'. Mae rôl y BBC mewn gyrru technoleg newydd a phontio rhaniadau digidol yn rôl sydd wedi bodoli ers tro ac fe'i cydnabuwyd gan Ysgrifenyddion olynol y Wladwriaeth – ymhell cyn ffurfio chweched diben y BBC. Ar sail y rôl hon, er enghraifft, y rhoddwyd y gymeradwyaeth ar gyfer datblygu bbc.co.uk, ar gyfer sianeli radio a theledu digidol y BBC, ac ar gyfer ei gyfranogiad yn Freeview. Mewn gwirionedd, rhoddwyd cydnabyddiaeth benodol i rôl y BBC mewn dyfeisio a buddsoddi mewn technoleg newydd yn ei Siarter gyntaf erioed ym 1927[36].

Er y bydd yr angen i wario arian ar Digital UK a DSHS yn wir yn dod i ben oddeutu adeg y newid i ddigidol, mae'r diben cyffredinol y mae'r buddsoddiadau hyn yn ei gefnogi wedi bod yn rhan graidd o genhadaeth y BBC ers dros wyth deg mlynedd ac ni fydd yn dod i ben yn 2012. Gyda'r newid i deledu digidol ymhell o fod yn gyflawn; y ffaith fod angen rhagor o gefnogaeth ar DAB; yn sgil y ffaith y disgwylir i'r 'rhaniad digidol' ar dueddiadau cyfredol barhau ymhell ar ôl 2012 – mae'n rhy fuan i siarad am roi'r gorau i fuddsoddi mewn hyrwyddo Prydain ddigidol.

Asedau'r BBC

Mae Ofcom hefyd yn awgrymu y gellid defnyddio asedau'r BBC i gefnogi darparwyr eraill: e.e. Channel 4 yn cael cyfran o BBC Worldwide. Fodd bynnag, mae Ofcom hefyd yn awgrymu bod 'paralelau [ar gyfer y dewis hwn] yn cynnwys rhaglenni wedi'u darparu gan y BBC ar gyfer S4C a Gwasanaeth y Cyfryngau Gaelaidd'[37]. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod y canlynol:

- Mae'r BBC yn darparu cynnwys ar gyfer S4C, nid cyllid. Caiff cynnwys y BBC ar S4C ei reoli a'i gomisiynu'n olygyddol gan y BBC; caiff hefyd ei frandio yn gynnwys y BBC fel bod cynulleidfaoedd yn gwybod yn glir o ble mae'r rhaglen wedi dod a sut roedd yn cael ei hariannu. Sianel wedi'i thrwyddedu gan y BBC yw'r Gwasanaeth Digidol Gaelaidd newydd, sy'n cymryd cynnyrch wedi'i ariannu gan ffi trwydded y BBC ac yn ei frandio felly ar y sgrin
- Ymddengys nad yw cynigion Ofcom yn awgrymu unrhyw atebolrwydd ac eglurder o'r fath. Mae BBC Worldwide yn bodoli i elwa ar eiddo deallusol y mae'r BBC wedi'i greu er lles y rheiny sy'n talu ffi'r drwydded - gan gynhyrchu elw sy'n lleihau'r galw ar ffi'r drwydded ac yn gwneud y gorau o'r gwerth am arian. Wrth gadw derbyniad unedol ffi'r drwydded gan y BBC, ni fyddai'r cynnig i rannu asedau BBC Worldwide yn cynyddu cyfanswm yr arian cyhoeddus sy'n cael ei fuddsoddi mewn rhaglenni o hyd a byddai o bosibl yn cynnwys systemau llywodraethu ac atebolrwydd drud a biwrocrataidd.

---

[36] Cyfeiriodd Erthygl 3(g) at ddefnyddio a datblygu patentau mewn 'unrhyw ddyfais mewn perthynas ag unrhyw ddyfais neu beiriant sy'n gwasanaethu neu y cyfrifwyd ei fod yn cyflawni unrhyw ddiben defnyddiol mewn cysylltiad ag unrhyw un o wrthrychau'r Gorfforaeth'
[37] Ofcom, *Y Cyfle Digidol*, Ebrill 2008

> Mae'n debygol bod ffyrdd mwy cynhyrchiol o ddefnyddio cyrhaeddiad byd-eang BBC Worldwide er lles darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, ac mae'r BBC wrthi'n archwilio'r rhain.

Yn ogystal â'r ymchwil i gynulleidfaoedd y cyfeiriwyd ato eisoes, mae'r BBC wedi cynnal ymchwil i farn y gymuned greadigol, i ddeall eu safbwyntiau ynglŷn ag iechyd cyfredol darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ac ynglŷn â beth y dylid ei wneud i sicrhau ei gyflwyno yn y dyfodol. Roedd y cyfranwyr yn cynrychioli amrywiaeth o feintiau o gwmnïau annibynnol, rhanbarthau a genres rhaglenni. O'r rheiny yr ymgynghorwyd â nhw a oedd yn credu bod gan Channel 4 rôl PSB yn y dyfodol, roedd y mwyafrif yn erbyn y syniad o neilltuo cyfran o ffi'r drwydded, er gwaethaf y ffaith y gellir gweld bod hyn er lles masnachol cynhyrchwyr annibynnol:

> *Roedd pobl yn credu bod y BBC yn hynod bwysig. Roeddent yn aml yn pryderu am ei ddyfodol, ac yn awyddus bod y darlledwr - a PSB - yn cael eu diogelu. Roedd llawer o'r rheiny a oedd yn gwrthwynebu neilltuo cyfran o ffi'r drwydded, y tu mewn a'r tu allan i'r BBC, yn poeni y byddai'r BBC yn mynd yn wan pe bai'n colli ei raddfa, ac y byddai darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus yn dioddef yn ddifrifol o ganlyniad o ran nifer, genres, ansawdd ac arloesed ei raglenni. Gyda'r BBC yn gweithredu fel cwmni sy'n gosod y safon ar gyfer darlledwyr masnachol mewn meysydd PSB, byddai i hyn oblygiadau difrifol ar y farchnad gyfan.*
>
> *Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau bod cefnogaeth y cyhoedd i Ffi'r Drwydded, sy'n allweddol i'r ecoleg PSB, yn dibynnu ar ddealltwriaeth y cyhoedd o'r hyn y maent yn ei gael yn gyfnewid am hyn. Mae'r cyswllt hwn yn glir gyda'r BBC. Maent yn dadlau y byddai rhoi rhywfaint o arian i sefydliad a ariennir yn fasnachol yn peri dryswch ymhlith y cyhoedd ynglŷn â ble'r oedd eu harian yn cael ei wario, ac wrth wneud hynny yn tanseilio ffyddlondeb i'r union syniad o ddarpariaeth PSB.*[38]

Yn olaf, mae neilltuo cyfran o ffi'r drwydded yn amhoblogaidd gyda chynulleidfaoedd, mae'n peryglu dyfodol y BBC yn y tymor hir ac ychydig iawn o'r rheiny o'r diwydiant a gafodd eu cyfweld yn ymchwil cymuned greadigol Human Capital oedd yn ei gefnogi. Fel dewis cyllid, ymddengys bod unrhyw fanteision posibl yn cael eu gorbwyso'n gryf gan yr anfanteision a'r risgiau.

[38] Human Capital, *Creative Perspective*, Mehefin 2008

# 7 Y ffordd ymlaen

Yn yr adrannau blaenorol, rydym wedi amlinellu nifer o faterion i ymdrin â nhw wrth gynllunio trefniant newydd ar gyfer PSB:

- Mae llawer o heriau ar gyfer darlledwyr a ariennir yn fasnachol yn y dyfodol, a bydd angen iddynt addasu eu rhwymedigaethau PSB a chanolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i gynulleidfaoedd. Fodd bynnag, mae'r lefel uchel o ansicrwydd ynglŷn â chanlyniadau posibl yn rhybuddio yn erbyn ailffurfio'r system gyfredol mewn modd radical
- Mae manteision lluosogrwydd yn debygol o gael eu cyflawni gan y farchnad yn y rhan fwyaf o achosion; nid yw'r achos ar gyfer rhai o fanteision lluosogrwydd a ragdybiwyd yn ddigon cryf i gyfiawnhau ymyriad cyhoeddus sylweddol y tu hwnt i rai meysydd cyfyngedig
- Sefydliadau sy'n cynnig y dull cyflwyno mwyaf effeithiol ar gyfer PSB ac maent yn fwy tebygol o gyflawni gwerth am arian (sy'n faen prawf hanfodol ynddo'i hun) na dulliau eraill. Dylai cynnal lluosogrwydd o sefydliadau cyhoeddus a phreifat, fod yn amcan polisi pwysig, oherwydd bydd ffurf o amrywiaeth a chystadleuaeth fwy effeithlon a chynaliadwy yn llifo o hyn nag o ymyriadau manylach fel cystadleugarwch
- Nid yw'r un o ddulliau cyllid arfaethedig Ofcom yn dod heb risg arwyddocaol. Fodd bynnag, mae defnyddio asedau rheoleiddio yn bosibl; o fewn cwmpas gallu Ofcom; sy'n dderbyniol i gynulleidfaoedd; ac yn debygol o godi cyllid digonol i ymdrin ag ymyriad cyhoeddus blaenoriaethol y tu hwnt i'r BBC.

Mae'n afrealistig ceisio cynllunio ecoleg PSB sy'n cael ei rheoli'n fanwl mewn amgylchedd sy'n newid mor gyflym. Yn lle'r hen ecoleg PSB sydd wedi'i graddnodi'n ofalus, mae'r BBC yn credu ei bod yn bwysicach adeiladu ar gryfderau'r sefydliadau cyhoeddus presennol – i sicrhau cyrhaeddiad ac effaith, helpu cefnogi buddsoddi yn rhaglenni'r DU trwy sector masnachol llwyddiannus, a lle bo modd, mynd i'r afael ag unrhyw fylchau arwyddocaol o ran cynnyrch. Mae'n debygol na all unrhyw sefydliad unigol wneud hyn ar ei ben ei hun a bydd angen i ni ddod o hyd i atebion i'r sector sy'n cynnwys y sector cyfan. Er mwyn cadw rhannau gorau'r hen system tra'n ei chryfhau ar gyfer y dyfodol, byddem yn awgrymu'r nodau canlynol:

- Ailddiffinio PSB i gynnwys y cyfryngau digidol fel y mae cyfraddau mabwysiadu yn caniatáu, gyda newidiadau i ddibenion a nodweddion
- Newidiadau i'r system PSB sy'n cwmpasu syniadau ynglŷn â dosbarthu, darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd, pontio'r rhaniad digidol a mynediad at hawliau a dosbarthu
- BBC iach sydd â ffocws, gydag ymagwedd fwy agored at gydweithio, partneriaethau ac amrywiaeth llais
- Sector dynamig a masnachol i'r cyfryngau yn y DU sy'n elwa ar hawddfraint rheoleiddio lle bo'n briodol, sy'n canolbwyntio ar ei gryfderau naturiol ac yn annog buddsoddi mewn cynnwys prif ffrwd yn y DU
- Channel 4 unigryw sy'n ychwanegu at y BBC, yn cael ei ariannu'n fasnachol, ac sydd â'r hyblygrwydd cywir a'r cymhellion i lwyddo

- Mae angen dadlau dros ymyriadau PSB ychwanegol, a ariennir yn uniongyrchol, lle mae angen go iawn ac wedi'i gyfiawnhau i ddarparu safbwyntiau amgen ochr yn ochr â'r BBC. Gallai hyn fod yn ateb posibl yn y tymor hir os nad oedd yn tanseilio darpariaeth PSB mewn man arall.

## 7.1 Newid dibenion a nodweddion

Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys dibenion cyhoeddus sy'n ymdrin â'i ehangder a'i ystod ac sy'n canolbwyntio ar fanteision dinasyddiaeth pwysig na fyddai'r farchnad yn darparu cyflenwad digonol ar eu cyfer. Mae cynulleidfaoedd yn cefnogi'r dibenion cyfredol yn fras: canfu ymchwil cydgynghorol a meintiol y BBC y cafodd pob un sgôr uchel[39]. Rydym yn cytuno ag Ofcom bod y dibenion a'r nodweddion presennol yn parhau i fod yn ddilys fel fframwaith ar gyfer cyflwyno PSB, er y byddem yn awgrymu ystyried rhai newidiadau ac estyniadau fel rhan o'r Adolygiad.

### 7.1.1 Dibenion ar draws y cyfryngau digidol

I sicrhau bod darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn gallu derbyn yr her i gael dyfodol lle mae'r cyfryngau yn gwbl ddigidol, mae'r BBC yn credu ei bod yn bwysig ei gwneud yn glir bod y dibenion yn berthnasol i'r cyfryngau newydd yn ogystal â'r hen gyfryngau. Fel arall mae perygl efallai na fydd manteision cymdeithasol posibl y cyfryngau digidol – e.e. cyflwyno dysgu yn well, darparu llwyfan wâr a chytbwys ar gyfer trafod, ac ati – yn cael eu gwireddu. Yn y nod hwn, byddai grymuso dinasyddion yn thema allweddol: i helpu pobl dod o hyd i gynnwys o werth, deall a dehongli'r cyfryngau newydd, a'u bod wedi'u paratoi'n briodol i wneud dewisiadau gwybodus am y cynnwys yr hoffent gael mynediad ato. Gall rôl y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fod yn bwysig yma fel brandiau i ymddiried ynddynt, sydd ag enw da am gywirdeb, amhleidioldeb a thegwch.

Fel yr amlinellir uchod, mewn rhai meysydd, gallai'r cyfryngau digidol yn fuan iawn, fod yn fwy effeithiol wrth gyflawni'r dibenion cyhoeddus na'r cyfryngau confensiynol. Mae cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi'r rôl unigryw gallai'r BBC - a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill - ei chyflawni yn amgylchedd y cyfryngau digidol, a dylid cydnabod hyn wrth gymhwyso'r dibenion.

### 7.1.2 Dibenion ychwanegol posibl

Yn niben y BBC i 'gynrychioli'r DU a'i Gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau' mae'r ymrwymiad i roi 'cyfle i'r rheiny sy'n talu ffi'r drwydded rannu'r un profiadau gyda phobl eraill (fel digwyddiadau pwysig, digwyddiadau byw a rhaglenni poblogaidd)'. Credwn y gellid ehangu'r thema hon ar draws y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i grynhoi'r cysyniad o gydlyniad cymdeithasol. Mae rhaglenni PSB wedi cyflawni rôl wrth gefnogi synnwyr o werthoedd ar y cyd ers llawer o ddegawdau – y rôl hon yw un o'r rhesymau pam mae cynulleidfaoedd yn parhau i deimlo bod rôl darlledu gwasanaeth cyhoeddus mor ddylanwadol

[39] Gwahoddwyd cyfranogwyr i roi sylwadau ar chwe nod gwasanaeth cyhoeddus, yn seiliedig ar ddibenion PSB Ofcom a dibenion y BBC

yn eu bywydau. Gallai helpu cefnogi a chyfathrebu gwerthoedd cymdeithas sifil fod yn un o nodau pwysig ac eglur darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol.

Fel y mae gwaith Ymddiriedolaeth y BBC ar dueddiadau cymdeithasol wedi gweld, mae'n debygol y bydd gan PSB fwy o rôl wrth gyfrannu at gydlyniad cymdeithasol yn y dyfodol.  Yn ogystal â newidiadau cyflym mewn technoleg, bu newidiadau pwysig mewn meysydd fel hunaniaeth genedlaethol, y broses ddemocrataidd, a bywyd teuluol, yn ogystal â mwy o amrywiaeth o ran cefndir, cred, ffordd o fyw a phrofiad ar gyfer dinasyddion y DU.  Mae pob un o'r rhain yn cyfeirio at fwy o rôl i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, i gyfrannu at ddealltwriaeth o'r materion hyn, yn ogystal â hyrwyddo gwerthoedd ar y cyd a phwyntiau cyfeirio diwylliannol.

### 7.1.3 Nodweddion ychwanegol posibl

Caiff dibenion Ofcom eu cefnogi gan chwe nodwedd y dylai rhaglenni PSB eu dangos: ansawdd uchel, cynnwys gwreiddiol o'r DU, arloesol, heriol, ennyn diddordeb ac ar gael yn eang.  Yn ymchwil y BBC ar gyfer yr adolygiad, gofynnwyd i gynulleidfaoedd a oeddent yn credu bod y nodweddion hyn yn bwysig, ac ychwanegwyd rhagor o gysyniadau i'w profi: 'darparu rhaglenni / cynnwys am wahanol ranbarthau'r DU', 'teg a chytbwys' ac yn 'gredadwy'. Canfuwyd bod pob un o'r nodweddion yn gymharol bwysig, gyda'r sgorau cymedrig ymhell dros 7 allan o 10. Fodd bynnag, un o'r nodweddion ychwanegol oedd y nodwedd bwysicaf un: 'credadwyedd', gydag wyth allan o'r deg ymatebwr yn ystyried hyn yn hynod bwysig[40].

Ychydig o amheuaeth sydd ynglŷn â'r ffaith fod y sgôr uchel ar gyfer ymddiriedaeth yn ymwneud â'r dadleuon diweddar mewn perthynas â thegwch wrth gynnal rhaglenni ffonio a chystadlaethau ymhlith darlledwyr. Fodd bynnag, byddai'n ymddangos o'r ymchwil hwn mai'r prif ymateb ymhlith cynulleidfaoedd yw'r gred bod ymddiriedaeth yn angenrheidiol yn un o nodweddion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn hytrach na bod ymddiriedaeth wedi cael ei pheryglu yn angheuol.  O ganlyniad, mae'r BBC yn awgrymu y dylai Ofcom ystyried ychwanegu 'credadwyedd' fel nodwedd ffurfiol.

## 7.2 Cylchoedd gwaith a chyfrifoldebau

Efallai y bydd angen newid y ffordd y mae sicrhau dyfodol PSB yn gweithio ar draws y system ac yng nghylch gwaith, cyfrifoldebau ac ymddygiad sefydliadau PSB unigol.  Mae'r adran hon yn amlinellu, rhai newidiadau, atebion a syniadau posibl y mae'r BBC yn credu y dylai Ofcom eu hystyried fel rhan o gyfnod 2 yr Adolygiad.  Maent yn cynnwys set o gynigion uchelgeisiol gan y BBC i helpu cefnogi'r sector PSB cyfan.

Ar draws y system:

[40] Ffynhonnell: Ipsos MORI arolwg meintiol; sylfaen = 4,577


- Dylai darlledwyr, rheoleiddwyr a'r sector cyfathrebu weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod pob defnyddiwr yn cael ansawdd rhesymol o fynediad am bris teg at gynnwys gwasanaeth cyhoeddus dros y rhyngrwyd.  Byddem yn cefnogi'r UE sy'n ymgymryd â rôl ragweithiol trwy ddod â rheoleiddwyr a rhanddeiliaid at ei gilydd er lles eglurder, arfer gorau a gorfodi rheolau presennol yn effeithiol.  Gallai hyn gynnwys sefydlu fforwm monitro ar lefel UE, rheoleiddwyr cenedlaethol (NRA) a rhanddeiliaid diwydiannol, i fonitro datblygiadau, cyfnewid arfer gorau a chefnogi'r broses o orfodi rheolau effeithiol
- Dylid ailedrych ar bolisi eiddo deallusol a hawliau i sicrhau bod cynnwys yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ar draws y cyfryngau a llwyfannau, tra'n sicrhau enillion teg i gynhyrchwyr a chrewyr. Byddai caniatáu rheoli hawliau yn well ar gyfer cynnwys digidol ar-lein yn rhan allweddol o ymestyn cyrhaeddiad y cyfryngau newydd o ran cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ac felly'r potensial ehangach ar gyfer cynnwys ar-lein i gyfrannu at PSB.

### 7.2.1 Y BBC

Dylai'r fframwaith PSB newydd adeiladu ar gryfderau'r BBC, nid eu peryglu.  Bydd BBC y mae ei raddfa a'i gwmpas yn ddigonol yn helpu cynnal cyrhaeddiad ac apêl eang PSB, a bydd ei rôl yn parhau i fod yn allweddol wrth effeithio ar weddill y farchnad.  Bydd angen BBC o raddfa ddigonol hefyd i ymateb i rai o'r pwysau cystadleuol pwysig gan y prif chwaraewyr mawr byd-eang.

Fodd bynnag, rhaid i'r BBC ei hun ddatblygu i wella'r farchnad PSB. Credwn fod nifer o ffyrdd y gallai'r BBC gyflawni rôl wrth gyflwyno'r cyfle digidol a sicrhau darpariaeth PSB ar draws ystod o sefydliadau yn y tymor hir, fel yr amlinellwyd eisoes yn adran 1.  Mae'n amlwg fod cefnogaeth ymhlith y gynulleidfa ar gyfer y rôl bartneriaeth hon ym maes technoleg newydd:

*Yn eich barn chi, pa un o'r canlynol sy'n rhoi'r disgrifiad gorau o'r hyn y dylai'r BBC ei wneud wrth ddatblygu technoleg y cyfryngau?*




*Ffynhonnell: YouGov arolwg; sylfaen = 5,097; data wedi'i bwysoli yn ôl oedolion ar-lein*

Mae Bwrdd Gweithredol y BBC wedi cynnig syniadau partneriaeth ar draws nifer o feysydd.  Mae'r syniadau sy'n codi yn cynnwys:

- *Y chwyldro cynhyrchu digidol*: Mae'r BBC yn gwario dros £100 miliwn erbyn 2012 yn buddsoddi mewn chwyldro cynhyrchu digidol. Y weledigaeth ar draws yr holl gyfryngau yw ar gyfer 100% o'r holl gynhyrchu digidol fel bod yr holl gynnwys yn cael ei 'eni'n ddigidol a'i fod yn aros yn ddigidol'. Mae'r BBC yn cefnogi'r chwyldro hwn am ddau reswm: yn gyntaf oherwydd mai dyma'r unig ffordd o elwa'n llawn ar y cyfleoedd creadigol anhygoel y mae cyfryngau 360˚ yn ei gynnig i grewyr cynnwys a chynulleidfaoedd; yn ail oherwydd mai'r chwyldro hwn yw'r unig ffordd y gall y BBC fodloni ei dargedau cynhyrchiant ac effeithlonrwydd beichus ei hun – targedau sydd, erbyn 2012, yn awgrymu 20% o arbediad tebyg at ei debyg a chynhyrchu teledu mewnol ac annibynnol. Pe bai'r BBC yn rhannu ei wybodaeth a'i arbenigedd â chynhyrchwyr, darlledwyr, cyhoeddwyr a gweithgynhyrchwyr offer darlledu a chynhyrchu, gellid datgloi llawer o'r cyfle hwn ar draws y diwydiant. Gallai darlledwyr eraill – ac yn arbennig darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill – fudo'n haws i'r llwyfannau digidol newydd, a gallai mabwysiadu safonau technoleg cyffredin gynnig manteision sylweddol i'r DU yn gyffredinol. Pe bai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill yn gallu cyflawni arbedion tebyg i arbedion y BBC, yna gallai eu cyllidebau cynnwys fynd ymhellach. O ganlyniad, gellid gwella eu gallu i barhau i gefnogi PSB yn sylweddol
- *Ymchwil ac Arloesedd:* Mae gan y BBC adran ymchwil a datblygu weithredol (Ymchwil ac Arloesedd y BBC) sy'n cefnogi ei anghenion craidd fel darlledwr traddodiadol, yn ogystal â darparu atebion technolegol ar gyfer yr hyn y mae cyfryngau digidol y BBC yn ei gynnig. Mae'r BBC eisoes yn rhannu arloesedd sy'n ymwneud â thechnolegau darlledu yn eang gyda'r DU a diwydiant byd-eang, ac mae wedi gwneud cyfraniad canolog at fentrau cydweithredol fel Freeview, Freesat, HD a thechnoleg cywasgu fideo DIRAC. Yn y cyfryngau newydd, mae cyfle i gynyddu cyfraniad ehangach y BBC at y diwydiant, trwy weithio'n ehangach â datblygwyr ac eraill ar safonau ac ymagweddau ffynhonnell agored
- *Gwella canfyddiadwyedd*: Mae Ofcom yn nodi cyfoeth o gynnwys gwasanaeth cyhoeddus sydd eisoes ar y rhyngrwyd – o amgueddfeydd, orielau a llawer mwy – ond mae'n dod i'r casgliad ei bod yn aml yn rhy anodd ei ganfod a'i grynhoi. I wella canfyddadiwyedd cynnwys o'r fath, gallai'r BBC weithio gyda phartneriaid diwylliannol a chreadigol i archwilio'r posibilrwydd o rannu cynnwys, systemau llywio ac adnoddau eraill er mwyn i gynulleidfaoedd allu dod o hyd i'r cynnwys gwasanaeth cyhoeddus gorau yn y DU ar-lein
- *Helpu gwneud newyddion rhanbarthol y tu hwnt i'r BBC*: Mae'r BBC wedi ymrwymo'n llawn o hyd i broses gynhwysfawr o gasglu newyddion rhanbarthol a lleol ledled y DU. Gan gofio'r potensial ar gyfer camliwio'r farchnad, rydym yn archwilio ffyrdd o drefnu bod rhai o ddeunyddiau newyddion rhanbarthol a lleol y BBC ar gael i fannau gwerthu newyddion eraill eu hailddefnyddio a'u hailddarlledu mewn ffyrdd sy'n cefnogi economeg darpariaeth newyddion rhanbarthol y tu hwnt i'r BBC
- *Archwilio cyfleoedd byd-eang gyda'r sector annibynnol a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill*: Mae BBC Worldwide eisoes wedi dechrau archwilio ffyrdd o ddefnyddio ei raddfa a'i drosoledd byd-eang i gyflwyno refeniwiau byd-eang cryfach i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill yn y DU, ac mae'n bwriadu mynd â'r syniad hwn ymhellach trwy gynnal trafodaethau agored yn y sector.

Mae maes pwysig arall ar gyfer partneriaeth bosibl, ac er nad yw'n effeithio ar economeg uniongyrchol darlledwyr eraill, gallai serch hynny helpu cyflawni rôl bwysig a gwerthfawr yn nyfodol y cyfryngau electronig yn y DU, gan ymestyn y gwerth cyhoeddus a gyflawnir gan PSB traddodiadol mewn oes cwbl ddigidol.

- *Yr heriau sy'n wynebu DAB*: Bu'n rhaid gwneud rhai dewisiadau anodd adeg cynllun chwe blynedd y BBC ynglŷn â'r cyllid sydd ar gael ar gyfer DAB. Fodd bynnag, y tu hwnt i'w ymrwymiadau cyfredol, gallai'r BBC gefnogi set amlwg o fesurau i ddatblygu DAB ar ran y diwydiant cyfan, gan gynnwys ymestyn cwmpas amlblecs cenedlaethol y BBC y tu hwnt i 90% o boblogaeth y DU; datblygu cynllun ar gyfer ymestyn cwmpas gorsafoedd radio Gwledydd y BBC; a dechrau ymdrech farchnata gryfach sy'n cael ei chydlynu ar draws y diwydiant
- *Cau'r rhaniad digidol*: Disgwylir y bydd tua 20% o'r boblogaeth yn dal i fod heb ei chysylltu â'r rhyngrwyd erbyn 2012. Trwy gydweithio â'r Llywodraeth, darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a phartneriaid eraill, gallai'r BBC ymgymryd â rôl bwysig sy'n cael ei harwain gan gynnwys wrth helpu pontio'r rhaniad hwn – gan ddefnyddio cynnwys rhagorol, gwybodaeth gyhoeddus gynhwysfawr, a chydlynu diwydiant cyfan i annog y carfanau olaf o gartrefi Prydain i ymuno â'r chwyldro band eang
- *IPTV*: Mae cyfle i'r BBC a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill weithio gydag ISP a'r diwydiant ehangach i osod safon syml ac agored i gyflwyno teledu rhyngrwyd i setiau teledu. Gallai rôl IPTV fod yn rhan bwysig wrth gyflawni'r nod yn y pen draw o gael mynediad band eang cyffredinol, gyda'r holl fanteision ehangach i ddefnyddwyr a dinasyddion a fyddai'n dod yn sgil hynny.

Bydd Bwrdd Gweithredol y BBC yn archwilio'r rhain a syniadau eraill dros y misoedd nesaf wrth drafod gyda'r diwydiant, a bydd yn cyflwyno cynigion datblygedig i Ymddiriedolaeth y BBC eu hystyried yn ffurfiol yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

### 7.2.2 ITV

Credwn fod gan ITV rôl hanfodol a pharhaol mewn darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Ymhlith darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol eraill, mae ei gyrhaeddiad a'i effaith yn rhagorol ac mae'n parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni ansawdd uchel ar draws ystod o genres poblogaidd sy'n cyflawni dibenion a nodweddion Ofcom. Mewn marchnad y mae'r BBC yn ei chyflyru, bydd angen amserlen rhaglenni gref yn y DU ar ITV o hyd i ennill cynulleidfaoedd a refeniwiau. Fodd bynnag, credwn y dylai, fel prif chwaraewr masnachol, fod yn fwy hyblyg i ymateb i rymoedd sy'n ffurfio'r farchnad.

Hoffem awgrymu rhai cynigion penodol o amgylch meysydd craidd a nodwyd gan Ofcom:

- Rydym yn cytuno ag Ofcom y bydd newyddion cenedlaethol yn parhau i fod yn fasnachol hyfyw ar gyfer ITV, a bydd ITV yn parhau i ddarparu cystadleuaeth iach ar gyfer y BBC. Mae rhesymau da i sianeli PSB masnachol presennol barhau i gyflwyno newyddion cenedlaethol a rhyngwladol – hyd yn oed heb rwymedigaethau. Mae'r manteision anuniongyrchol, nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu mewn incwm hysbysebu, sy'n deillio o ddarparu newyddion, yn arwyddocaol: ymestyn cyrhaeddiad a denu demograffeg werthfawr; darparu pwyntiau angor ar gyfer gwylio gyda'r nos; a chyflwyno statws a hygrededd i'r brand.

  Yn sgil y gwaith a wnaeth Human Capital i'r BBC ar gynaliadwyedd newyddion rhwydwaith ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, daethpwyd i'r casgliad mai newyddion, o gofio eu costau cymharol is fesul awr, yw'r genre mwyaf effeithlon ar gyfer ITV1 o ran newid buddsoddiad rhaglenni yn effeithiau hysbysebu, tra bo newyddion i Channel 4 yn gyffredin o gymharu â genres eraill. Mae'r

‘glustog’ effeithlonrwydd hon yn arbennig o arwyddocaol mewn cyfnod o ymrannu yn y gynulleidfa[41]. Mae’r dadansoddiad hwn yn helpu esbonio pam mae’r holl rwydweithiau yn UDA (ar wahân i Fox), Canada ac Awstralia yn dangos newyddion oriau brig er nad oes unrhyw ofyniad rheoleiddio iddynt wneud hynny

- Mae’n amlwg bod cynulleidfaoedd yn parhau i roi gwerth uchel dinasyddion i newyddion Gwledydd a Rhanbarthau. Fel yr amlinellir yn adran 5, mae cynnal darpariaeth newyddion amrywiol yn debygol o barhau yn bwysig. Er mwyn cynnal cyrhaeddiad ac effaith ar y gynulleidfa, credwn y dylai newyddion Gwledydd a Rhanbarthau – ynghyd â newyddion rhwydwaith a tharddiadau’r DU – fod yn brif rwymedigaeth gwasanaeth cyhoeddus i ITV. Mae’n rhan o’u treftadaeth sefydliadol ac mae eu cynulleidfaoedd yn lleiaf tebygol o droi at ddarparwyr eraill, yn enwedig os yw’r cynnwys hwnnw yn cael ei ddarparu ar y rhyngrwyd
- Rydym yn derbyn bod economeg newyddion y Gwledydd a’r Rhanbarthau ar gyfer ITV yn heriol, yn sgil cost uchel cynhyrchu rhaglenni newyddion cydamserol ar draws y rhwydwaith. Rydym yn awgrymu felly y dylid datblygu a moderneiddio ymrwymiad ITV yng ngoleuni cyfleoedd digidol a gallwn weld rhinwedd yn ei gynigion a ail-ffurfiwyd yn ddiweddar yn hyn o beth. Gallai manteision masnachol statws PSB ar ôl y newid i ddigidol i ITV, yn enwedig gallu wrth gefn ar sbectrwm DTT, wneud iawn, i raddau helaeth, am gostau cyfle llai ei ddarpariaeth newyddion sydd wedi’i hailstrwythuro[42]
- Yng ngoleuni’r farchnad sy’n newid yn gyflym, byddai’n synhwyrol adeiladu mwy o hyblygrwydd i drwyddedu ar gyfer ITV fel PSB parhaus. Dros gyfnod, gallai fod yn briodol caniatáu trosglwyddo rhai o rwymedigaethau newyddion Gwledydd a Rhanbarthau ITV ar gyfer llwyfannau cyflwyno newydd, fel band eang, yn unol â mudo cynulleidfaoedd. Yn ychwanegol, mae’r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi awgrymu y gellid rhannu cyfleusterau newyddion rhanbarthol y BBC â darlledwyr eraill i leihau costau cynnal lluosogrwydd o ddarpariaeth. Mae’r BBC yn barod i edrych ar hyfywedd y dewis hwn mewn meysydd penodol, er ein bod yn archwilio ffyrdd o drefnu bod rhai o ddeunyddiau newyddion rhanbarthol a lleol y BBC ar gael i gyrff newyddion eraill ar gyfer eu hailddefnyddio a’u hailddarlledu
- Mae Ofcom yn awgrymu ei bod yn debygol y bydd angen gweithredu yn Yr Alban cyn rhannau eraill o’r DU. O gofio natur ddatganoledig y llywodraeth yn yr Alban, mae newyddion teledu ansawdd uchel yn bwysig i ategu’r wasg genedlaethol a darpariaeth radio. Am y rhesymau a amlinellir uchod, dylai newyddion fod yn rhan graidd o brif ymrwymiadau’r prif ddarlledwr masnachol (STV) - o leiaf nes i’r trwyddedau cyfredol ddod i ben - er mwyn cynnal lluosogrwydd a chyrhaeddiad cynulleidfa newyddion teledu. Nid yw’n glir o ddadansoddiad Ofcom pam mae darpariaeth newyddion teledu yn llai cynaliadwy yn fasnachol yn yr Alban, gyda’i marchnad cyfryngau gymharol gref, nag yn y ddwy Wlad ddatganoledig arall, Cymru a Gogledd Iwerddon. Os yw hyn oherwydd trefniadau rhwydweithio ac uno, dylai Ofcom ystyried y cwmpas i fynd i’r afael ag unrhyw bryderon arwyddocaol yn ei adolygiad rheolaidd o drefniadau rhwydweithio ITV
- Fel yr amlinellir uchod, dylai Ofcom ystyried yr holl feysydd cefnogaeth posibl a geir yn y fframwaith rheoleiddio cyfredol. Gallai hefyd fod yn synhwyrol ystyried ail-lunio’r map rhanbarthol yn yr Alban i symud i un drwydded Channel 3; byddai hyn yn cyd-fynd â’r sefyllfa gyfredol yn y ddwy Wlad

[41] Human Capital, *Future of News on the Commercial PSBs*, Mehefin 2007

[42] Mae Ofcom yn amcangyfrif bod cost cyfle ei ofyniad newyddion gwledydd a rhanbarthau cyfredol i ITV tua £50 miliwn y flwyddyn. Amcangyfrifir gan Ofcom bod gwerth manteision PSB (h.y. sbectrwm DTT) ar ôl y newid i ddigidol tua £45 miliwn y flwyddyn.

ddatganoledig arall. Mae trwyddedau ar wahân yn yr Alban yn cynyddu cost rhwymedigaethau rheoleiddio heb ddarparu'r dull o'u hariannu o angenrheidrwydd.

#### 7.2.3 Channel 4

Dylid annog Channel 4 i barhau i ddatblygu ei ymagwedd unigryw ar gyfer PSB – gan fentro mewn ffordd na fyddai'r BBC efallai yn mentro, cyrraedd cynulleidfaoedd penodol, a manteisio ar ei frand a ffyddlondeb ei gynulleidfa.

At ei gilydd, rydym yn croesawu gweledigaeth newydd Channel 4 fel yr amlinellir yn *Next on Four*. Yn benodol:

- Rydym yn cefnogi eu hymrwymiad i raglenni plant a byddem yn eu hannog i ddatblygu hyn ymhellach i lenwi'r bwlch y gallai ITV ei adael (gweler yn ddiweddarach yn yr adran hon)
- Rydym yn croesawu ymrwymiad cryf Channel 4 i faterion cyfoes, rhaglenni ffeithiol difrifol, drama a chomedi o'r DU – genres eraill a amlygir gan Ofcom fel bylchau lluosogrwydd posibl
- Rydym yn croesawu mentrau Channel 4 i fuddsoddi mewn doniau ifanc a newydd, cynnal gwariant ar ffilmiau a buddsoddi mewn cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar-lein
- Mae ymrwymiad Channel 4 i fuddsoddi mwy yn y Gwledydd yn adlewyrchu ymrwymiad y BBC ychydig flynyddoedd yn ôl; gallai'r ddau ddarlledwr weithio gyda'i gilydd yn agosach i sicrhau bod hyn yn cael yr effaith fwyaf
- Byddwn yn parhau i archwilio dewisiadau ar gyfer dyfodol radio digidol gyda Channel 4 a gweddill y diwydiant. Mae'r BBC yn nodi y gwnaeth Channel 4 fuddsoddi mewn radio digidol ar sail fasnachol, gan ddweud: 'Rhaid iddi fod yn fenter fasnachol synhwyrol ... Byddwn yn mynd ymlaen â hyn os gallwn ni barhau i wneud arian ohoni. Nid ein gwaith ni yw gofalu am y diwydiant radio masnachol'[43]. Ni ddylai ymrwymiadau Channel 4 i radio digidol, naill ai yn awr nac yn y dyfodol, fod yn rhan o'u galw am gefnogaeth gyhoeddus ychwanegol felly.

Credwn fod yn rhaid i rôl hunangymorth fod yn allweddol wrth fynd i'r afael â materion cyllid Channel 4, gan gynnwys archwilio'r potensial i gymhwyso targed effeithlonrwydd sector cyhoeddus safonol. Mae ffyrdd eraill hefyd o helpu Channel 4, fel gwerth sbectrwm, newidiadau i reolau hysbysebu ac adolygu ei wariant ar fentrau. Credwn y dylai unrhyw ateb cyllid ar gyfer Channel 4 ddiogelu ei ddiwylliant unigryw a sefydliadol gwerthfawr, yn ogystal â'i gymhelliant masnachol.

Dangosodd ymgynghoriad y BBC â'r gymuned greadigol, o'r rheiny a ddywedodd y dylai Channel 4 barhau fel PSB, bod y mwyafrif yn erbyn unrhyw fath o gyllid cyhoeddus uniongyrchol, gan roi dau brif beth i gyfiawnhau hyn:

- Roedd llawer o ymatebwyr yn credu y byddai arian cyhoeddus hefyd yn golygu bod rhwymedigaethau digroeso yn cael eu gosod ar Channel 4. Roedd llawer o gyfranwyr yn dadlau bod Channel 4 yn cyfrannu mewn modd allweddol trwy herio'r norm a darparu ymagwedd amgen i'r BBC. Roeddent yn

[43] Andy Duncan, Mawrth 2008, dyfynnwyd yn http://www.guardian.co.uk/media/2008/mar/17/channel4.digitaltvradio1

pryderu y byddai cyllid cyhoeddus a'r archwilio parhaus sydd ynghlwm ag ef yn ei hanfod yn newid cymeriad Channel 4 ac yn rhwystro ei allu i barhau i wneud y pethau hyn

- Roedd rhai ymatebwyr yn credu y byddai Channel 4 yn dderbynnydd cyllid cyhoeddus amhriodol, gydag arian cyhoeddus yn anghyson â'i gynnig a'i frand cyffredinol.

Mae Channel 4 fel y mae, yn rhannol, oherwydd y ffordd y caiff ei ariannu a'i lywodraethu. Byddai ymyriad rheoleiddio ystyrlon a drodd Channel 4 yn BBC bach yn wrthgynhyrchiol ac yn niweidio amrywiaeth sefydliadol. Credwn fod ffyrdd gwell o gefnogi Channel 4 wrth gyflawni ei gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus, ac efallai bod rôl gan yr awgrymiadau partneriaeth a gynigir gan y BBC yn y cyflwyniad hwn yn hyn o beth.

### 7.2.4 Five

Mae gan Five rôl bwysig yn yr ecoleg PSB ac mae'n ychwanegu amrywiaeth at gwmpas newyddion a materion cyfoes yn ogystal â darparu tôn ac ymagwedd wahanol ar gyfer mathau eraill o raglenni. Yn ddiweddar, mae wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr at raglenni plant gyda *Milkshake* ac at gynnyrch rhaglenni ffeithiol arbenigol. Yn wir, Five yw'r unig un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol i gynyddu ei gynnyrch o raglenni ffeithiol difrifol yn ystod yr oriau brig rhwng 2003 a 2007, sef cynnydd o ryw 60% dros y cyfnod[44].

At ei gilydd, credwn y byddai ecoleg PSB yn waelach heb gyfraniad Five. Fel yr awgryma Ofcom, mae gwerth gweddilliol breintiau PSB yn debygol o ragori ar rwymedigaethau cyfredol Five. O gofio hyn, gallai fod achos dros ymestyn cylch gwaith swyddogol Five i ddarparu ar gyfer plant iau ac rydym yn nodi ei fod eisoes wedi gwirfoddoli newid ei ymrwymiadau Haen 3 ar gyfer cynnyrch plant i Haen 2.

### 7.2.5 Cynnyrch ar gyfer plant

Yn ei ymgynghoriad, mae Ofcom yn dadlau bod cynnwys PSB ar gyfer plant sy'n tarddu o'r DU dan fygythiad, gyda llai o raglenni teledu yn cael eu gwneud ar y cyfan, gyda diffyg rhaglenni drama a ffeithiol ar gael ar gyfer plant hŷn, a diffyg cynnwys ar gyfer plant yn eu harddegau iau. Mae hyn wedi arwain at lai o luosogrwydd yn narpariaeth y PSB i blant yn y DU ac mae Ofcom yn nodi bod bwlch cyllid o £30m i'w lenwi[45].

Fodd bynnag, dengys tystiolaeth Ofcom er bod nifer ac ystod y cynnwys teledu PSB wedi gostwng, y sefyllfa ehangach yw bod twf sylweddol yn y cynnwys sydd ar gael i blant ar draws aml-lwyfannau. Bu twf sylweddol iawn mewn rhaglenni plant ar deledu digidol (mae 25 o sianeli dynodedig i blant bellach o gymharu â 6 sianel ym 1998); roedd 20,328 o raglenni plant ym 1998 a chyrhaeddodd 112,685 yn 2006.

Mae Ofcom yn gywir i amlygu, yn y cynnydd hwn, bod nifer y rhaglenni o'r DU ar sianeli PSB yn gostwng, ond bod hyn ar ôl twf anferthol rhwng 2001 a 2002. Mae lefelau'r rhaglenni sy'n cael eu darlledu yn gyntaf

[44] Ffynhonnell: BARB/TRP


[45] Ofcom, *Y Cyfle Digidol*, April 2008

gan ddarlledwyr PSB dim ond 13% yn is nag yn 2001[46]. Nid yw'r ffigurau hyn yn dangos y buddsoddiad sylweddol ychwaith sy'n cael ei wneud gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar draws llwyfannau ar wahân i'r teledu – llwyfannau y mae plant yn benodol yn gwneud defnydd helaeth ohonynt. Bydd y BBC yn cynyddu ei fuddsoddiad mewn cynnwys ar-lein i blant i £8m y flwyddyn, gyda thua £10m ychwanegol yng nghynnwys BBC Switch ar gyfer plant yn eu harddegau iau ar draws y teledu, y radio ac ar-lein. Ar y cyd â Channel 4 yn cyhoeddi buddsoddiad o £10m dros ddwy flynedd, mae dim ond hyn ar ei ben ei hun yn cau'r rhan fwyaf o'r bwlch o £30m a nodwyd gan Ofcom yn y maes hwn.

Mae Ofcom yn amlygu diffyg canfyddedig o ystod mewn rhaglenni drama a ffeithiol. Fodd bynnag, dengys ei ddadansoddiad cynnyrch ei hun fod y cyflenwad cyffredinol o raglenni drama a ffeithiol o'r holl sianeli plant yn uwch nag erioed a bod cydbwysedd cymharol dda o ddarpariaeth PSB rhwng y genres ar hyn o bryd. Nid yw dadansoddiad Ofcom yn rhoi ystyriaeth ychwaith i arferion gwylio plant: er enghraifft, mae sianeli eraill y BBC yn darparu cynnwys ag apêl gref ar gyfer y gynulleidfa hon, sy'n amrywio o ddramâu teuluol ar BBC One (*Doctor Who*, *Robin Hood*) yn ogystal â chynnyrch sy'n apelio at blant hŷn trwy Switch a BBC Three.

Nodwn fod dadansoddiad Ofcom o ran pa mor ddymunol yw darparwr PSB plant ychwanegol yn seiliedig ar bôl piniwn o 137 o rieni yn yr Adolygiad Plant. Mae ymchwil y BBC, sy'n seiliedig ar c5,000 o ymatebwyr, yn awgrymu pan fydd yn ofynnol i gynulleidfaoedd nodi'r un nodwedd bwysicaf ar gyfer cynnyrch plant, mai'r prif ffocws ar gyfer pob cynulleidfa ac ar gyfer rhieni yw rhaglenni ansawdd uchel, y gellir ymddiried ynddynt:

*Pa un o'r rhain yw'r pwysicaf mewn rhaglenni plant yn eich barn chi?*




*Ffynhonnell: YouGov; sylfaen = 5,097; data wedi'i bwysoli i'r holl oedolion*

(Text for above chart)

All respondents – Yr holl ymatebwyr

Parents of children under 16 – Rhieni plant o dan 16 oed

Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig nodi nad yw'n ymddangos bod lefel is o gystadleuaeth gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill wedi effeithio ar enw da'r BBC am ansawdd. Mae

[46] Ffynhonnell: Ofcom

amgyffrediadau ansawdd o gynnyrch y BBC yn gryf iawn: mae cymeradwyaeth ar gyfer CBBC a CBeebies (ymhlith oedolion) yn uwch nag unrhyw sianel deledu arall, ac mae'r naill a'r llall ohonynt yn perfformio'n uwch nag unrhyw sianel deledu arall i blant yn 'Y gorau ar gyfer sgorau plant[47]. Ymhlith plant, dywed 73% eu bod wrth eu bodd â CBBC neu eu bod yn credu ei fod yn 'eithaf da'; 87% yw'r sgôr ar gyfer CBeebies.

Mae ymchwil Ofcom ymhlith rhieni yn awgrymu y gellid gwneud mwy i ddarparu llais amrywiol mewn PSB plant. Fodd bynnag, mae ymchwil y BBC ei hun (gan gynnwys ymhlith plant) yn awgrymu bod y gynulleidfa yn credu bod yr ystod a'r amrywiaeth eisoes yn gryf ar BBC ac ar sianeli eraill. Mae sgorau CBBC yn arbennig o uchel ar sgorau yn ymwneud â gwahanol fathau o raglenni ac amrywiaeth ledled y DU. Bydd strategaeth y BBC ei hun yn anelu at wella'r ystod a'r amrywiaeth hon trwy annog cyflenwad mwy amrywiol hyd yn oed o bob cwr o'r DU. Bydd rôl Salford – sef cartref newydd adran blant y BBC o 2011 – yn allweddol wrth ysgogi'r gymuned greadigol yn rhanbarthau Lloegr a bydd Glasgow yn parhau i fod yn gyflenwr allweddol ar gyfer cynnyrch o'r Alban. Mae'r WoCC eisoes yn gyfle cystadleuol pwysig ar gyfer cynhyrchwyr mewnol ac annibynnol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal adolygiad o'r WoCC ar hyn o bryd, ond mae profiad cynnar yn awgrymu bod cwmnïau annibynnol wedi bod yn hynod lwyddiannus yn sicrhau comisiynau trwy'r WoCC mewn rhaglenni plant. Yn ychwanegol, mae strategaeth olygyddol y BBC yn cefnogi ystod ac amrywiaeth: mewn drama, cedwir cyfraddau adfywio mor uchel â phosibl, gyda chynlluniau 2008/09 yn dangos bod dwy o bob tair drama yn newydd, o gymharu â hanner yn 2004/05.

Yn gryno, efallai nad yw lluosogrwydd yn y cynnyrch i blant yn y DU mor bwysig i gynulleidfaoedd ag y mae Ofcom wedi awgrymu, ac nid yw'n ymddangos bod ei ganlyniadau a'i fanteision tybiedig dan fygythiad.

Yn y dyfodol, strategaeth y BBC yw cynnal amrywiaeth o ran yr hyn a gynigir ar y teledu a defnyddio'r strategaeth ategol i gynnal a gwella amrywiaeth (Salford, Glasgow, WoCC). I ategu ymrwymiad y BBC ymhellach yn y maes hwn, mae Ymddiriedolaeth y BBC wedi treblu'r isafswm a sicrheir o gynnyrch plant ar BBC One a Two, i 1,500 o oriau'r flwyddyn. Mae'r BBC hefyd wedi cyhoeddi buddsoddiad newydd mewn rhaglenni plant yn ddiweddar o £15m dros bum mlynedd, i'w gyfeirio tuag at darddiad ar-lein a theledu. Fel rhan o'i strategaeth *Cyflawni Dyfodol Creadigol,* cyhoeddodd y BBC fuddsoddiad newydd mewn cynnwys aml-lwyfan a gynigir ar gyfer plant yn eu harddegau o dan y brand BBC Switch. Mae'r buddsoddiad hwn yn gwneud cyfanswm o £7-10m y flwyddyn mewn buddsoddiad cynnwys teledu, ar-lein a radio na fyddai'r farchnad yn ei ddarparu. Yn olaf, ac yn amodol ar gymeradwyaeth reoleiddio, mae'r BBC yn bwriadu ymestyn oriau darlledu ei sianel ar gyfer plant hŷn, CBBC, i 9pm.

Ar hyn o bryd, mae Ymddiriedolaeth y BBC yn adolygu perfformiad cynnyrch plant gan y BBC a strategaeth ar ei gyfer (gan gynnwys cynlluniau buddsoddi) a bydd yn cynnal adolygiad pellach o ddarpariaeth y BBC ar gyfer cynulleidfaoedd iau yn ddiweddarach eleni. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn ymgynghori â'r rheiny sy'n talu ffi'r drwydded a rhanddeiliaid eraill, yn ogystal â chynnal ymchwil pellach i gynulleidfaoedd gyda'r bwriad o gyhoeddi ei ganfyddiadau ar gynnyrch plant y gaeaf hwn ac ar ddarpariaeth ar gyfer cynulleidfaoedd iau yn 2009.

[47] Ffynhonnell: PBTS

Y tu hwnt i'r BBC:

- Dylai unrhyw strategaeth yn y dyfodol ar gyfer darpariaeth PSB gydnabod rolau pwysig Five a S4C: dylid annog y naill sefydliad a'r llall i barhau i ddatblygu eu cynnyrch plant
- Mae ITV yn parhau i gomisiynu cynnyrch gwreiddiol ar gyfer plant ac mae CITV yn sianel a werthfawrogir yn fawr gyda chyrhaeddiad a chyfran sylweddol ymhlith plant hŷn. Fodd bynnag, nid yw cynnyrch plant yn cyd-fynd yn dda ag amserlen ITV1 mwyach a gallai fod yn synhwyrol addasu'r rhwymedigaeth benodol hon
- Byddai'n ymddangos bod cynigion Channel 4 yn y maes hwn yn awgrymu eu bod yn ddarparwr amgen priodol. Rydym yn croesawu strategaeth benodol Channel 4 o ddarpariaeth ar gyfer plant hŷn ac ymddengys ei bod yn cyd-fynd yn agos â brand Channel 4. Mae'r cyrhaeddiad wythnosol i Channel 4 ac E4 ymhlith plant yn uchel, sef 52.8% ac mae wedi bod yn cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf[48]. Mae hefyd yn nodedig bod y gynulleidfa darged, sef plant yn eu harddegau iau, yn cael eu denu'n gryf i amserlen Channel 4 ar ddiwedd y prynhawn ac yn gynnar yn ystod y nos, gyda phump o'r ugain sioe uchaf – a dwy o'r tair sioe uchaf – ymhlith plant 10-15 oed, yn ymddangos ar Channel 4 ar yr amser hwn. Mae hyn yn awgrymu, i gyflawni cyrhaeddiad ac effaith, ei bod yn ymddangos mai Channel 4 (o bosibl wedi'i gyfuno ag E4) yw'r sianel sydd fwyaf addas ar gyfer bodloni'r angen hwn sy'n dod i'r amlwg.

### 7.2.6 Materion Gwledydd a Rhanbarthau

Mae Ofcom yn nodi rhai materion allweddol o ran y Gwledydd a'r Rhanbarthau yn ei Adolygiad. Mae'r BBC yn credu y gall gryfhau ei rôl fel y darlledwr ar gyfer y DU gyfan trwy fanteisio ar ei fuddsoddiad hanesyddol sylweddol mewn isadeiledd a chyfleusterau. Mae ymrwymiad y BBC yma yn ymdrin ag ystod ehangach o wasanaethau a chynhyrchu nag unrhyw ddarlledwr arall, o radio lleol a theledu Gwledydd / rhanbarthol, trwy gynhyrchu rhwydwaith o bob cwr o'r DU, i'w hanes hir o gefnogi ieithoedd brodorol lleiafrifol. Fodd bynnag, gall y BBC wneud mwy i ddatblygu ei rôl a chryfhau clystyrau'r cyfryngau ledled y wlad. Wrth wneud hynny, gall fynd i'r afael â llawer o ystyriaethau Ofcom:

- Mae'r BBC wedi ymrwymo'n llawn i'r gwasanaethau newyddion yn y Gwledydd a'r Rhanbarthau, a dyma'r rhaglenni newyddion mwyaf poblogaidd yn y DU[49]. Er bod y gyfradd cyrhaeddiad wedi bod yn gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, mae gwylwyr hŷn yn parhau i fod yn wylwyr ffyddlon ac fe gaiff y rhaglenni a'r bwletinau eu gwerthfawrogi'n fawr
- Fodd bynnag, mae dau newid sylfaenol yn effeithio ar agweddau cynulleidfaoedd tuag at newyddion teledu rhanbarthol traddodiadol: diddordeb cynyddol mewn newyddion lleol a'r symud yn y tymor hir o ddefnydd newyddion llinol i newyddion yn ôl y galw, wrth i dreiddio band eang godi ac wrth i fideo ddod yn gynyddol gyffredin ar-lein. Oherwydd y symudiadau hyn, mae Bwrdd Gweithredol y BBC wedi datblygu cynigion i foderneiddio ei bortffolio o wasanaethau newyddion Gwledydd a rhanbarthol a darparu newyddion fideo unigryw, ansawdd uchel a pherthnasol i gymunedau lleol ledled y DU, pan fydd arnynt eisiau, a sut mae arnynt ei eisiau. Mae'r cynigion hyn yn cael eu hystyried gan Ymddiriedolaeth y BBC ac Ofcom ar hyn o bryd o dan Brawf Gwerth Cyhoeddus

[48] Ffynhonnell: BARB

[49] Ffynhonnell: BARB

- Mae'r BBC yn parhau i fod wedi ymrwymo i ystod eang o gynnyrch nad yw'n gynnyrch newyddion y Gwledydd a'r Rhanbarthau. Yn unol â strategaeth gyffredinol y BBC, ei gynigion cyfredol yw canolbwyntio ar ystod y rhaglenni eithrio nad ydynt yn rhaglenni Newyddion a gynhyrchir gan y Gwledydd sy'n unigryw ac yn arloesol ac yn cael eu gwerthfawrogi gan gynulleidfaoedd, tra'n lleihau cynnwys nad yw'n cael ei werthfawrogi cystal. Gallai'r strategaeth hon sy'n 'llai ond yn well' arwain at lai o gynnyrch ond bydd ei heffaith yn uwch. Bydd buddsoddi yn y Gwledydd hefyd yn gosod y sylfeini ar gyfer gwneud cynnwys clyweled lleol yn addas at ei ddiben yn yr oes ddigidol trwy greu cynnwys yn ôl y galw i'r Gwledydd ar gyfer bbc.co.uk
- Yn ei gynnyrch a'i wasanaethau, bydd y BBC yn parhau i gefnogi prif ieithoedd brodorol lleiafrifol y DU: Gaeleg, y Gymraeg, Gwyddeleg a Sgoteg Wlster:
  - Mae Radio nan Gàidheal yn darlledu mewn Gaeleg i'r Alban gyfan, a bydd y Gwasanaeth Digidol Gaeleg newydd ar gael ar lwyfannau teledu digidol bob dydd ledled y DU. Bydd BBC Two yn yr Alban yn parhau i ddarparu cynnyrch Gaeleg yn y bore yn ystod yr wythnos ar gyfer plant cyn-ysgol a bydd yn cynnig ystod o raglenni Gaeleg yn ei amserlen tan o leiaf 2010
  - Yng Nghymru, mae partneriaeth strategol newydd ar waith gydag S4C, a bydd y BBC yn parhau i weithio gydag S4C i ddarparu cynnwys teledu Cymraeg. Bydd Radio Cymru a gwasanaeth ar-lein BBC Cymru yn parhau i wasanaethu cynulleidfaoedd Cymraeg yn effeithiol
  - Rydym yn cytuno gydag Ofcom bod gweddill y materion sy'n ymwneud ag ieithoedd brodorol yng Ngogledd Iwerddon. Mae BBC Northern Ireland wedi ymrwymo i gynyddu ystod, effaith, nifer a gwerth ei raglenni mewn Gwyddeleg a Sgoteg Wlster. Bydd darpariaeth ar-lein yn rhan bwysig o'r strategaeth, gyda rhaglenni iaith ar gyfer cynulleidfaoedd teledu lleol ar yr amserlen ar BBC Two. Bydd cynnyrch radio yn mynd i'r afael ag anghenion y rheiny sy'n siarad yr iaith a dysgwyr a byddant yn elwa ar wella cefnogaeth gysylltiedig ar y we yn sylweddol.

- O ran cynhyrchu rhwydwaith y tu allan i Lundain, mae'r BBC wedi ymrwymo i sefydlu canolfan gynhyrchu fwyaf y DU y tu allan i Lundain erbyn 2011. Bydd sawl gwasanaeth ac adran strategol bwysig y BBC wedi'u lleoli'n gyfan gwbl yn Salford: BBC Children's, BBC Sport, Future Media and Technology, Radio Five Live, a Research and Innovation. Mae'r safle a'i gyfleusterau cynhyrchu eisoes yn cael eu datblygu'n dda
- I fynd i'r afael â phryderon am lefelau cynhyrchu rhwydwaith gan y Gwledydd, yn benodol, mae Ymddiriedolaeth y BBC wedi gofyn i Fwrdd Gweithredol y BBC yn ddiweddar adolygu ei gyflenwad o raglenni teledu rhwydwaith o'r tair Gwlad er mwyn cryfhau cynrychiolaeth ddiwylliannol o'r DU gyfan ac adeiladu cynaliadwyedd y cyflenwad ledled y wlad. O ganlyniad i'r adolygiad hwnnw, mae'r BBC wedi ymrwymo o'r newydd i ehangu ei rôl yma, sydd eisoes yn sylweddol:
  - Bydd yn cyrraedd 17% o'r cynnyrch yn y tair Gwlad o dan ddiffiniad Ofcom erbyn diwedd cyfnod y Siarter gyfredol (2016), sef cynnydd triphlyg bron o lefelau cynnyrch yn 2008
  - Bydd busnes dychwelyd sylweddol yn symud neu'n cael ei greu yn y tair Gwlad i adeiladu cynaliadwyedd a mas critigol, sicrhau lefelau cynnyrch a chysodi amrywiadau mewn cyfeintiau cynhyrchu
  - Bydd strategaeth gomisiynu newydd yn cynyddu lefelau cynrychiolaeth ddiwylliannol.

Mae Ofcom yn nodi nifer o faterion eraill o ran y Gwledydd a'r Rhanbarthau y tu hwnt i ddarpariaeth y BBC:

- Fel yr amlinellwyd eisoes, rydym yn bwriadu gwneud newyddion rhanbarthol yn gynaliadwy y tu hwnt i'r BBC trwy archwilio awgrymiadau diweddar y gellid trosoli rhai o alluoedd newyddion rhanbarthol y BBC i gefnogi cyrff newyddion eraill
- Mae diddordeb cynyddol mewn cynnwys mwy lleol yn ymwneud â newyddion a gwybodaeth ledled y DU. Mae cyfleoedd newydd ar gyfer cyflwyno, fel gwasanaethau ar-lein lleol a theledu digidol lleol, yn ymddangos a fydd yn ychwanegu at y gwasanaethau sydd eisoes yn bod. Fel yr amlinellir uchod, mae'r BBC yn bwriadu ehangu ei ddull cyfredol o gyflwyno cynnwys fideo ar-lein lleol i fodloni gofynion cynulleidfa. Ar y lefel leol, mae'n debygol y bydd model amrywiol o ddarpariaeth newyddion mewn gwahanol ardaloedd, yn dibynnu ar ofynion y gynulleidfa ac amodau'r farchnad. Rydym yn debygol o weld ystod o gynigion ar-lein masnachol yn ymddangos gan gynnwys ITV Local (a gweithgaredd cyfatebol gan ddalwyr trwydded nad ydynt yn ddalwyr trwydded ITV plc yn yr Alban, Gogledd Iwerddon ac Ynysoedd y Sianel), gwefannau papurau newydd, y cyfryngau cymunedol a chasgliadau ar-lein. Dylai fod y rhan fwyaf o farchnadoedd lleol mewn ardaloedd trefol yn gallu cefnogi o leiaf un gweithredwr aml-gyfrwng masnachol. Mae'n rhy gynnar i farnu a oes angen ymyriad rheoleiddio pellach i gyflwyno newyddion lleol a sut
- Rydym yn cydnabod bod gan raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion yn y Gwledydd rôl gynyddol arwyddocaol (y tu hwnt i newyddion) mewn adrodd, dathlu ac adlewyrchu bywyd cenedlaethol. Gall rhaglenni rhai Gwledydd (fel cyfresi materion cyfoes) ychwanegu at gyfran rhwydwaith a dylai barhau yn hyfyw yn fasnachol – er enghraifft, mae elfen materion cyfoes ITV1 Wales *Wales This Week* a'r rhaglen ar gyfer defnyddwyr, *The Ferret* yn rhaglenni sy'n perfformio'n dda iawn yn rheolaidd ar gyfer y sianel, gan ychwanegu tua 3% o bwyntiau cyfran at berfformiad rhwydwaith ITV1[50]. Fodd bynnag, bydd angen ystyried cost cynnal lluosogrwydd yn y maes hwn yn ofalus o gofio'r flaenoriaeth gymharol isel y mae cynulleidfaoedd yn ei rhoi i'r ddarpariaeth hon, a chost cyfle posibl cynnal y gwasanaethau hyn
- Yng Nghymru, gallai set ddiwygiedig ac wedi'i moderneiddio o rwymedigaethau ar gyfer ITV ddarparu lluosogrwydd ochr yn ochr â'r BBC, ond ar draws ystod fwy cyfyngedig o raglenni. Byddem yn annog Ofcom i edrych ar yr holl asedau rheoleiddio sydd ganddo – gan gynnwys trefniadau rhwydweithio – i asesu ystod y cynnyrch y gellid ei gefnogi yng Nghymru. Ymddengys fod S4C yn iach a gall ddibynnu ar ystod o raglenni ansawdd uchel gan y BBC
- Yng Ngogledd Iwerddon, rydym yn cytuno bod y prif fater yn ymwneud â darpariaeth rhaglenni Gwyddeleg a Sgoteg Wlster. Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn canolbwyntio ar gynyddu darpariaeth y BBC yn y maes hwn, a gallai hyn fod yn ymyriad digonol. Byddai cludo gwasanaethau fel TG4 yng Ngogledd Iwerddon hefyd yn cynyddu lluosogrwydd, er y byddai angen asesu'r effaith y gallai hyn ei gael ar gyrff masnachol yng Ngogledd Iwerddon
- Yn yr Alban, efallai y bydd angen dod o hyd i atebion o fewn strwythurau presennol i sicrhau lluosogrwydd newyddion. Awgrymwyd sianel genedlaethol newydd ar gyfer yr Alban gan dystion i Gomisiwn Darlledu'r Alban. Mae'r BBC eisoes yn partneru â sianeli tebyg (e.e. S4C, GDS) i ddarparu cynnwys a gwasanaethau eraill. Pe bai sianel o'r fath yn cael ei sefydlu, byddai'r BBC yn edrych ymlaen at archwilio dewisiadau ar gyfer partneru â hi
- Ar gyfer cynhyrchu rhwydwaith y tu allan i Lundain, mae'r BBC yn cynyddu ei ymrwymiad yn sylweddol ac mae Channel 4 hefyd wedi gwneud addewidion sydd i'w croesawu. O gofio hyn a thrwy gydweithio i adeiladu clystyrau cynhyrchu cynaliadwy o amgylch y DU, byddem yn disgwyl i ddarlledwyr eraill allu cynyddu eu comisiynu gan y Gwledydd yn naturiol.

[50] Ffynhonnell: BARB

Rydym yn cydnabod bod materion cymhleth i'w datrys ledled holl Wledydd a Rhanbarthau'r DU.  Byddai'r BBC yn croesawu mwy o gyfleoedd dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf i drafod y materion hyn yn fanylach ac archwilio'r rôl y gallai'r BBC ei hun ei chyflawni wrth helpu cefnogi darpariaeth PSB ym mhob lle.

## 7.3 Casgliad

Mae'r cynigion y mae'r BBC wedi'u hawgrymu yn yr adran hon yn defnyddio'r ymchwil sylweddol i gynulleidfaoedd yr ydym wedi'i gynnal fel rhan o'r Adolygiad.  Credwn eu bod yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer adeiladu ar yr hyn sydd orau yn y system gyfredol i gynhyrchu dyfodol bywiog a chynaliadwy ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus – dyfodol sydd â'i wreiddiau mewn sefydliadau cadarn sy'n ategu ei gilydd, sector masnachol sy'n ffynnu, lefelau uchel o gynhyrchu yn y DU, a chyflwyno sy'n canolbwyntio ar y gynulleidfa yn hytrach na micro-reolaeth ar gwotâu a chontractau cynnyrch.

Byddai'r esblygiad hwn o'r hyn sydd fwyaf effeithiol yn y system gyfredol, mewn gwirionedd, yn sbarduno newid radical a sylfaenol yn y ffordd y cyflwynir PSB i gynulleidfaoedd.  Mae'r cyfle digidol yn cynnig cyfleoedd gwych ar gyfer gwerth cyhoeddus – credwn fod y cynigion a amlinellir gennym yn dangos ffordd gref ymlaen i sicrhau bod dyfodol ar gyfer pob cynulleidfa.

# Atodiad 1: Ymatebion i gwestiynau'r ymgynghori

Mae dogfen ymgynghori Ofcom yn codi nifer o gwestiynau y gwahoddir rhanddeiliaid i ymateb iddynt. Mae bron pob un o'r cwestiynau wedi cael eu hateb yn ystod y cyflwyniad hwn; fodd bynnag, er hwylustod cyfeirio, mae'r atodiad hwn yn dangos ble yng nghorff yr ymateb y caiff cwestiynau Ofcom eu hateb.

*i)* *A ydych chi'n cytuno ag asesiad Ofcom bod rôl teledu yn parhau i fod yn hanfodol wrth gyflawni dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus?*
Mae ymchwil sylweddol gan y BBC yn dangos cefnogaeth gref i asesiad Ofcom – gweler adran 3.

*ii)* *A ydych chi'n cytuno bod cynnyrch sy'n tarddu o'r DU yn hanfodol ar gyfer cyflawni dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus?*
Rydym yn cytuno bod cynnyrch sy'n tarddu o'r DU yn hanfodol i wasanaethu'r dibenion. Fodd bynnag, credwn fod Ofcom yn rhoi amcangyfrif rhy isel o werth cynnyrch nad yw'n dod o'r DU, o ran ei gyfraniad at ddibenion (e.e. mewn rhaglenni plant neu raglenni ffeithiol arbenigol) ac yn arbennig yn ei gyfraniad at gystadleuaeth ac arloesedd – gweler adran 5.

*iii)* *A ydych chi'n cytuno â chasgliadau Ofcom am y ffordd y mae sianeli digidol a chyfryngau rhyngweithiol eraill yn cyfrannu tuag at y dibenion cyhoeddus?*
Rydym yn cytuno y bydd rôl y cyfryngau digidol yn allweddol wrth gyflawni dibenion cyhoeddus yn y dyfodol. Credwn fod trosglwyddo i fyd cwbl ddigidol yn cynrychioli'r her ganolog ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus a dylai sicrhau ansawdd, cyrhaeddiad ac effaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y cyd-destun hwn fod â rhan bwysig yng nghyfnod nesaf Adolygiad Ofcom. Mae Adran 4 yn cynnwys dadansoddiad pellach.

*iv)* *A ydych chi'n cytuno ag asesiad Ofcom o oblygiadau gwahanol senarios economaidd i'r farchnad deledu yn y DU ar gyfer y rhagolygon i gyflawni'r dibenion cyhoeddus yn y dyfodol?*
Mae modelu economaidd y BBC ei hun wedi'i amlinellu yn adran 4 ac yn bbc.co.uk/thefuture. Mae llawer o'n dadansoddiad yn gytûn â dadansoddiad Ofcom, er ein bod yn credu bod senario mwyaf pesimistaidd Ofcom yn hynod annhebygol ac y gallai model Ofcom fod â refeniwiau posibl rhy isel o ffynonellau newydd. Fodd bynnag, efallai bod gwahaniaethau yn natur y gwahanol fodelau eu hunain. Gall penderfyniadau polisi a wneir effeithio'n sylweddol ar y canlyniadau a drafodwyd – er enghraifft, bydd cefnogaeth gyson ar gyfer y BBC yn ei dro yn arwain at lefelau uchel o gynhyrchu yn y DU ac yn dylanwadu ar strategaethau rhaglenni yn y sector masnachol.

*v)* *A ydych chi'n cytuno â dadansoddiad Ofcom o gostau a manteision statws PSB?*
Rydym yn cytuno bod pwysau tymor byr ar rai dalwyr trwydded. Fodd bynnag, credwn ei bod yn hynod annhebygol y bydd dalwyr trwydded yn rhoi trwyddedau yn ôl hyd y gellir ei ragweld am amrywiaeth o resymau. Yn y pen draw, dylid sicrhau mai'r nod yw cyfateb costau a manteision mewn fframwaith tymor hir cynaliadwy sy'n rheoleiddio â llif pob sefydliad – gweler 6.3 am ddadansoddiad mynegol. Yn adran 7, rydym yn nodi'r modd y gellir gweddu gweddill manteision

PSB i anghenion y gynulleidfa.

*vi)* *A ydych chi'n cytuno â gweledigaeth Ofcom ar gyfer cynnwys gwasanaeth cyhoeddus?*
Mae gweledigaeth y BBC ar gyfer cynnwys gwasanaeth cyhoeddus wedi'i hamlinellu yn adran 1. Mae ganddi lawer yn gyffredin â gweledigaeth Ofcom, ond credwn fod ffocws Ofcom ar luosogrwydd fel yr unig ffordd o gyflawni PSB ansawdd uchel wedi'i orbwysleisio – gweler y dadansoddiad yn adran 5.

*vii)* *Pa mor bwysig yw lluosogrwydd a chystadleuaeth am ansawdd wrth gyflawni dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ac ym mha feysydd?*
Gweler y dadansoddiad yn adran 5.

*viii)* *Wrth wneud y gorau o gyrhaeddiad ac effaith cynnwys gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol, beth yw rolau posibl llwyfannau a gwasanaethau?*
Gweler y dadansoddiad yn adran 4. Credwn, os rhywbeth, nad yw Ofcom yn ymdrin yn ddigonol â phwysigrwydd ymagwedd trawsgyfryngol yn y dyfodol gan sefydliadau sydd â'r raddfa a'r cwmpas i gyrraedd pob cynulleidfa.

*ix)* *A ydych chi'n cytuno na fydd y model presennol ar gyfer cyflwyno darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ddigonol i fodloni anghenion sy'n newid yn y dyfodol?*
Gweler adrannau 1, 6 a 7. Rydym yn cytuno y bydd angen gwneud addasiadau, ond nad ydynt o angenrheidrwydd yn cefnogi'r casgliad bod angen disodli cymorthdaliadau presennol nad ydynt yn gymorthdaliadau arian parod gan gyllid newydd yn gyfan gwbl.

*x)* *Beth yw eich barn am y dewisiadau lefel uchel ar gyfer ariannu darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol?*
Gweler adran 6.

*xi)* *A yw'r profion effeithiolrwydd arfaethedig ar gyfer modelau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol y rhai cywir?*
Rydym wedi awgrymu newidiadau i'r profion hyn – gweler y dadansoddiad yn adran 6. Yn benodol, nid ydym yn credu y dylid credu bod lluosogrwydd yn ddiwedd ynddo'i hun. Rydym hefyd yn awgrymu ychwanegu gwerth am arian a derbynioldeb i gynulleidfaoedd fel dau brawf ychwanegol.

*xii)* *O'r pedwar model posibl ar gyfer cyflwyno cynnwys gwasanaeth cyhoeddus yn y tymor hir, pa un, os o gwbl, yw'r mwyaf priodol yn eich barn chi a pham? A oes unrhyw fodelau amgen, neu gyfuniad o fodelau a allai fod yn fwy priodol, a pham?*
Gweler y dadansoddiad yn adran 6. Rydym yn awgrymu tirwedd yn y dyfodol yn seiliedig ar y gymysgedd sefydliadol gyfredol, ond gyda newidiadau sylweddol i rwymedigaethau PSB ar gyfer darlledwyr masnachol, a mwy o bwyslais ar oblygiadau trawsffurfiannol y cyfryngau newydd ar gyfer cyflwyno PSB yn y dyfodol. Rydym hefyd yn disgrifio model partneriaeth newydd ar gyfer y BBC fel rhan hanfodol o'r gymysgedd hon.

xiii) *Beth yn eich barn chi yw rôl briodol y gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer Channel 4 yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir? Beth yw eich barn am weledigaeth arfaethedig Channel 4?*
Gweler adran 7.

xiv) *Pa un o'r dewisiadau a amlinellir ar gyfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol ydych chi'n ei ffafrio?*
Gweler adran 7.

xv) *I ba raddau ydych chi'n cytuno ag asesiad Ofcom o'r materion tymor hir tebygol yn y dyfodol fel y maent yn berthnasol i wledydd, rhanbarthau ac ardaloedd y DU?*
Gweler adran 7.

xvi) *Pa fodel(au) fydd y mwyaf priodol ym mhob un o'r gwledydd ac yn rhanbarthau Lloegr yn y tymor hir yn eich barn chi, a pham?*
Yn hytrach na chanolbwyntio ar fodelau haniaethol, byddai'n well gan y BBC awgrymu atebion unigol ar gyfer pob rhan o'r wlad sydd â'r cyfle cryfaf o gyflwyno'r canlyniadau gorau ar gyfer cynulleidfaoedd. Mae adran 7 yn amlinellu ein hawgrymiadau.

xvii) *Beth yw eich barn ar y materion tymor byr/canolig y cyfeirir atynt, gan gynnwys cwotâu cynhyrchu rhwydwaith y tu allan i Lundain?*
Gweler adran 7.

xviii) *Beth yw eich barn gychwynnol ar y dewisiadau rhagarweiniol a amlinellir sy'n ymwneud â chynnig newyddion rhanbarthol ITV plc?*
Yn gyffredinol, gwelwn rinwedd yng nghynigion ITV i newid patrwm eu darpariaeth newyddion rhanbarthol ac rydym yn credu y gallai ddod â mwy o amrywiaeth i ddarpariaeth newyddion rhanbarthol – gweler adran 7.

xix) *A ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o'r dewisiadau tymor byr posibl sydd ar gael sy'n ymwneud â rhaglenni plant; a oes unrhyw ddewisiadau eraill ar gael?*
Credwn fod Ofcom wedi gorbwysleisio pryderon ynglŷn â nifer, ystod ac ansawdd y ddarpariaeth bresennol i blant ac nad yw wedi ymgymryd yn ddigonol â'r rôl bwysig y gallai'r cyfryngau newydd a Five ei chyflawni wrth ddarparu rhaglenni plant. Serch hynny, yn amodol ar gymeradwyaeth gan yr Ymddiriedolaeth, mae'r BBC wedi ymrwymo i ymestyn a gwella ei wasanaethau ei hun ac rydym yn cefnogi'r ymrwymiad a wnaed gan Channel 4. Gweler adran 7 am ragor o fanylion.

xx) *A ydych chi'n cytuno y bydd angen cael deddfwriaeth newydd ar waith erbyn 2011 er mwyn sicrhau bod y dibenion cyhoeddus yn cael eu cyflawni'n barhaus yn y tymor canolig a'r tymor hir?*
Mae'r BBC yn cytuno ei bod yn debygol y bydd angen deddfwriaeth newydd tua 2011. Fodd bynnag, credwn fod gan Ofcom bwerau sylweddol i sicrhau bod dibenion cyhoeddus yn cael eu cyflawni yn y dyfodol mewn deddfwriaeth gyfredol a byddem yn ei annog i wneud y defnydd gorau o'r rheiny (e.e. o ran rheolau hysbysebu a chostau sbectrwm).

Er ei bod yn debygol y bydd angen cymeradwyaeth reoleiddio ar gynigion partneriaeth y BBC a

amlinellwyd yn gynharach –  mae'n annhebygol y bydd angen deddfwriaeth arnynt ac felly gellid eu rhoi ar waith yn gymharol hawdd.